

ECO'R WYDDFA

RHIF 360

TACHWEDD 2008

PRIS 40c

Yn y rhifyn hwn:

Nadolig Llawen? tud - 3

Cysylltu â'r Heddlu tud - 4

Siopau Dinorwig tud - 7

Llwyddo'n Lleol tud - 23

Gweithiwr Newydd Efe



DDEUFIS yn ôl, soniais am benodiad gweithiwr ieuencid cyntaf Cynllun Efe. Erbyn hyn, mae Andrew Settatee wedi cyrraedd yr ardal ac wedi dechrau ei waith. Ac mae'n fraint cael estyn croeso cynnes iddo ar ran pawb ohonom sy'n gysylltiedig â'r cynllun, a gobeithio hefyd ar ran yr eglwys a'r ardalwyr.

Rhag ofn na welsoch chi'r erthygl a gyhoeddwyd ym mis Medi, dowch i mi gyflwyno Andrew i chi. Cafodd ei fagu yn Sir Benfro, yn Hwlfordd, ar aelwyd Gristnogol. Wedi gadael Ysgol Tasker Milward yn y dref honno, dilynodd gwrw mewn astudiaethau ieuencid a chymunedol ym Mhrifysgol Aberystwyth, ac yna gwrw nyrsio ym Mhrifysgol Caerdydd. Bu'n gweithio fel nyrs yng Nghaerdydd, ac yna yn Awstralia dros y flwyddyn ddiwethaf.

Er iddo gael ei fagu yn ddi-Gymraeg, mae Andrew wedi llwyddo i ddysgu'r iaith yn ardderchog. Gwnaeth hynny chwe blynedd yn ôl pan dreuliodd bedwar mis yng Ngholeg y Bala.

Mae ganddo brofiad o waith Cristnogol yn ei eglwys gartref ac yng Nghaerdydd, ond dyma'r

tro cyntaf iddo dderbyn swydd lawn amser mewn gwaith cenhadol. Bydd yn cydweithio â'r eglwys i drefnu gweithgareddau a chyfarfodydd Cristnogol ar gyfer yr ieuencid, ac yn ymweld â'r ysgolion lleol pan fydd cyfle. O hyn i'r Nadolig, gobeithiwn y bydd yn dod i adnabod yr ardal a'i phobl, ac yn cymryd rhan mewn rhai cyfarfodydd yn y capeli a'r eglwys. Un o'r pethau cyntaf ar ei gyfer fydd cyfarfod newydd a fydd yn cychwyn i bobl ifanc blwyddyn 7 i 9 yn Capel Coch ar nos Sul o fis Tachwedd ymlaen. Trefnwyd y cyfarfod hwnnw ar y cyd gennym yn Capel Coch ac Eglwys Sant Padarn.

Ar hyn o bryd, mae Andrew'n byw yng Nghwm y Glo, a gwerthfawrogn y croeso a gaiff ar aelwyd Graham a Casi Thomas ym Min y Nant, Allt Goch, nes y caiff dy neu fflat i'w rentu. Os gŵyr un ohonoch am dy neu fflat rhesymol ei bris ym mro'r Eco, rhowch wybod i mi os gwelwch yn dda. Byddai Andrew yn barod i rannu tŷ os oes un neu ddau o bobl ifanc, dyweder, eisiau help at y rhent neu'r morgais.

Edrychwn ymlaen at gydweithio ag Andrew.

Gweddiwch drosto, os gwelwch yn dda, a thros bawb fydd yn cydweithio ag ef. Bwriad Cynllun Efe yw cyflwyno'r Arglwydd Iesu i ieuencid a phlant y fro. Yr Efengyl i Fro'r Eco yw'r weledigaeth.

Bydd cyfarfod arbennig cyn bo hir i groesawu Andrew ac i'w gomisiynu i'w swydd. Caiff y dyddiad ei hysbysebu mor fuan â phosibl.

Yn y cyfamser, bu chwech ohonom sy'n rhan o waith Efe yng Nghricieth nos Iau, Hydref 16, yn cyfarfod â chyfeillion sy'n gyfrifol am Gynllun Trobwynt, sy'n cynnal gweithwyr ieuencid Cristnogol yn Llŷn ac Eifionydd. Sefydlwyd Trobwynt dair blynedd yn ôl, ac mae'n amlwg

bod y gwaith yn llwyddo. Gobeithiwn weld llwyddiant tebyg yng ngwaith Efe. Cafwyd cyfle i glywed am waith y ddau gynllun ac i weddio dros y gwaith hwnnw. Pan ddechreuon ni drafod gwaith Efe dair blynedd yn ôl, roeddem yn gweld Trobwynt yn batrwm da o'r math o waith y dymunem ei ddatblygu yn y fro hon. Bryd hynny, roedd merch ifanc newydd ddechrau gweithio i Trobwynt. Ers hynny, mae Rachel wedi priodi bachgen o'r enw John Settatee, sydd bellach yn rhannu gwaith Trobwynt efo hi. A'r hyn sy'n rhyfedd yw bod John yn frawd i Andrew yr ydym ni bellach yn ei groesawu i fro'r Eco.

JOHN PRITCHARD



Plant Ysgol Sul Capel Bethel yn eu Gwasanaeth Diolchgarwch, dydd Sul, 19 Hydref. (Stori ar dudalen 8).

ECO'R WYDDFA

RHIF 360
TACHWEDD 2008
Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Tim Golygyddol
Erthyglau a newyddion
at ohebwyr pentref neu i
Penarth
Ffordd yr Orsaf
LLANRUG LL55 4BA

Straeon ac erthyglau ar e-bost
alwena@gwasgwynedd.com
storiau@ecorwyddfa.co.uk

CADEIRYDD
Y PWYLLGOR GWAITH
Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwynndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION
Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt,
Llanberis (870740)
eifion@eifionroberts9.wanadoo.co.uk

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLLEN: Nia Gruffudd (872133)
BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Sŵn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Ffynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

DYDD LLUN, 17 TACHWEDD

Os gwelwch yn dda

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, 27 TACHWEDD

Dyddiad Gosod

SUL 23 TACHWEDD am 5.00

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu â	Rhif Ffôn
Rhagfyr	17 Tachwedd	27 Tachwedd	Caeathro	Clive James	677 438

Plythyrâu

Annwyl Olygydd,
Antur Waunfawr

Apêl am Greiriau a Chefnogaeth
Ym mis Gorffennaf, estynnwyd gwahoddiad i unrhyw rai o'r cylch, sydd â diddordeb yn hanes Waunfawr, i gyfarfod yn yr Antur gyda'r bwriad o greu amgueddfa yn siop Bryn Pistyll. Mae'r siop ar hyn o bryd yn cael ei defnyddio i werthu cynnyrch gweithwyr yr Antur, yn gardiau, jamiau a chreffftwaith, ond rydym yn gobeithio ychwanegu at hyn drwy greu naws siop hanesyddol gan ddefnyddio'r creiriau sydd ym meddiant yr Antur ond sydd heb eu harddangos gennym eto.

Bu siop ym Mryn Pistyll ers 1830 a bu ym meddiant yr un teulu drwy gydol yr amser yma, sef teulu y diweddar R. Gwynn Davies, a sefydlodd yr Antur. Siop grydd oedd hi ar y dechrau, ond tyfodd dros y blynyddoedd i fod yn siop oedd yn gwerthu popeth, o fwydydd i ddillad, 'sgidiau a defnyddiau. Dyna sut y mae gennym gymaint o greiriau: rhoddodd Gwynn a Sioned, ei ferch, lawer o eitemau diddorol i'r Antur.

Yn ystod y misoedd i ddod rydym yn gobeithio cofnodi tystiolaeth lafar gan rai sydd ag atgofion o'r siop, neu'n wir, unrhyw siop a fu yn y pentref. Rydym hefyd yn gobeithio cynnal arddangosfeydd ysbeidiol o fewn y siop, fydd yn adlewyrchu agweddau eraill o fywyd y pentref, fel yr addoldai, y gweithle a thrafnidiaeth.

Mae llawer iawn o waith i'w wneud cyn y daw'r freuddwyd hon i fod. Hoffwn apelio felly at unrhyw rai sydd â diddordeb i ymuno â ni neu sydd â lluniau, creiriau neu atgofion a allai fod o ddiddordeb i'r prosiect i gysylltu â mi neu Ifanwy Rhisiart yn yr Antur. Byddem yn falch iawn o glywed gennych.

GILL WYN
(Cadeirydd) 650512
IFANWY RHISIART
(Rheolwraig Swyddfa)
650721

ADUNIAD YSGOL BRYNREFAIL

Gadael yn 1976?

Dowch i weld hen
gyfeillion yn
Bar Havanna,
Y Celt, Caernarfon
nos Wener,
5 Rhagfyr
tua 7.30

Paratoi am y '50'
yn 2010

Colgrove,
Montrose,
Colorado.

Annwyl Eco'r Wyddfa

Ar ran fy mrawd, Stan Closs Australia; fy nghyfnither, Lorraine Closs Hahn a'i gŵr, Eugene, o Cambria; fy mhriod, Gary, a minnau buaswn yn hoffi diolch i bawb am wneud ein hymwelid â Nant Peris yn un bythgofiadwy.

Diolch i *Eco'r Wyddfa* ac i Dafydd Whiteside Thomas am roi cyhoeddusrwydd i gyfarfod y Clossiaid, ac i Gwynndaf Hughes am dynnu lluniau ardderchog. Byddaf yn rhoi copi o'r *Eco* a llun ohonom o flaen Ty'n Llan, wedi ei fframio, yn yr Amgueddfa Gymreig yn Nebraska.

Diolch hefyd i Olwen Ebbrell a Margaret Roberts am drefnu, i Anne Cumberton am y croeso yn Nhy'n Llan, i Gwilym Hughes am ei waith ac i bawb a siaradodd yn gyhoeddus, ac i'r rhai a ddaeth â lluniau a dogfennau i'w dangos.

Roeddwn wedi gwirioni o weld cymaint o deulu newydd wedi dod atom. Ni wnaeth byth anghofio pawb yn adrodd gweddi'r Arglwydd yn y fynwent, a gwyddwn bod fy rhieni yn gwenu i lawr arnom, a 'nhad, Ellsworth Closs, yn canu gyda ni. Diolch hefyd i'r Clossiaid a fethodd ddod yno ond a gysylltodd â mi wedyn.

Ni chawsom ddigon o amser i weld popeth a sgwsio gyda phawb, ond gobeithiaf anfon gair i bob un a roddodd ei gyfeiriad ar y rhestr. Os na wnaethoch chi

RHODDION

£25: er cof am Vera Griffiths, 8
Glanrafon Bungalows,
Llanberis.

£20: Er cof am Mair Eluned
Jones, 24 Hafan Elan,
Llanrug; Nesta Barton,
Godre'r Foel, Rhiwen,
Deiniolen; Elizabeth Jones,
Janice, Glenda, Keith a Kevin,
7 Rhes Cambrian, Llanberis.

£10: Vivienne, 89 Maes
Padarn, Llanberis; teulu'r
diweddar Keith Williams, 8
Rhes Fictoria, Deiniolen;
Margaret Roberts, Caernarfon,
ar ran Teulu'r Clossiaid.

£5: Olwen Owen, 10 Maes
Derlwyn, Llanberis; Kelvin a
Nia Owen, Cwm y Glo; Mrs
Marian Williams, 18 Stad Ty
Hen, Waunfawr; Mrs Megan
Pritchard, 3 Hafan Elan,
Llanrug; Mrs Eirlys Williams,
Berllan, Tal y Bont, Llanrug;
Mrs Olive Jones, 1 Hafod
Olau, Deiniolen; John
Hughes, Prenteg, Deiniolen;
Eurwen Roberts, 47
Rhydfadog, Deiniolen

hynny, ffoniwch Margaret ar
(01286) 672757, er mwyn i mi gael
eich cyfeiriad.

Rydym yn gobeithio dod i
Llanberis eto a chael mwy o amser
bryd hynny.

Gyda Diolch i Bawb

GWENITH CLOSS

INCWM A GWARIANT AM Y FLWYDDYN I 31 MAWRTH 2008

2006-07		2007-08
	Incwm	
5860.03	Gwerthiant	5883.23
9458.30	Hysbysebion	10065.00
250.00	Dosbarthu taflenni	100.00
1779.20	Rhoddion	1455.00
	Grantiau	
1306.00	Bwrdd yr Iaith Gymraeg	1332.00
	Cynghorau Cymuned	
	Llanberis	500.00
0.00	Llanddeiniolen	200.00
200.00	Llanrug	550.00
550.00	Waunfawr	250.00
0.00	Betws Garmon	15.00
0.00	2056.00	2847.00
188.85	Cystadleuaeth Tlws yr Eco	85.00
266.37	Llog Banc	374.88
100.00	Incwm arall	0.00
19958.75		20810.11
	Gwariant	
17653.46	Argraffu	19847.71
0.00	Gwobrau (Croesair)	0.00
404.51	Post	384.58
7.58	Papur, amlenni ayyb	38.34
123.34	Offer	0.00
176.25	Costau Gwefan	0.00
0.00	18365.14	0.00
		20270.63
1593.61	"Elw" am y flwyddyn	539.48

Arwyddwyd: G HUGHES
(Trefnydd ariannol)

Nadolig Llawen?

A ninnau'n agosáu at y Nadolig – mae'r amser wedi dod i rai ohonom ystyried archebu'r anrhegion y mae ein plant yn eu deisyfu. Mae'n amser drud ac mae'n amser i ni feddwl hefyd sut bethau yw'r anrhegion – ac yn enwedig yr holl declynnau electronig – y mae ein plant yn eu chwenychu.

Dyma lythyr gan Bwyllgor Eglwys a Chymdeithas Eglwys y Presbyteriaid, Henaduriaeth Arfon, a'r hyn sydd wedi ein sbarduno i ysgrifennu yw ein pryder ynglŷn â'r hyn sydd yn digwydd i blant heddiw. Mae arbenigwyr plant o'r farn bellach fod ein bywyd a'n diwylliant cyfoes yn niweidio ein plant. Cyfeiria awdur y llyfr *Toxic Childhood*, Sue Palmer, at yr elfennau hyn fel 'coctél gwenwynig.'

Daeth Prydain ar waelod rhestr o 21 o wledydd 'datblygiedig' mewn adroddiad diweddar UNICEF ar les plant (*Child Poverty in perspective; An overview of child well-being in rich countries*), ac yn dilyn y sylweddoliad sobreiddiol hwnnw cafodd y pwyllgor uchod drafodaeth fywiog. Hoffem rannu gyda chi ychydig o ffrwyth ein hymwchil.

1) Mae problemau emosiynol plant wedi cynyddu 70% dros y 30 mlynedd diwethaf, yn ôl astudiaeth a wnaethpwyd yn Lloegr yn ddiweddar.

2) Mae diffyg rheolaeth ar

ddeunydd treisgar/rhywiol ar y cyfryngau yn achos pryder i arbenigwyr plant. (Mae'n galonogol deall fod rhai camau i fynd i'r afael â hyn wedi cychwyn yn ddiweddar o dan oruchwyliath y Cyngor Prydeinig ar Ddiolgelwch y We (*The UK Council for Child Internet Safety*))

3) Mae mwy o blant ym Mhrydain â theledu yn eu llofftidd nag unrhyw wlad arall yn y byd, ac eto, meddai un arbenigwraig, 'rhaid gwarchod plant rhag cyfryngau oedolion fel rydym yn eu gwarchod rhag cemegau peryg o gwmpas y tŷ.'

4) Mae 89% o blant rhwng 10 a 19 oed ym Mhrydain â ffônau symudol, ac eto mae ymchwil diweddar gan Dr Vini Khurana, niwrolawfeddyg adnabyddus, yn dangos eu bod nhw'n gallu bod yn andwyol iawn i iechyd plant. Yn ôl papur yr *Independent* yn ddiweddar, 'Brain expert warns of huge rise in brain tumours and calls on industry to take immediate steps to reduce radiation.'

5) Dywedodd arbenigwr ar fwyd maethlon, Patrick Halford, yn 2005 ein bod ni'n gweld anghydbwysedd syfrdanol yng nghemeg yr ymennydd sydd wedi ei achosi gan y math o fwydydd y mae miliynau o blant yn ei fwyta.

6) Mae ffasiwn genod bach yn gynyddol 'rywiol': e.e logo *Playboy* i'w weld ar eitemau sydd yn cael eu marchnata i

blant. Mae'r modd y mae 'grym y farchnad' yn troi plant bychain yn wrthrychau rhywiol yn achos pryder mawr.

7) Mae ein plant yn cael eu magu mewn oes tu hwnt o arwynebol; mae diwylliant tabloidaidd gyda chymaint o bwyslais ar 'selebriti' yn tanseilio gwerthoedd cymdeithasol ac yn gallu niweidio hunanhyder a hunanwerth plant.

Rydym, fel pwyllgor, wedi bod yn gohebu â llysgenhaddon y gwledydd a ddaeth ar frig adroddiad UNICEF ar les plant, ac mae'n amlwg o'r ymatebion sydd wedi ein cyrraedd fod y gwledydd hyn wedi bod yn cymryd camau i ymateb i'r sefyllfa bryderus hon. Dyma rai enghreifftiau:

i) Mae llywodraeth Norwy yn darparu gwybodaeth i blant ac i rieni parthed y cyfryngau diweddaraf a'u peryglon.

ii) Mae'r Swisdir mewn adroddiad diweddar yn cydnabod yr angen i warchod plant rhag y deunydd niweidiol sydd ar y we.

iii) Mae'r holl wledydd Llychlynnaidd wedi gwneud ymchwil yn ddiweddar ynglŷn â'r ffaith fod y gofod cyhoeddus wedi datblygu yn ofod mwy rhywiol (*sexualization of public space*) a bydd canllawiau yn dilyn y canfyddiadau yn cael eu hymgorffori gan lywodraethau'r gwledydd hyn.

iv) Yn Sweden mae hysbysebu nwyddau i blant o dan 12 oed yn anghyfreithlon.

v) Mae Norwy yn argymhell cynlluniau sy'n ei gwneud hi'n anodd i blant gael diodydd swigod.

vi) Gyda 5 miliwn o bobl, nid yw Denmarc yn wlad fawr mwy na Chymru, ond eto mae yno 240 o ysgolion cerdd i blant a phobl ifainc. (Faint, tybed, sydd yng Nghymru? Llund llaw ar y gorau!)

Hoffem weld adferiad cymdeithasol a fyddai'n sicrhau bod hawliau plant yn cael mwy o sylw, a bod lles plant yn dod yn fwy o flaenoriaeth.

Llwyddodd deiseb ddiweddar Chwiorydd Henaduriaeth Arfon (a gasglodd enwau trwy Sasiwn Gogledd Cymru) i godi ymwybyddiaeth a thynnu ein sylw at y pethau hyn.

Gofynnwn i chi ddwyn y materion hyn i sylw eich Cynghorwyr, eich Aelodau Cynulliad a'ch Aelodau Seneddol, a'u trafod mewn unrhyw gyd-destun perthnasol.

Diolch.

AR WERTH ar gyfer llofft babi

Gwely bach Ikea mewn coedyn – mae modd ei ymestyn fel mae'r plentyn yn tyfu.

£88 yn newydd – gofyn £40.

Bwrdd newid (Mamas & Papas) mewn coedyn: £25

Cot Ikea (dim matres): £15

Cysylltwch â Gwion ar
07875632041 i drafod.

Cefnogwch ein Hysbysebwr

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE, Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat – nosweithiau allan, partiön, triapiau ac ati.

Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

- Priodasau • Dathliadau
- Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
- Pwyllgorau • Bwydlen Bar
- Cinio Dydd Sul

THE LEGACY
ROYAL VICTORIA HOTEL
LLANBERIS

wrth droed yr Wyddfa

Ffôn: Llanberis (0)870 832 9903

H. E. HUGHES A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys
LLANBERIS

FFôn: 870444



- Gwerthwyr Glo ac
- Olew Gwres Canolog i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

CYSYLLTU A'R HEDDLU

Ar ôl siarad gyda'r cyngor cymuned lleol yn Llanrug, daeth i'r amlwg nad yw bob amser yn glir beth yw'r ffordd orau i gysylltu â'r heddlu. Mae pawb yn gyfarwydd â'r rhif brys, ond sut mae cysylltu efo'r heddlu ynglŷn â materion eraill? Mae angen i'r heddlu gyfathrebu'n fwy effeithiol gyda chymunedau lleol, felly mae angen i ni roi gwybod i bobl sut i fynd ati i siarad efo'r heddlu.

I ddechrau - y rhif mewn argyfwng - 999. Mae pobl yn parhau i fod braidd yn amharod i'w ddefnyddio, hyd yn oed pan maen nhw'n gweld trosedd yn digwydd ar y pryd.

Os ydych yn gweld trosedd yn digwydd, ffoniwch y rhif hwnnw a chofiwch roi gymaint o fanylion â phosibl. Yn yr un modd, os ydych yn credu bod rhywun mewn perygl am ba reswm bynnag, unwaith eto - dyna bwrpas y rhif. Os nad ydych yn siŵr os ydyw'n fater brys ai peidio, gwell bod yn ddiogel a defnyddio 999 a gadael i'r sawl sy'n ateb y ffôn yn yr ystafell reoli wneud y penderfyniad. Cofiwch, pan fyddwch yn ffonio'r heddlu, does ddim rhaid i chi roi eich enw. Gallwch hefyd wneud cais bod y swyddogion sy'n delio â'r

mater yn cysylltu â chi, neu ddim yn cysylltu â chi, ac ym mha ffordd yr hoffech iddynt wneud hynny. Pwynt arall gwerth ei wneud yw, bob tro mae rhywun yn ffonio ac yn rhoi gwybod i'r heddlu am rywbeth sy'n digwydd, boed hynny'n drosedd neu'n ddigwyddiad (e.e. gwartheg ar y ffordd), yna mae'r digwyddiad/trosedd hwnnw'n cael rhif ac yn cael ei neilltuo i swyddog. Gofynnwch am y rhif hwnnw, wedyn os ydych eisiau cysylltu â'r heddlu eto yn hwyrach ymlaen, yna bydd gennych gyfeirnod i'w roi. Gallwch ofyn beth oedd canlyniad y digwyddiad neu fod y swyddog a neilltuwyd ar gyfer y mater yn cysylltu â chi. Fe allwch hyd yn oed ychwanegu mwy o wybodaeth i'r digwyddiad penodol hwnnw.

Felly, sut mae cysylltu â'r heddlu pan nad yw'n fater o argyfwng? Dywedwch eich bod eisiau riportio trosedd ar ôl iddo ddigwydd, neu gweld sut aeth hi efo rhyw ddigwyddiad neu drosedd a riportwyd gennych o'r blaen. Y rhif di-frys yw 0845 6071001 (llinell Gymraeg), 0845 6071002 (llinell Saesneg). Gallwch ddefnyddio'r rhif yma i roi gwybodaeth i'r heddlu

rydych chi'n credu y dylent fod yn ymwybodol ohono. Cofiwch, os ydych yn riportio digwyddiad neu drosedd penodol, nodwch rif y digwyddiad neu'r cyfeirnod.

Efallai bydd rhai pobl yn teimlo bod defnyddio'r dulliau ffurfiol yma o gysylltu braidd yn amheronol neu'n ddychrynlyd. Ond mae'n golygu bod popeth yn cael ei gofnodi'n iawn a bod modd cael digon o adnoddau i ddellio'n effeithiol â'r mater.

Mae yna ddulliau o gysylltu â'r heddlu ar lefel mwy lleol ynglŷn â materion di-frys. Gallwch gysylltu â'ch tîm plismona cymunedol lleol ar eu ffonau symudol, neu trwy gyfrwng e-bost yn ogystal ag yn bersonol yn yr orsaf leol neu yn y cymorthfeydd sy'n cael eu cynnal mewn rhai pentrefi. (Mae'r rhain wedi eu rhestru isod). Gall y timau lleol yma roi cyngor i chi ar unrhyw fater, ond cofiwch na ddylech ddefnyddio ffôn symudol swyddog i riportio unrhyw alwadau pwysig a galwadau brys oherwydd nid ydynt yn gweithio o hyd.


Mae'r heddlu'n cynnal cymorthfeydd agored yn y lleoliadau isod: Mynydd Gwefru, Llanberis, ar y dydd Mercher cyntaf ym mhob mis rhwng 1200 a 1300og; Canolfan Gymunedol, Llanrug,

Ffordd yr Orsaf; ar y dydd Mercher cyntaf ym mhob mis rhwng 10.00 ac 11.00 o'r gloch; Tŷ Elidir, Stryd Fawr, Deiniolen ar y dydd Mawrth cyntaf ym mhob mis rhwng 10.00 ac 11.00 o'r gloch.

Manylion cysylltu Tîm Plismona Cymunedol Dyffryn Peris:

PC 1871 Phil Kennedy, Ffôn 0845 6071002 Est 85285, ffôn symudol 07810814037 E-bost: Phillip.Kennedy@nthwales.pnn.police.uk

SCCH Michael Couling, Ffôn 0845 6071002 Est 85285, ffôn symudol 07854332216 E-bost: Michael.Couling@nthwales.pnn.police.uk



GWYNANT PIERCE

Cynrychion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901




RHEILFFORDD LLYN PADARN



Dewch am daith ar y trên bach i weld Siôn Corn, anrheg i bob plentyn a mins pei a diod i'r oedolion.

Rhagfyr 7,13,14, 20 a 21
Oedolion a phlant £6
(o dan 3 oed - £2.50)
Archebwch rŵan - mae'r
trenau yn brysus lenwi.



Ffôn: **01286 870549** am fanylion.

WEDI YMDDEOL? YN DDIWAITH?

Yn chwilio am rywbeth i wneud yn ystod y dydd?

Os ydych â diddordeb mewn ymuno â chlwb i chwarae Snwcer, Tennis Bwrdd, dysgu sut i ddefnyddio cyfrifiadur neu ryw ddiddordeb arall yn y Sefydliad Coffa Llanrug yn ystod y dydd, cysylltwch â

Meurig Parry ar (01286) 674497
neu Goronwy Hughes ar (01286) 674839.

Mae pobl dros 50 oed yn ymddiried yng nghynhyrchion a gwasanaethau Age Concern

Yswiriant Cartref

Yswiriant Cerbydau a Diffyg ar y Modur

Yswiriant Teithio

Cynllunio Angladd

Cyflenwadau Trydan a Nwy

Am fwy o wybodaeth ymwelwch â ni yn:

Age Concern Gwynedd a Môn
Ty Seiont, Ffordd Santes Helen
Caernarfon, Gwynedd LL55 2YD

01286 678310

gan ddyfynnu'r cyfeirnod: ALL700

AGE
Concern

Os byddwch yn cysylltu â swyddfa Age Concern, byddwch yn ymwneud â chynhyrchion penodol o Age Concern Enterprises Limited (ACEnt). Mae ACEnt wedi ei awdurdodi a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA) ar gyfer cyfngiad yswiriant. Mae'r Age Concern uchod yn elusen gofrestrdd.

PEUGEOT
BMW
SKODA
CLUTCHES
TYRBO
BRÉCS
ABS
FIAT

AUDI SEAT PORSCHE VOLKSWAGEN

DIESEL PETROL CHWISTRELLIAD ARBENIGWYR

***Cymhwyter* BOSCH**
i roi gwasanaeth i'ch car
heb effeithio ar
y warant*
Dewis arall dibynadwy
yn lle'r Prif Ddeliwr
* Gyda rhai amodau

Trwsio cerbydau a gwerthu partiau sbâr
Lle da y gellwch ei fforddio

Stâd Cibyn, Caernarfon, Gwynedd LL55 2BD
(01286) 673559 www.a-v-w.co.uk

AVW Gwasanaeth i'r Car
AIR CON GWASANAETH BATRIS

VOLVO MERCEDES SAAB

MEWNFORIO
YR ALMAEN
UNIONI OLWYNION
CAM BELTS
TRYDANOL
SWEDEN

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD. OEDFAON HYDREF.

Gwasanaethwyd ar y Sul cyntaf o'r mis gan y Parch Harri Owain Jones, Llanfairpwll, a chafwyd oedfa fendithiol pryd y gweinyddwyd y Sacrament o Swper yr Arglwydd.

Ar 12 Hydref, gwasanaethwyd gan y Parch Gerallt Lloyd Evans, Llangristiolus, a chafwyd neges rymus ganddo. Cyhoeddodd hefyd am ei astudiaeth ddiweddar o gyfnod cynnar y Parch Tom Nefyn Williams (1904-1919) a gyflwynir ganddo i Gymdeithas Lenyddol Capel Ederm dan y testun 'O Fodeillias i Festri Ederm' nos Fercher, 26 Tachwedd am 7.30 o'r gloch (union 50 mlynedd i ddydd ei angladd). Estynnir gwahoddiad cynnes i unrhyw un i ymuno ar y noson.

Y Parch D. John Pritchard oedd yn gwasanaethu ar y trydydd Sul. Cafwyd neges bwrpasol ac

amserol ganddo ar gyfer yr Oedfa Ddiolchgarwch.

PROFEDIGAETH. Trist oedd coffáu ddechrau'r mis y ddiweddar Mrs Joan Williams, Clwt y Bont, a fu farw yn Ysbyty Gwynedd ar 26 Medi. Bu Joan yn aelod o'r Eglwys a gweithgareddau'r Gymeithas ers ymaelodi ym Mrynrefail dros ddeuddeg mlynedd yn ôl, yn dilyn dwyn yr Achos i ben yn yr Ysgoldy. Fe'i cofiwn am ei sirioldeb, ei ffyddlondeb a'i theyrngarwch i bob oedfa a chyfarfod lle gwelir bwlch amlwg. Bu'r angladd yn Amlogfa Bangor ar 2 Hydref. Gwasanaethwyd gan y Parch D. John Pritchard. Cydymdeimlwyd yn ddwys ag Emyr, ei phriod, ei mab a'i merch, Gwynedd a Marian a'r teulu oll.

OEDFAON TACHWEDD

2: Parch Dafydd Lloyd Hughes, Caernarfon

9: Parch W.R. Williams, Y Felinheli

Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd

16: Mr T. Alun Williams, Caernarfon

23: Mr Dafydd Iwan, Caeathro

30: Parch Marcus Wyn Robinson, Bethel.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Ar nos Iau, 16 Hydref, cynhaliwyd cyfarfod o gangen y Sefydliad yn y Caban.

Estynnodd Pat Jones, y Llywydd, groeso cynnes i bawb ac fe'n difyrwyd gan y consuriwr anhygoel, Howard Hughes. Cafwyd noson hwyliog dros ben. Daeth Sefydliad y Merched y Felinheli a'r Waunfawr atom fel gwesteion a chawsant hwythau hefyd yr un mwynhad o weld dawn fedrus y consuriwr.

Bydd ein cyfarfod nesaf at 20 Tachwedd, pan fyddwn yn 'Blasu'r Nadolig'.

O SIAMBAR SELWYN

R. Williams Parry ddywedodd, '—efallai nad yw'r delyneg lawer gwaeth o fethu ei chofio, ond nid englyn ond a gofier.' Does dim mwy diflas i'w ddarllen nac englyn sâl — englyn y mae ôl trwm yr *Odliadur* a'r geiriadur arno. I ddyfynnu R.W.P. eto,

'Gorchest anodd yw saernio englyn celfydd. Camp englyn yw dehongli'r testun fel ag i argyhoeddi'r darlennydd, nid yn unig na chanwyd cystal arno erioed o'r blaen, ond na chenir byth yn well. Godidowgrwydd englyn yw ei undod, ei symlwydd, a'r ergyd. Arwyddion sicraf gwaith sâl ar englyn yw geiriau llanw, ymdroddion geiriadurol, termau diafael ac ansoddeiriau di-wead. Methaf weld mai gogoniant englyn yw dywedyd cymaint ag a ellir mewn cyn lleied o le ag sydd bosibl. Nid map ddylai englyn fod, ond snapshot.'

Ia, tipyn o ddweud. Ond, onid oedd o yn bencampwr ar greu englynion a oedd bob amser yn cyffwrdd y darlennydd. Mesur trwyadl Gymreig ydi'r englyn, a pherthyn i ni fel cenedl y mae'r gynghanedd. Wrth gwrs, mae'n bosibl llunio englynion yn Saesneg yn ogystal, ond ran amlaf, englynion ysgafn, heb fawr o sylfaen iddynt, ydi rheiny. Bydd ambell Sais yn gofyn i mi weithiau egluro beth ydi'r gwahaniaeth rhwng cystadlaethau'r Gadair a'r Goron yn yr Eisteddfod Genedlaethol, ac wrth geisio ei oleuo ar yr hyn a elwir gennym yn fesur caeth, mi fydda i'n dyfynnu'r englyn hwn

Keep cool when you rule the rally,
— in sleet

Go slow round corneli,
To Knock bullock in belly
To far side, not fair you see.

O feddwl am y miliynau o linellau cynganeddol sydd wedi cael eu llunio dros y canrifoedd, mae'n wyrthiol mai anaml iawn y deun ar draws yr union linell, air am air. Wrth gwrs, cawn gannoedd o hen

drawiadau, ond pur anaml yr union eiriau mewn llinell seithsill. Ond fe ddigwyddodd fwy nag unwaith, reit siŵr. Cyddigwyddiad oedd i hyn ddigwydd yn yr Eisteddfod Genedlaethol ar ddau achlysur, a'r ddwy eisteddfod yn digwydd bod yng Nghaernarfon.

Yn 1921, pan enillodd Meuryn gyda'i awdl delynegol 'Min-y-Môr, mae'r awdl yn cynnwys y llinell 'Aderyn du draw'n y dail'. Yn 1959, T. Llew Jones a enillodd ar y testun 'Y Dringwr', awdl sydd hefyd yn cynnwys yr union linell, 'Aderyn du draw'n y dail'. Ia, tipyn o gyd-ddigwyddiad.

Mae'n anodd deall pam fod y nifer sy'n cystadlu'n flynyddol ar gystadlaethau'r mesurau caeth wedi lleihau. A hynny o ystyried bod yna gymaint o ddosbarthiadau dysgu'r cynganeddion led-led Cymru.

Yn 1947, pan enillodd Dewi Emrys ar yr englyn yn Eisteddfod Genedlaethol Bae Colwyn, roedd yna 220 wedi cystadlu. Y wobr oedd £1! Y llynedd yn Sir y Fflint, dim ond 29 a fentrodd, a hynny am wobwr o £100! Oedd, roedd dros ddau gant yn cystadlu'n flynyddol ar yr englyn yn y Genedlaethol ganol y ganrif ddiwethaf. Ac fe gafwyd englynion cofiadwy, megis, 'Y Gorwel', 'Y Ci Defaid' a'r 'Llwybr Troed'.

Mae natur yr englyn wedi newid. Englynion disgrifiadol a gafwyd yn y dyddiau a fu. Heddiw, anelir at lunio englynion delwedol ac mae ambell un, rhaid i mi gyfaddef, yn ymddangos i mi fel rhyw bôs cynganeddol. Dyna pam, o bosib, fod englynion fel 'Y Gorwel' a'r 'Ci Defaid' ac amryw o rai eraill wedi aros ar y cof.

I gloi hefo R. Williams Parry eto, 'Nid englyn ond a gofier', ac ymfalchiwn yng ngwyrth y gynghanedd — wythfed rhyfeddod Cymru.

Beth am i chi, ddarllenwyr yr *Eco*, anfon eich hoff englyn ata i!

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**

**33 Stryd Fawr
PORTHAETHWY**

Ffôn: (01248) 714043

neu **Caernarfon**

Ffôn: (01286) 674520

Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

**13 Y Maes,
Caernarfon.
LL55 2NF
01286 672333**

**GWYLIAU
Seren Arian**



£69
"Stalls"

DUFFY

**Apollo Mancelnlon
Sadwrn 29 Tachwedd 19.00yn**

Yn cynnwys
bws moethys a tocyn
i'r cyngerdd.

www.silverstarholidays.com

Caffi Caban

ar Agor

9 y bore tan 4 y pnaun - 7 diwrnod yr wythnos

Cwmni cydweithredol di-elw yw Caban Cyf. wedi ei sefydlu i hwyluso datblygiad economaidd cefn gwlad.

Nod Caban Cyf. yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refeniw (Caffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffu a Llunopio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (Unedau Busnes Caban) er mwyn creu cyfleoedd gwaith.

Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail

www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. Ffôn: 677263

NOSON CAWS A GWIN. Cynhelir Noson Caws a Gwin yn Sefydliad Coffa Llanrug, nos Fercher, Tachwedd 19, am 7.30 o'r gloch. Yn ystod y noson cawn groesawu Llywydd Plaid Cymru, Dafydd Iwan, a bydd yn ein diddanu â gair a chân neu ddwy. Croeso cynnes i bawb i ddod i fwynhau'r noson. Mynediad drwy docyn £4.00, ar gael gan Meirwen (675359), Nan (675668) neu Vera (674878).

PLAID CYMRU

Nos Fercher, Tachwedd 19

Am 7.30 pm

NOSON CAWS A GWIN

gyda gair a chân neu

ddwy gan y Llywydd

DAFYDD IWAN

yn y Sefydliad Coffa, Llanrug

Mynediad trwy docyn £4.00

PLAID CYMRU. Daeth aelodau a chefnogwyr Plaid Cymru yn Llanrug at ei gilydd nos Fercher, Hydref 15, i Noson Goffi yn y Sefydliad Coffa, a chafwyd noson ddifyr yn sgwrsio, gwerthu a phrynu. Gwnaed elw da ar y noson, a derbyniwyd cyfraniadau sylweddol at waith y gangen. Diolch yn arbennig i Mair a Meirwen am ddarparu'r coffi a'r te, i Vera am ofalu am y raffi, ac i Phyllis am lywio'r noson.

YSGOL GYNRADD LLANRUG.

Aeth criw o ddisgyblion o Flwyddyn 5 a 6 i aros yng Ngwersyll yr Urdd am dridiau. Mwynhaodd pawb y profiad yn fawr iawn gan fanteisio'n llawn ar yr holl gyfleusterau sydd gan y ganolfan i'w gynnig.

Llongyfarchiadau i'r holl ddisgyblion a gymerodd ran yng Ngala Nofio'r Urdd ym Mangor. Gwnaeth pob un ohonynt yn dda iawn ac mae pawb yn falch iawn ohonynt.

Er mwyn codi ymwybyddiaeth y disgyblion o ddiogelwch yn y cartref, daeth injan dân a'i chriw i ymweld â disgyblion y Dosbarth Derbyn.

Daeth llond gwlad o fedalau i'r ysgol yn ystod y mis. Cyflwynwyd y medalau ar ran y gwasanaeth llyfrgell i'r disgyblion hynny oedd wedi llwyddo i gwblhau her y Tîm Darllen. Mae hyn yn golygu eu bod wedi ymweld â'r llyfrgell o leiaf chwe gwaith yn ystod cyfnod gwyliau'r haf i ddiwedd mis Medi ac wedi llwyddo i ddarllen o leiaf chwe llyfr.

Rydym yn croesawu Anti Lynda atom yn ystod yr awr ginio i oruchwylio yn y neuadd. Rydym hefyd yn croesawu dwy fyfyrwraig o Brifysgol Bangor atom - Carys i Flwyddyn 6 a Siwan i Flwyddyn 2.

Y SEFYDLIAD COFFA. Enillwyr Clwb Cant mis Hydref yw: £20: Mrs M. Davies, Bod Awel; £7: Mrs E. Jones, Lyndale; £5: Mrs M. Parry, Wenllys.

DIOLCHIADAU. Dymuna Megan Pritchard, 3 Hafan Elan, ddiolch o galon i bawb am gofio amdani ar achlysur ei phen-blwydd yn 95 mwydd oed ym mis Hydref. Diolch hefyd am y llu cardiau ac

anrhegion, ac i bawb a alwodd i'w gweld.

DYMUNIADAU DA. Dymunir ymddeoliad hapus i 'Anti Eirlys', sef Eirlys Williams, ar ôl gweithio am 23 o flynyddoedd yng nghegin yr Ysgol Gynradd. Gweler hi yn mwynhau noson allan gyda genod y gegin a ffrindiau'r ysgol. Pob dymuniad da, bydd chwith mawr ar eich ôl.



DIOLCH. Fe ddymuna Eirlys Williams, Berllan, ddiolch o galon i staff yr ysgol, ffrindiau a'r teulu am eu caredigrwydd a'u dymuniadau da ar achlysur ei hymddeoliad o'r gegin. Gyda llawer o ddiolch i Bethan a'r genod i gyd am eu caredigrwydd mawr hwythau ac am drefnu'r noson allan. Diolch yn fawr iawn.

BABI NEWYDD. Llongyfarchiadau mawr i Nia Gwawr a Gwyn ab Elwyn, 10 Tan y Cae, Bethel, ar enedigaeth eu mab bach, Llŷr Arawn Elwyn, ar 29 Medi. Mae Taid a Nain, Doug ac Avril Jones, Stad Minffordd, wedi gwirioni, ynghyd â Cemlyn a Gwenan, ar gael nai bach. Pob bendith i chi fel teulu.

DYMUNA Beryl, Phil, Meleri, Fflur a theulu y ddiweddar Mair Eluned Jones, 24 Hafan Elan (Ogwen



Hogia Llanrug yn y Great North Run

Pump o fechgyn Llanrug a gymerodd ran yn yr hanner marathon o Newcastle i Gateshead. (O'r chwith): Gwion Llwyd (gyda Tomos, ei fab, ar ei gefn, ond dim ond ar gyfer y llun!); Rhodri Llwyd, ei frawd, Dylan Thomas a'i dad, Bryn, a Daniel Parry. Da iawn chi hogia.

gynt), ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad tuag atynt yn eu profedigaeth o golli Mam, Mam yng nghyfraith a Nain arbennig iawn. Diolch yn arbennig i Dr Huw Roberts a Dr Esyllt am eu gofal ac am y rhoddion hael tuag at Feddygfa Waunfawr. Diolch i Mr Merfyn Jones am ei wasanaeth ac i Dylan Griffith am ei drefniadau trylwyr.

DIOLCH. Dymuna Mrs Patsy Cropper a Mr John Walsh a'u teuluoedd ddiolch i bawb am eu caredigrwydd tuag atynt pan gollasant eu mam annwyl, Mrs Jean Walsh. Bu'r holl eiriau o gydymdeimlad gan deulu, ffrindiau a chydabod yn gysur mawr iddynt. Hefyd fe gasglwyd swm anrhydeddus iawn er cof am Mrs Walsh, sydd wedi ei gyflwyno i fudiad CAFOD a mawr yw diolch i teulu i bawb a gyfrannodd.

CAPEL Y RHOS. Ar fore Sul, Medi'r 7fed, bedyddiwyd dau blentyn bach gan y Parch. Marcus Robinson. Croesawyd Siwan Medi a Guto Ewart Parry a'u teuluoedd a braf iawn oedd gweld y capel bron yn llawn.

DIOLCHGARWCH. Cynhaliwyd gwasanaeth Diolchgarwch yr Ysgol Sul ar fore Sul, Hydref 19eg. Cyflwynwyd eitemau graenus gan grwpiau ac unigolion

i gynulleidfa deilwng iawn. Mrs. Ann Thomas oedd yn cyfeillio.

Bore trannoeth, ar Hydref 20fed, cafwyd gwasanaeth o Ddiolchgarwch traddodiadol cydenwadol bendithiol iawn. Dan arweiniad y Parch. Marcus Robinson cymerwyd rhan gan nifer o'r aelodau. Y cyfeillydd oedd Mrs. Carys Jones. Yn dilyn y gwasanaethau, dosbarthwyd y ffrwythau a'r llysiau ymysg aelodau a ffrindiau'r capel.

OEDFAON MIS TACHWEDD

2: Y gweinidog (Cymun)

9: Mr Dave Roberts

16: Y gweinidog

23: Y Parch. Athro Gwilym H. Jones

30: Mrs Mererid M Williams.

MERCHED Y WAWR.

Cychwynnwyd y noson drwy ganu Cân y Mudiad gyda Bethanne yn cyfeillio. Croesawyd nifer dda o aelodau a ffrindiau gan y Llywydd, Phyllis Elis.

Er gwaetha'r noson stormus a gwlyb roedd ein gwestai yn amlwg yn denu diddordeb. Darllenwyd llythyr o ddiolch gan Gymdeithas Cŵn Tywys a chafwyd llythyr o ymddiheuriad gan Gangen Waunfawr. Atgoffir y ddau dîm o'r cwis Hwyl nos Wener, 7 Tachwedd. Ar 5 Rhagfyr cynhelir Ffair Aeaf a chynllunio cerdyn



Disgyblion Ysgol Llanrug yn 1954 gyda'u hathro, Mr Garrison Williams, yn gweithio ar gylchgrawn yr ysgol Y Garreg Las. Yn sefyll (o'r chwith): Margaret Jean Owen, Gwyneth Jones, Gwynifer Williams, Carys Williams, Rene Morris, Mr Garrison Williams, Miriam Cae Hywel, Raymond Hughes, Gwynfor Jones. Yn eistedd: Carys Roberts a Cynthia Jones. Diolch i Rene am y llun ac am lenwi'r bylchau!

Nadolig. Mae'r Mudiad yn casglu brongysylltau (bras) yn ystod y flwyddyn i helpu merched difreintiedig y trydydd byd. Defnyddir rhai i lenwi matresi.

Cytunwyd i gyflwyno rhodd i Eisteddfod Bentref Llanrug/Cwm y Glo ac i Eisteddfod Bentref Penisarwaun. Bydd Is-bwyllgor y Dysgwyr yn cynnal Ysgol Undydd yn Ysgol Maesincla ar Sadwrn, 15 Tachwedd o 2.00-4.00 o'r gloch. Byddwn yn dathlu'r Nadolig yn y Caban, Brynrefail ar nos Fawrth, 9 Rhagfyr.

Un o ferched Maldwyn oedd ein siaradwraig fyrlymus. Un o Benybont Fawr, Llanfyllin, ond yn byw yn y Parc, y Bala, ers blynyddoedd yw Mair Penri. Perfformwraig o fri - wedi ennill sawl tro yn yr eisteddfodau bach, mawr a'r Genedlaethol, ac enillydd Medal Sr T.H. Parry Williams.

Fe hoeliwyd ein sylw ar amrantiad pan gododd a nôl llond bag o ddillad - dillad a fyddai yn portreadu ei phobl arbennig hi. Ie, 'Mair Penri a'i Phobl' oedd y teitl. Y dylanwad mwyaf arni oedd ei mam. Collodd ei thad pan yn gwtta fis oed a bu nain a taid, ochr ei mam, yn gefn i'r ddwy. Roedd ei hanes drygionus yn Ysgol Llanfyllin yn donic. Saesneg oedd y cyfrwng, a do, fe gafodd dair cweir. Am beth, meddech chi? Ie, siarad yn ddibaid!

Bu'n adrodd hanes Bethan Mary, Ysgol Tir Na Nog, ac wedi gwisgo i fyny fel geneth ysgol. Bu'n adrodd ei hanes yn chwilio am froga i wneud *Toad in the Hole*. Buasai Bethan Mary wedi

gwirioni cael ei sodro gan Martin Metal a hoeliai Bethan Mary ei llygaid ar Harri Hunk, Maths.

Yn ddiffwdan roedd wedi newid o fod yn Bethan Mary i wraig fferm - gyda'i macintosh a'i sgidiau glaw gwyrdd mwdlyd. Bu'n cymharu bywyd cefn gwlad ddoe a heddiw, a hynny'n hynod o bigog a doniol.

Sobreiddiwyd ni pan fu'n adrodd sgrïpt o enau Ruth, morwyn Ann Griffiths. Cawsom hanes y ddwy yn teithio dros y Berwyn i'r Bala, a hynny drwy gyfrwng tafodiaith ardal Llanfyllin ac wedi ei gwisgo fel morwyn y cyfnod.

Bu'n olrhain y dylanwadau mawr fu arni - ei mam yn bennaf, a fu fyw nes ei bod yn 98 mlwydd oed, athrawon ei hysgol gynradd Gymraeg, W. S. Jones, gŵr Marged Jones, y Llywydd Cenedlaethol, a Geraint Morgan, athro Ysgrythur. Bu'r Urdd, Y Coleg Normal, Aelwyd Wrecsam, Gareth Miles, Dramâu Wil Sam a nifer eraill yn ysgogiad iddi. Mae wrthi'n brysur rŵan yn paratoi ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol y Bala. Byddwn ninnau yn edrych ymlaen i glywed 'Mair yn Maldwyn' yn y Bala'.

Diolchodd Phyllis i Mair ac i bob un o'r cymeriadau. Cafwyd noson hwyliog a chofiadwy dros ben. Edrychir ymlaen at ei gweld am y trydydd tro - a hynny'n fuan.

Enillwyr y raffl gan Jean, Bethanne a Phyllis. Diolchwyd i Olwen, Eileen, Bethanne ac Eirianwen am ofalu am y baned.

Paratoi at y Nadolig gyda Rose Williams fydd yr arlwy nos Fawrth, 11 Tachwedd.

SIOPAU DINORWIG

Daeth Idris Thomas ar draws manylion difyr ei dad, sef y diweddar Hugh Thomas, Dinorwig, am hen siopau Dinorwig. Hwyrach eu bod yn dwyn atgofion i drigolion hyn yr ardal.

Rhestr o enwau siopau a fu yn yr ardal a'r hyn a werthid ynddynt. Dechreuwn yn ymyl y Chwarel:

Hen Hospital neu Tragwyddol Stores. Yr adeilad wedi bod yn Ysbyty'r Chwarel ar un cyfnod. Daeth yr arferiad o'i galw yn Tragwyddol Stores pan briododd merch y siop â bachgen o Sir Fôn. Huw Tragwyddol y gelwid ef gan hogiau'r chwarel. Roedd yn siop a werthai pob math o fwydydd i'r ardalwyr a hefyd i hogiau'r chwarel.

Siop Chwarel. Bu amryw o siopau eraill yn ymyl y chwarel a bu perchenogion y chwarel yn cadw siop y Blue Peris. Roeddynt yn gwerthu bwydydd a dillad, ond dim ond ar ddiwrnod tâl yn y chwarel. Bu'n rhaid cau'r siop am eu bod yn gorbrisio'r nwyddau a werthid i'r chwarelwyr.

Ar y ffordd at Hafoty bu pedair siop arall. Mae llechen i'w gweld heddiw uwchben drws un tŷ yn dynodi fod siop wedi bod yno.

Siop Llew. Roedd hon mewn cwt sinc ac yn gwerthu bwydydd, melysion, tybaco a sigrêts. Roedd barics y chwarel yn ymyl a byddai'r dynion yn prynu llawer o nwyddau yn y siop.

Siop Ceridwen. Ceridwen oedd perchennog y siop yn gwerthu mân nwyddau a pharaffin.

Siop Dic Pencraig. Bwydydd a pharaffin a werthid gan Dic, cymryd drosodd wnaeth o ar ôl i siop Llew gau.

Tan yr Aswy. Gwerthu edafedd, rîls a nodwyddau dur fyddai Mrs Jones. Roedd ganddi fab yn cadw siop fawr yn y de ac oddi yno y byddai hi'n cael y nwyddau.

Siop Ifan. Roedd Ifan yn boblogaidd iawn yn yr ardal. Fe adeiladodd gwt sinc yn Bryn Llus, ac roedd hefyd yn berchen trol a cheffyl i fynd o gwmpas yn gwerthu ffrwythau a physgod. Y wraig oedd yn gofalu am y siop lle gwerthid melysion a diodydd pop.

Ymhen amser daeth y cwt sinc i fod yn siop chips. Cawsom lawer o hwyl yno, ond ymhen amser cafodd Ifan waith yn y chwarel a dyna ddiwedd ar Siop Ifan!

Siop Kate. Ymlaen yn awr i Siop Kate, dynes annwyl iawn a hithau'n gwerthu bwydydd a melysion.

Swyddfa'r Post. Mrs. Roberts fyddai'n ei chadw yn Uwch Sardis, ond cymerwyd hi drosodd gan y ferch, sef Mrs Alice Parminter, oedd yn byw yn Brookfield. Ehangodd hi y swyddfa a gwerthu hefyd gardiau Nadolig a phen-blwydd, melysion a diodydd pop.

Siop Catrin. Roedd Catrin yn dilyn yr un patrwm â siopau eraill, sef bwydydd a pharaffin, ond yn ychwanegol yn gwerthu papurau wythnosol, *Yr Herald* a'r *Caernarfon & Denbigh*. Byddai Catrin yn gwneud a gwerthu eli ar gyfer llosg tân.

Siop Lisa. Dyma ferch fu fyw i gyrraedd ei chant oed. Gwerthai Lisa lawer o fara - roedd ganddi deulu yn cadw becws yn Llanberis.

Caerfoel. Bu siop crydd yn Caerfoel yn gwneud a thrwsio esgidiau.

Fron Heulog. Jonnie Evans oedd enw y gŵr a oedd yn cadw y siop yma, ond roedd yn byw yn Neiniolen. Byddai'n gwerthu bwydydd a blawdiau, melysion a pharaffin. Gwerthid llawer iawn o felysion gan fod Ysgol Dinorwig yn ymyl.

Siop Morus y Barbwr. Roedd nifer o dai yn Caerfoel, ac mewn adeilad yn ymyl y tai roedd siop y barbwr.

Byddai Morus yn brysur iawn ar adegau yn enwedig ar benwythnos, dynion y chwarel yn dod am *shave* a *haircut*. Siop Morus oedd senedd yr ardal a byddai llawer o dynnu coes yno. Roedd yr Ysgol yn agos i'r siop a dyna lle y byddai llawer o'r plant yn cael trin eu gwallt.

Bron Dinorwig. Siop Mrs. Williams - dim ond melysion werthid ganddi hi.

Cytiau cryddion. Bu nifer o gryddion yn dod i Dinorwig ond dim yn para'n hir. Cofiaf am dri ohonynt:

Wil Ned o Ddeiniolen - roedd o wedi ei anafu yn y Rhyfel Cyntaf a'r fyddin wedi rhoddi prentisiaeth iddo.

Howel - dyma grydd o safon, roedd ei dad a'i frawd yn gryddion.

Harri Ysgubor - labrwr o grydd oedd Harri. Mynd a dod o'r môr fyddai o, ond yn ffeffryn gennym ni, y llafnau.

Gyda'r nos a phrynhawn Sadwrn byddem yn mynd i gwt Harri i chwarae darts a dominos - cof da amdano.

Dylunio / Design

Cyfryngau / Media

Arddangosfeydd / Exhibitions

Safweoedd / Websites



cread

gwasanaeth dylunio / cyfryngau
design / media service

t - 01248 713437

m - 07867 976183

e - post@creadcyf.co.uk

w - www.creadcyf.co.uk

1161 5an



BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726



casgliad eleni yn £300. Bydd y Clwb yn derbyn £150.

Wrth gyflwyno'r gŵr gwadd, sef William Vaughan Jones, Pontllyfni, soniodd Selwyn Griffith am yr arferiad, ers llawer dydd, o'i alw yn 'Co Traed', ond erbyn heddiw gŵr pawb mai Ciropodydd neu Feddyg Traed oedd galwedigaeth y siaradwr. Cafwyd sgwrs ganddo ar sut i ofalu am y traed a pham fod trafferthion yn digwydd, yn enwedig felly gyda merched sydd yn gwisgo esgidiau anaddas, a rhoddodd inni nifer fawr o gynghorion. Dilynwyd y sgwrs gydag amrywiol gwestiynau o'r llawr.

Diolchwyd yn gynnes iawn iddo ar ran y Clwb gan Jenkin Griffiths, ac hefyd i Ann Ellis Williams ac Ivy Wright am baratoi'r baned. Bydd y cyfarfod nesaf yn Festri Bethel ar 4 Tachwedd, yng nghwmni Gwen Jones, Llanrug.

Merched y Wawr. Canolfan Caergylchu Stad Cibyn oedd man cyfarfod yr aelodau yn ddiweddar, gyda Gwenllian Roberts, Swyddog yng Nghyfadrann yr Amgylchedd a Jennifer Royle, yn ein tywys o gwmpas y Ganolfan.

Cawsom agoriad llygad wrth weld y gwaith sydd yn mynd ymlaen yno o ddydd i ddydd, gyda'r holl amrywiol sgipiau a pheiriannau. Pwysleiswyd ei bod hi'n bwysig i ofalu fod popeth yn lân cyn eu rhoi yn y bocs glas, oherwydd mae'n rhaid gwahanu'r cynnwys efo llaw.

I mewn dan do wedyn, gyda bocs glas yn llawn o fagiau yn cynnwys gwahanol bethau ar gyfer eu hailgylchu. Roedd pawb yn teimlo'r angen i fod yn fwy gofalus gyda sbwriel o hyn ymlaen. Roedd brwdfrydedd y ddwy Swyddog ar ailgylchu yn amlwg i bawb, a diolchwyd iddynt am noson werthfawr ac addysgiadol gan Mair Price.

Yna cariwyd ymlaen gyda materion y Mudiad. Cafwyd gwybodaeth am ddwy gystadleuaeth, sef y Ffair Aeaf a chynllunio cerdyn Nadolig - manylion ar gael gan yr Ysgrifennydd.

Mae'r Mudiad yn casglu broncysylltau (sef 'bras'), ac yn gobeithio casglu cymaint ag sy'n bosibl yn ystod y flwyddyn i helpu merched difreintiedig y byd. Croeso i unrhyw un o'r tu allan i'r Mudiad waredu eu bras hefyd, a'u rhoi i aelod o'r gangen.

Er cof am Annie Elizabeth Williams, Tŷ Newydd, Bethel, a hunodd 25 Medi, 2008.

Ei phopeth, erw o Fethel - ei hil,
ei haelwyd ei chapel.
Hi'r gwâr, di-ffrils bu'r gorwel.

Amenio sawl emynydd, - a hi'n llesg
gweled Llaw mewn stormydd;
ei ffawd oedd pwyso ar ffydd
at niwed, craig Tŷ Newydd.

Edrych a wnaeth tuag adref - am haul
ym mhridd Llan yr Hydref.
Daw hedd yn rhydd o'i dioddef,
iddi nawr mae sicrwydd nef.

RICHARD LLWYD JONES

Cynhaliwyd diwrnod o weithgareddau gan yr adran Gelf a Chrefft yn Llanwnda ar 18 Hydref, a bydd Is-bwyllgor y Dysgwyr yn cynnal Ysgol Undydd yn Ysgol Maesincla, Caernarfon, ar 15 Tachwedd. Bydd dau dîm yn cynrychioli'r gangen yn y Cwis Cenedlaethol ar nos Wener, 8 Tachwedd - pob hwyl iddynt.

Llongyfarchwyd Delyth Williams ar ddod yn Nain i Summer, merch fach Gethin a Leanne, a chroesawyd un aelod newydd, sef Dilys Perez. Gyda'r Nadolig yn nesáu, cynhelir noson o greu cardiau Nadolig y tro nesaf, gyda Carol Smith yn arddangos.

CAPEL CYSEGR. Roedd cynulleidfa niferus yn bresennol i gefnogi plant yr Ysgol Sul yn y gwasanaeth Diolchgarwch yn ddiweddar. Thema'r gwasanaeth oedd 'Y Pum Synnwyr', a bu i bob dosbarth yn ei dro ddiolch i Dduw am y rhyfeddodau mae un yn eu mwynhau drwy ddefnyddio synhwyrau. I gloi'r cyflwyniad canodd y plant i gyd gyda'i gilydd 'Am gael had i'w blanu, diolch diolch Iesu'.

Talwyd diolchiadau gan Geraint Elis, Arolygwr yr Ysgol Sul, gan ddiolch yn arbennig i Rita Williams am baratoi'r cyflwyniad; i Siôn, Gethin a Manon am gyfeilio, ac i'r athrawon am addurno'r Capel gyda blodau a ffrwythau. Roedd y casgliad rhydd yn mynd tuag at gynllun EFE, sef cefnogi Gweithiwr Ieuenctid newydd i'r cylch.

EISTEDDFOD. Cofiwch am yr Eisteddfod sydd i'w chynnal pnawn a nos Sadwrn, Tachwedd 8ed, yn y Neuadd Goffa am 1.00 a 6.30. Dewch draw i fwynhau a chefnogi plant ac ieuenctid y pentref. Derbynnir unrhyw rodd ariannol neu at y raffl gan Gwyneth Jones, Llys y Gwynt, Seion, neu gan Rita a Rhian.

CYMDEITHAS LENYDDOL. Agorwyd gweithgareddau'r Gymdeithas yn Festri Cysegr am eleni yng nghwmni Côr Dre. Wrth eu cyflwyno cyfeiriodd Llywydd y noson, y Parchedig Marcus Wyn Robinson, fel un a fagwyd yng Nghaernarfon, mai o'r dre y daw y pethau gorau! Yn sicr ddigon cafwyd noson arbennig gan griw o bobl ifainc sydd newydd ddod at ei gilydd i ffurfio Côr cymysg dan arweiniad Angharad Wyn Jones, gyda Elin Jones

yn cyfeilio. Mirain Williams oedd yn cyflwyno'r eitemau, a oedd yn cynnwys caneuon ysgafn, poblogaidd a chrefyddol, yn ogystal â dau ddatganiad ar y piano, unawd a thriawd hefyd.

Diolchwyd iddynt am ddiddanu'r gynulleidfa gan Glenys Griffiths. Noson a fwynhawyd gan bawb. Dymunwyd yn dda iddynt fel Côr ar gyfer y dyfodol. Mwynhad pellach i bawb oedd cael symud at y byrddau i fwynhau lluniaeth ysgafn.

Y siaradwr yng nghyfarfod mis Tachwedd fydd y Parchedig Huw John Hughes, Porthaethwy.

CAPEL BETHEL. Cynhaliwyd oedfa lewyrchus o Ddiolchgarwch gan blant yr Ysgol Sul ar fore Sul, 19 Hydref a daeth cynulleidfa deilwng i wrando ar y thema eleni, 'Dangos Duw'. Gwnaeth y plant eu gwaith yn ganmoladwy a diolchodd Mrs Eirlys Sharpe iddynt yn absenoldeb y gweinidog. Bydd y casgliad rhydd eleni yn mynd at gasgliad y Dolig at Apêl Fawr yr Annibynwyr - Apêl De Affrica.

PRIODI. Yng Ngwesty Seiont Manor ar 20 Medi, priodwyd Kelvin Owen (10 Rhos-Lan, Bethel, gynt) a Nia Porter (4 Bren-y-Waen, Penisarwaun, gynt). Maent bellach wedi gwneud eu cartref yng Nghwm y Glo gyda'u merch fach, Gwenllian Medi.

Dymuna teulu Bethel a Phenisarwaun iechyd a hapusrwydd iddynt yn y dyfodol.



Kelvin a Nia.

Cofiwch ddefnyddio

SWYDDFA POST BETHEL

(01248) 670261

Cewch groeso cynnes gan **CLED A SUSAN**

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant • Tynnu Pres (Cashback)


ORIAU AGOR

6 a.m.-7.30 p.m.

(Llun-Sadwrn)

6 a.m.-3 p.m. (Sul)

Gwynedd yn Annog Calan Gaeaf Gwyrdd



Beth am gael cawl pwmpen y Calan Gaeaf hwn?

Wrth baratoi ar gyfer noson Calan Gaeaf eleni, mae Cyngor Gwynedd yn cefnogi cynllun 'Craff am Wastraff' i annog pawb i ystyried yr amgylchedd yn ystod yr holl weithgareddau.

Mae yna sawl ffordd o fwynhau noson Calan Gaeaf a bod yn gyfeillgar i'r amgylchedd yr un pryd, o gael y gorau o'ch pwmpen i wneud eich gwisg eich hun.

Mae Gwynedd hefyd yn croesawu ymgyrch hysbysebion teledu cynllun 'Craff am Wastraff' sy'n cael ei lansio yn fuan i annog pobl i leihau'r cyfanswm o wastraff sy'n cael ei daflu i safleoedd tirlenwi.

Gwerthir dros filiwn o bwmpenni ym Mhrydain bob blwyddyn a defnyddir llawer o'r rhain mewn cartrefi ledled y wlad fel llusernau Calan Gaeaf yn unig. Yr hyn sy'n ofnadwy yw bod y rhan fwyaf o'r rhain yn cael eu taflu i safle tirlenwi yn ddiangen ar ôl 31 Hydref.

Dywedodd Gwenllian Roberts, Swyddog Ailgylchu Cyngor Gwynedd:

'Mae Calan Gaeaf yn gyfle da i ni aildanio'r ymgyrch i leihau'r gwastraff rydym yn ei daflu i ffwrdd.

'Gwnewch y gorau o'r bwmpen gyfan - beth am ddefnyddio y tu mewn i wneud tameidiau bach Calan Gaeaf blasus? Gellir gwneud cawl neu risotto pwmpen o gnawd y bwmpen, neu beth am dostio'r hadau yn y popty a'u rhoi ar ben miwslî? Neu mi fysai'r adar yn yr ardd wrth eu bodd yn bwyta'r hadau hefyd!

'Ar ôl i chi orffen gyda'ch llusern, gallwch roi'r bwmpen yn y bin compost yn yr ardd, gyda nifer o bethau eraill gan gynnwys bagiau te, plisgyn wyau a chroen llysiau, a hyd yn oed llwch y sugnydd llwch. Mae'r Cyngor yn cynnig un bin compost am ddim i gartrefi Gwynedd, rhwch eich manylion i ni ar: (01286) 679872.'

Rhai awgrymiadau ar gael Calan Gaeaf Gwyrdd:

- Byddwch yn greadigol - gwnewch eich gwisg eich hun gan ddefnyddio hen ddillad a deunydd sgrap;

- Os ydych chi'n cynnal parti Calan Gaeaf, anfonwch e-bost at eich ffrindiau i'w gwahodd er mwyn arbed papur a cheisiwch beidio â defnyddio platiau, cwpanau, cytleri, cadachau a lliciniau bwrdd tafladwy;

- Ceisiwch wneud eich addurniadau eich hun gan ddefnyddio papur sgrap, yn hytrach na'u prynu. Os ydych chi'n dewis prynu addurniadau, prynwch rai y gellir eu defnyddio o un flwyddyn i'r llall;

- 'Cast neu geiniog' (*Trick or treat*) - defnyddiwch fag cotwm y gallwch ei ddefnyddio eto yn hytrach na bag plastig;

- Os ydych yn prynu fferins, dewiswch rai gydag ychydig o ddeunydd pacio, os o gwbl, neu rai gyda ffoil, mae modd rhoi ffoil yn y bocs glas i'w ailgylchu.

I gael rhagor o wybodaeth am eich cyfleusterau ailgylchu lleol, ewch i: www.gwynedd.gov.uk/ailgylchu neu ffoniwch Linell Gymorth Ailgylchu Cyngor Gwynedd ar (01286) 679872.

UN FUNUD FACH

DILLAD NEWYDD

Mae'n rhaid i'r greadures gael dillad. Thâl hi ddim i wraig sy'n gobeithio bod yn Ddirprwy Arlywydd gwlad fel America wisgo'n flêr. Mae pawb yn gwybod nad ydi dillad da yn rhad y dyddiau hyn. A chofiwch, da chi, bod Mrs Palin am drefnu jumble sêl fawr ar ôl yr Etholiad er mwyn i'r dillad newydd drud gael eu rhoi i ryw elusen haeddiannol. Pam yr holl ffys? Wedi'r cwbl, dim ond £92,000 wariodd hi ar ddillad ers cael ei dewis yn ymgeisydd am swydd y Dirprwy.

Ia, dim ond 92 mil o bunnoedd. Swm rhesymol iawn, ddeudwn i. Nid bod gen i'r fath arian, cofiwch. A dwi'n gwybod yn iawn ei fod yn ffortiwn i bawb sy'n debygol o ddarllen y golofn hon. Ond doedd o ddim yn swnio'n llawer wedi i mi glywed rhywun ar y radio yn sôn am wardrob newydd Sarah Palin. Oherwydd roedd y cyflwynydd yn mynnu deud bod Mrs Palin 'wedi gwario 92 MILIWN o bunnoedd! Dyna be fyddai gwario. Ac wedi gwrandao arno'n deud fwy nag unwaith ei bod wedi gwario '92 MILIWN', roedd 92 MIL rywsut yn ymddangos yn swm bychan iawn.

Fel gyda chymaint o bethau, mae bil dillad newydd Sarah Palin yn dibynnu ar yr hyn yr ydych yn ei gymharu ag ef. O'i

gymharu â gwariant pawb ag owns o gomon sens, mae'n ddychrynlyd o wastraffus a disynnwyr. Ond, o'i gymharu â 92 MILIWN y cyflwynydd radio, mae'n swm pitw iawn. Tueddu i'n cymharu ein hunain â'r bobl ac â'r safonau anghywir a wnawn ni hefyd. Mae'n rhwydd iawn credu ein bod yn cael eitha' hwyl ar gadw safonau Duw os mynnwn edrych ar y bobl waethaf y gwyddom amdanynt. Gall unrhyw fai sydd ynom ymddangos yn fychan iawn os yw ein llygaid ar y llofrudd a'r treisiwr a'r twyllwr. Ac onid dyna'n tuedd: edrych ar y gwaethaf, a chael cysur nad ydym mor ddrwg â hynny? Ond stori arall yw hi pan ddechreuwn ein cymharu ein hunain â'r glanaf a'r perffeithiaf a droediodd y ddaear yma. Os, trwy ras, yr edrychwn ar y dyn hwnnw, yr Iesu y darllenwn amdano ar dudalennau'r Testament Newydd, buan iawn y gwelwn nad oes gennym ddim i ymffrostio ynddo. Wrth ei ymyl ef y gwelwn ni'r gwir anghysurus amdanom ein hunain.

Y peth rhwydda yn y byd yw cymharu'n hunain â phobl ddrwg. Wedi'r cwbl, does yna ddigon o ddewis ohonynt? Feiddiwn ni heddiw fod yn ddigon dewr i'n cymharu ein hunain â'r gorau fu erioed?

JOHN PRITCHARD

Dyddiadur EVAN JONES Tŷ'r Mawn

Fe ddechreuaf y mis hwn yn Nhachwedd 1908.

13 Tachwedd 1908: Priodi Richard Pritchard, Ceunant Street.

14 Tachwedd: Priodi Dafydd Tom.

28 Tachwedd: Marw Robert Thomas Jones.

Ac yn awr fe awn ymlaen i'r flwyddyn 1929.

1 Chwefror, 1929: Marw Jane Jones, Maenllwyd Uchaf.

24 Mawrth: Claddu Charlie Porter, Ceunant Street.

30 Mawrth: Claddu Alice Williams, Ceunant Street.

4 Ebrill: Marw E. Evans, Cwm-y-glo.

8 Gorffennaf: Claddu Robert Williams, Plas Coch, ac hefyd merch fach Tommy Owen, Snowdon Street.

17 Awst: Claddu Jane Williams, Pen Ceunant.

18 Medi: Priodi Owen Williams, Talafon.

28 Medi: Claddu Alice Williams, Mur Mawr.

2 Hydref: Claddu John Thomas,

Clegyr. Hefyd claddu John Parry, Clwt y Bont.

11 Rhagfyr: Marw Griffith Jones, Haulfryn.

16 Rhagfyr: Damwain yn Panrhydd Bach, Gerrat. Tri dyn yn cael eu lladd tua 3 o'r gloch prynhawn dydd Llun trwy i'r graig ddod i lawr a'u claddu hwynt.

23 Rhagfyr: Marw Robert Williams, Gof, Plas Coch, yn sydyn iawn yn Refail Huriau.

R. ELWYN GRIFFITH

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTIÖN • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

**RHOSTIO
MOCHYN**
AR GYFER
POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol

* Partiön rhwng 40 a 400!

* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON
LLANRUG

Y DYD CIG ar 675190 / 673188

Ffôn symudol: 07798 718188

wefan: www.ydyncig.co.uk

Pryd i Bawb
Buffe blasus o safon
at bob achlysur

Priodas

Parti

Te Angladdau

Cinto Busnes

**CERID
MACKINNON**

Plas Tŷron, Llanrug, Caernarfon,
Gwynedd LL55 4PY

(01286) 673190

Perchnogion Newydd!

yn parhau'r traddodiad gwyh

WAVELL'S

Bryn ac Angela Williams

London House, LLANRUG

Ffôn:

(01286) 673574

PEN CIGYDDION Y FRO

Yr Wŷn Lleol mwyaf blasus,

Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU

DEWCH ATOM NI!

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. Ffôn: 677263

YSGOL CWM Y GLO

Rydym yn croesawu tair wyneb newydd atom yn yr ysgol. Mae Miss Chelsey Jones yn derbyn hyfforddiant i fod yn gymhorthydd, a Miss Elen Davenport yn treulio cyfnod o brofiad dysgu o Brifysgol Bangor. Hefyd mae Mrs Diane Roberts wedi cychwyn fel Goruchwyliwr Amser Cinio, a mawr obeithiwn y bydd y tair yn hapus yn ein plith.

Diolchwn hefyd i dwy ddisgybl o Ysgol Brynrefail, Becky Williams a Tracey Griffith, a ddaeth atom am gyfnod o brofiad gwaith. Roedd yn bleser eu cael yn yr ysgol.

Mae Blwyddyn 5 a 6 wedi cael amser prysur iawn yn ddiweddar. Cawsant fynd i Cae'r Gors i gymryd rhan mewn gweithdy Celf difyr iawn gyda'r artist, Karen Jones. Cawsant hefyd fynd i'r Amgueddfa ym Mangor i weld arddangosfa o gysylltiadau yr ardal â Lerpwl dros y blynyddoedd, cyn cael gweithdy creu barddoniaeth gyda Karen Owen.

Daeth Techniquet ar ddau ymweliad i Ddosbarth y Babanod. Cawsant ddysgu am anifeiliaid a'u cynefinoedd mewn gweithdy gwyddonol, ac am fywyd plentyn yn 1880 mewn gweithdy hanesyddol.

Cymerodd disgyblion o'r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 ran yn y Gwasanaeth Diolchgarwch yng Nghapel Tabernacl. Diolch i bawb a ymunodd gyda ni ac a gyfranodd tuag at y casgliad i'r Ambiwylans Awyr. Diolch hefyd i swyddogion y Capel am fod mor barod gyda'u croeso.

Dyma ganlyniadau y Clwb Cant am fis Medi: 1. David Roberts; 2. Christine Jones; 3. Hilda Orritt. Diolch i bawb am eu cefnogaeth a chofiwch fod yna groeso i unrhyw un ymuno â'r Clwb Cant - nid yw'n rhy hwyl! CYDYMDEIMLAD. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mrs Marjorie Roberts a'r teulu, Bod Gwilym, yn ei phrofedigaeth o golli ei mam ym Methel. Hefyd

cydymdeimlwn â Mr Gwynedd Jones, Bryn Crwn, yn ei brofedigaeth yntau o golli ei fam yng Nghlwt y Bont.

GENEDIGAETH.

Llongyfarchiadau i Medi a Gareth, 13 Dôl Afon, ar enedigaeth merch fach, Catrin Eleri, chwaer fach i Kerry, Dewi a John, a wyres i Mrs Rhian Jones, Bron Eryri

CAPEL Y TABERNACL.

Cynhaliwyd Gŵyl y Diolchgarwch ddydd Sul, 19 Hydref, gyda'r Parch Gwynfor Williams yn pregethu a gweinyddu'r Cymun. Dydd Llun, 20 Hydref, daeth plant Ysgol Cwm-y-Glo i'r capel i gynnal eu gwasanaeth Diolchgarwch. Diolch i'r brifathrawes mewn gofal, Mrs Nia Oliver, a'r athrawesau am hyfforddi'r plant ac am wasanaeth hapus a bendithiol, ac i'r Parch Robert Townsend am ei anerchiad i'r plant. Hyfryd oedd gweld rhieni a ffrindiau wedi dod i ymuno yn y gwasanaeth.

UNDEB Y MAMAU. Cyfarfu'r aelodau yn yr ysgol gymuned nos Lun, 6 Hydref. Croesawodd Mrs Dorothy Jones, Arweinydd y Gangen, bawb i'r cyfarfod a chafwyd gwasanaeth byr. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Mrs Margaret Latham, Mrs Marjorie Roberts a Mrs Kath Jones. Trafodwyd materion perthnasol gan Dorothy a chydymdeimlwyd gyda Marjorie.

Cyflwynwyd y gŵr gwadd, Mr John Perkins, gan Dorothy a chafwyd sgwrs ddiddorol iawn ganddo am yr elusen Unmeed, sydd yn rhoi cyfle i ferched, bechgyn ac oedolion i gael addysg a hyfforddiant mewn rhannau o Bakistan.

Y gwsteion oedd Dorothy a Miss Meira Williams. Hwy hefyd roddodd y raffl ac fe'i henillwyd gan Mrs Gwen Owen. Diolchwyd i Mr Perkins a'r gwsteion gan Gwen.

Terfynwyd y cyfarfod trwy adrodd y Gras.

Y plant ieuengaf yn canu yn y Gwasanaeth Diolchgarwch yng Nghapel Tabernacl.



Y Gweithdy Celf yng Ngae'r Gors.



Yn yr Amgueddfa ym Mangor.



**ORIEL
CWM
Cwm y Glo**

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan
Artistiaid Lleol

Richard S. Humphreys

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol

27 Stryd y Bont, Caernarfon
(01286) 672727

a hefyd ein swyddfa newydd
8 Llys Onnen, Ffordd y Llyn,
Parc Menai, Bangor
(01248) 355055

Dewch atom am gyngor ynghylch
yswariant a materion ariannol



Awdurdodir a rheolir gan yr
Awdurdod Gwasanaethau Ariannol



Problem gyda'ch cyfrifiadur?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys
a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch
â **Gomer Roberts**

Ffôn : 01286 870462

Symudol : 07962 712368

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er
mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. Ffôn: 677263



Sali Mali gydag Eisteddfodwyr ifanc y pentref. Dymuna Sali Mali bob llwyddiant i'r Eisteddfod.

CROESO. Estynnir croeso cynnes i Mrs Betty Pritchard yn ôl i'w chynefin gynt. Y mae bellach wedi hen setlo yn 3 Llys y Gwynt, ac yn teimlo'n gartrefol ymysg ei ffrindiau a'i merch, Heulwen, Deiniol a'r teulu, sy'n byw ym Mryn Eglwys. Croeso mawr i chi, Betty.

EISTEDDFOD BENTREF. Bu noson hybu'r Eisteddfod yn llwyddiant mawr. Daeth Sali Mali yno i ddymuno'n dda ac roedd nifer fawr o eisteddfodwyr ifanc brwdfrydig wedi troi i mewn i weld eu harwres. Diolch i Sali Mali am roi cymaint o sylw i'r plant ac i Anti Ann am adrodd y stori, 'Sali Mali a'r wiwer fach ddireidus'.

Cynhelir yr Eisteddfod yn y Neuadd Gymuned, dydd Gwener, 14 Tachwedd, am 6.00 o'r gloch. Croesewir y Beirniaid: Elfed Morris, Lyndsey Parry, Wenna Williams, Siân Harries a Pat ac Anita Long atom. Hyderir y ceir cystadlu brwd gan fod y gwobrau yn werth i'w hennill eleni. Y llywydd fydd Sharon Woolley (Owen, gynt) un a fu'n cystadlu'n gyson yn yr eisteddfod hon.

YSGOL SUL BOSRA. Rydym i gyd mor falch fod Mr Evie Jones wedi gwella ar ôl ei driniaeth yn yr ysbyty. Mae'r plant lleiaf wedi bod yn brysur yn dysgu adnodau a'r emyn 'Cariad Iesu Grist' a'r adran lau wedi dewis dameg i'w darllen yn ystyrion. Mae'r athrawon hwythau wedi dewis Salm neu Emyth i'w hadrodd i'r plant. Gweithgaredd noddedig yw hwn i godi arian tuag at Apêl Adnewyddu'r Adeilad. Y mae swm dda o arian eisoes wedi'i gasglu. Diolch i bawb am eich cydweithrediad.

Gan na threfnwyd trip blynyddol yr Ysgol Sul yr haf gwlyb yma, trefnir trip ar y trê'n bach o amgylch Llyn Padarn fore Sul, 7 Rhagfyr – enwau i Ffiona. Ffôn 871131. Bydd y trip am ddim i aelodau'r Ysgol Sul, £6 i oedolion a £6 i blant nad ydynt yn aelod o'r Ysgol Sul a £2.50 i blant dros 3 oed.

Bydd Siôn Corn yno gydag anrheg i'r plant a bydd diod a mins pei i'r oedolion. Bydd y trê'n yn cychwyn yn brydlon am 10.15 y bore.

LLONGYFARCHIADAU i Ann a Dafydd ar ddod yn Nain a Thaid am yr eildro. Ganwyd merch fach, Lea Rhiannon, i Sara ac Osian, chwaer

fach i Gwydion Rhys.

DIOLCH. Dymuna Sara ac Osian ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion ar achlysur geni Lea Rhiannon.

Dymuna Betty Pritchard, 3 Llys y Gwynt, ddiolch o galon i Heulwen a Deiniol, y teulu, ffrindiau a chymdogion am bob cymorth, croeso, cardiau ac anrhegion wedi iddi symud i'r pentref.

PWYLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant Hydref a'r enillwyr yw: Sharon Woolley (Owen, gynt); Mrs Gwyneth Jones, 25 Bryn Tirion; Mrs Bessie Williams, Llys Myfyr.

Cynhelir Noson Wasael ac Ocsiwn Addewidion, nos Fercher, 17 Rhagfyr yn y Neuadd Gymuned am 6.00 o'r gloch. Ceir eitemau gan y parti dawnus Parti'r Waun, John Eifion, Marina, Lois ac Anest, ynghyd ag aelodau o Fand Deiniolen. Bydd paned, pwnsh a mins pei. Ar y noson bydd Ocsiwn Addewidion a hyderir y cawn nifer o noddwyr haelionus eto eleni. Bydd Pwyllgor ar nos Lun, 18 Tachwedd am 7.00 o'r gloch i gwblhau trefniadau'r noson.

LLWYDDIANT CERDDOROL.

Llongyfarchiadau i Anest Bryn ar fod yn llwyddiannus gyda Gradd 6 ar y piano a hynny gydag anrhydedd, ac Elliw Griffith, Gradd 3 gyda theilyngdod.

YSGOL GYMUNED.

Gwersi Offerynnol. Rydym yn falch o ddweud fod 10 o blant yn derbyn gwersi offerynnol yn yr ysgol yn wythnosol.

Diwrnod leithoedd Ewropeaidd. Cafodd pawb hwyl yn dathlu'r diwrnod yma dydd Gwener, 26 Medi, trwy gymryd rhan mewn amryw o weithgareddau Ffrengig. Diolch i'r cogydd, Mark White, am ddod draw i goginio pryd o fwyd Ffrengig er mwyn i bawb gael ei flasu.

Gweithdy Barddoniaeth. Dydd Mawrth, 14 Hydref, aeth dosbarthiadau 5 a 6 i gymryd rhan mewn gweithdy barddoniaeth gyda Karen Owen yn Oriol Gwynedd ym Mangor.

Hyfforddiant. Mae Mr Rhys Hywel wedi bod yn rhoi hyfforddiant Gymnasteg i'r plant yn yr ysgol ar ddydd Mawrth. Ar ôl hanner tymor byddant yn cael gemau goresgyn.

Ymgyrch Plentyn y Nadolig. Byddwn yn cefnogi'r achos teilwng yma eto eleni. Bydd cyfle i'r plant

lenwi bocs esgidiau gwag gyda gwahanol eitemau er mwyn eu hanfon i blant bach llai ffodus yn y gwledydd tramor. Mawr obeithiwn y bydd pawb yn gwneud eu gorau i lenwi bocs a byddwn yn eu derbyn yn ôl yn yr ysgol ddydd Gwener, 7 Tachwedd, fan bellaf os gwelwch yn dda. Mae croeso i unrhyw un yn y Gymuned sydd yn awyddus i lenwi bocs i'w hanfon i'r ysgol erbyn y dyddiad yma hefyd.

Tynnu Lluniau. Bydd Mr Gwynant Parri yn yr ysgol fore dydd lau, 6 Tachwedd, i dynnu lluniau'r plant. Mae croeso i unrhyw un arall sy'n awyddus i gael tynnu llun ddod draw i'r ysgol yn ystod y bore.

Rydym yn casglu talebau 'Let's grow' o archfarchnad Morrisons. Buasem yn ddiolchgar pe baech yn ein cefnogi yn yr ymgyrch trwy anfon eich talebau i'r ysgol, os gwelwch yn dda.

CRONFA PENSIYNWYR.

Pêl Bonws Loteri. Enillydd mis Medi oedd Mrs Catherine Williams, 20 Bryn Tirion: Rhif 2. Llongyfarchiadau!

Noson Bingo. Cynhelir noson Bingo yn y Neuadd Gymuned nos Wener, 7 Tachwedd, am 6.30 o'r gloch. Mynediad i oedolion 50c a 20c i blant. Bydd amryw o wobrau i'w hennill a gwerthir raffl ar y noson. Gwerthfawrogi eich cefnogaeth.

Ffair Nadolig. Cynhelir y Ffair Nadolig nos lau, 27 Tachwedd, yn y Neuadd Gymuned am 6.30. Bydd amryw o stondinau a raffl. Galwch draw i gael bargaen ar ambell anrheg ar gyfer y Nadolig. Bydd Menter Fachwen yno gyda stondin gacennau a bydd cyfle i gael paned a mins pei. Croeso cynnes i bawb.

CYDYMDEIMLAD. Estynnir ein cydymdeimlad llwyrfa â Danny Webb a'r teulu yn eu colled fawr o golli gwraig, mam a nain annwyl, Annette, o 22 Bryn Tirion. Ein cydymdeimlad dwysaf hefyd â'i chwaer, Shirley a'r teulu.

Fe gollodd Danny ei fam hefyd yn ddiweddar a deillir ei fod wedi cael triniaeth yn yr ysbyty. Rydym yn meddwl amdanoch i gyd fel teulu.

GWELLHAD. Mae nifer o blant ac oedolion wedi bod yn sâl yn ddiweddar. Dymunir gwellhad buan i chwi oll.

AIL-DDILYN ÔL TROED ELLIS WILLIAMS, Y GORS. Difyr oedd cael ail wyllo a gwrando ar y caneuon gafaelgar o'r ffilm *Llythrau Ellis Williams* nos Sul, 19 Hydref. Llythron yn seiliedig ar gyfres o lythrau go iawn gan un o Benisarwaun a orfodwyd i adael Cymru yn 1908 am ddwyn ffesant o dir Plas y Faenol.

Portreadwyd Ellis gan Dyfrig Evans, nai i Eric a Wil Jones, Bryn Tirion. Roedd Ellis Williams yn ewythr i John Ellis Williams, 'Rallt Riwth, ei dad, Joseff, yn frawd ieuengaf i Ellis. Stori afaelgar am gyfnod o ddeng mlynedd pan adawodd Ellis y Gors yn 28 mlwydd oed i'r cyfnod pan y'i lladdwyd yn y Somme yn 38 oed.

PLYGU'R ECO. Dymunir diolch unwaith yn rhagor i swyddogion Eglwys Santes Helen am gael defnyddio'r Neuadd i blygu rhifyn Hydref o'r Eco. Mawr yw'n diolch i'r seoligion a ddaeth i blygu'n ddiwyd, a gorffen yn braf erbyn 7.15.

PRIODI. Yng Ngwesty Seiont Manor ar 20 Medi, priodwyd Kelvin Owen (10 Rhos-Lan, Bethel, gynt)

a Nia Porter (4 Bren-y-Waen, Penisarwaun, gynt). Maent bellach wedi gwneud eu cartref yng Nghwm y Glo gyda'u merch fach, Gwenllian Medi.

Dymuna teulu Bethel a Phenisarwaun iechyd a hapusrwydd iddynt yn y dyfodol.

Llwyddiant Ffônastig i Ysgol Penisarwaun

Mae ysgol fechan yng Ngwynedd wedi llwyddo i gyrraedd y brig drwy'r DU am gasglu ffonau symudol i godi arian ar gyfer offer cyfrifiadurol.

Llwyddodd rhieni a chyfeillion Ysgol Gymuned Penisarwaun i gasglu dros 400 o ffonau symudol, ac maen nhw wedi hel mwy o ffonau nac unrhyw ysgol fach arall trwy Brydain.

Meddai'r Pennaeth, Gareth Fôn Jones,

'Cawsom gefnogaeth benigamp gan rieni a chyfeillion yr ysgol yn y prosiect hwn, a llwyddwyd i gasglu cannoedd o ffonau symudol mewn cyfnod byr, sydd yn dipyn o gamp i ysgol gyda 59 o ddisgyblion.

'Ond mae'r gwaith caled yn parhau, gan ein bod yn dal i gasglu ffonau ac rydym yn gofyn am gefnogaeth pobl leol er mwyn gwneud yn siŵr mai ni fydd ar y brig ar ddiwedd y flwyddyn, gan y byddai hyn yn sicrhau rhagor o arian i'r ysgol.

'Felly, os oes gennych chi hen ffôn symudol yn y dror yn y gegin, fe fydden ni'n hynod ddiolchgar o'i dderbyn er mwyn ein helpu i ychwanegu at goffrau'r ysgol.'

Bu'r Ysgol yn casglu'r ffonau symudol fel rhan o brosiect *Fones 4 Schools* sy'n annog disgyblion, rhieni a chyfeillion ysgolion i hel ffonau er mwyn codi arian ar gyfer ysgolion. Bydd yr ysgol fechan sydd wedi casglu'r nifer mwyaf o ffonau ar ddiwedd y flwyddyn yn derbyn £500 fel gwobr, ac mae Ysgol Penisarwaun yn awyddus i barhau ar y brig tan fis Rhagfyr.

'Mae'r arian rydym eisoes wedi'i hel gyda'r cynllun hwn wedi bod yn hwb mawr i'r ysgol, a byddai £500 ychwanegol yn anrheg Nadolig arbennig i Ysgol Penisarwaun a'r disgyblion. Pentref bychan iawn yw Penisarwaun ac mae nifer y ffonau y llwyddwyd i'w casglu yn brawf o gefnogaeth pobl leol i'r ysgol, sydd yn ganolbwynt i'r gymuned. Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb am eu cymorth a gobeithio'n arw y gallwn aros ar y brig tan ddiwedd y flwyddyn,' ychwanegodd Mr Jones.

Os oes gan unrhyw un hen ffonau symudol, byddai Ysgol Gymuned Penisarwaun yn falch iawn o'u derbyn. Gellir eu hanfon at Ysgol Penisarwaun, Penisarwaun, Caernarfon LL55 3BW neu mae croeso i unrhyw un alw draw gyda ffonau ar gyfer y cynllun.

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt. Ffôn: 870740

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

DYMUNA Gloria Pitts ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 ar Fedi 27. Diolch yn fawr iawn

Y GYMDEITHAS. Cafwyd sgwrs ddiddorol iawn gan y Parch Dafydd Job, Bangor, yng nghyfarfod agoriadol y Gymdeithas ar nos Fawrth, 14 Hydref. Soniodd am ei ymweliadau ac Eglwysi yn nwyrain Ewrop cyn ac ar ôl Comiwnyddiaeth, ac fel yr oedd aelodau'r eglwysi hynny yn cael eu gwyllo a'u herlid cyn y 'Chwyldro Melfed'.

Llywyddwyd gan y Parch John Pritchard a thalwyd y diolchiadau gan Mr John H. Hughes.

Bydd cyfarfod nesaf y Gymdeithas nos Fawrth, 11 Tachwedd, yn Ffestri Capel Coch, Llanberis am 7.00 yr hwyr. Cawn sgwrs a hanes 'Oil Morus Evans' gan un o'r teulu, sef Mr Gwilym Evans, Llanberis.

Croeso cynnes iawn i aelodau hen a newydd.

Y GANOLFAN. Bydd Cyfarfod Blynnyddol Y Ganolfan yn cael ei gynnal yn Y Ganolfan am saith o'r gloch yr hwyr ar nos Lun, Tachwedd 10ed. Croeso i pawb. Mae gan pob enwad yn y pentref hawl i gael cynrychiolydd ar y pwyllgor.

DYMUNA Vivienne, 89 Maes Padarn, ddiolch i bawb am ei noddi ar ei thaith gerdded. Casglwyd £1,844.50 tuag at Ymchwil Alzheimer.

DIOLCH. Dymuna teulu'r ddiweddar Vera Wyn Griffiths, 8 Glanrafon Bungalows, ddiolch o galon i bawb am y cardiau, blodau, galwadau ffôn a'r geiriau o gysur a dderbyniwyd yn eu profedigaeth o golli Mam, Nain, hen Nain a chwaer annwyl ar 25 Medi. Diolch hefyd am y rhoddion er budd Capel Coch ac i'r Parch John Pritchard am ei wasanaeth a'i eiriau dwys, ac i Gwynfor Jones o E.W. Pritchard am ei drefniadau trylwyr a pharchus.

DYMUNA Olwen Owen, 10 Maes Derlwyn, ddiolch i bawb am y cardiau, blodau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 70 oed yn ddiweddar. Diolch yn arbennig i'r plant am y cinio yng Ngwesty Meifod yn y Bontnewydd. Diolch yn fawr.

DYMUNA Elizabeth, Janice, Glenda, Keith a Kevin, a'u teuluoedd ddatgan eu diolch am bob arwydd o gydymdeimlad tuag atynt o golli gŵr, tad a thaid annwyl iawn, Gilbert Jones, 7 Rhes Cambrian. Diolch i ffrindiau a chymdogion am eu cefnogaeth a hefyd i'r Parch Robert Townsend a'r Parch Gwynfor Williams am wasanaethu yn yr angladd. Diolch o'r mwyaf am yr holl gardiau a negeseuon, ac yn arbennig am y cyfraniadau er cof am Gil a fydd yn cael eu defnyddio ar gyfer prynu gwely pwrpasol ar gyfer Hospis Hafan Menai, Ysbyty Gwynedd.

Gil

Colled fawr i'r teulu a'r holl bentref fu ymadawiad y diweddar Gilbert Jones 7 Rhes Cambrian, Llanberis, a fu farw ar 25 o Fedi yn dawel yng nghwmni ei deulu yn Ysbyty Gwynedd yn 64 mlwydd oed yn dilyn salwch cas a blin. Fe'i ganwyd a'i magwyd yn Llanberis, yn fab i'r diweddar Emlyn ac Edna Jones, Maes Padarn. Wedi gadael yr ysgol aeth i weithio i Ffatri Greengate & Irwell yn y Glyn, ac yna i nifer o gwmnïau lleol cyn ymuno â staff yr Amgueddfa Lechi yn y Gilfach Ddu yn 1999. Roedd Gil yn gymeriad hynaws, tawel a hynod o boblogaidd, a da oedd gweld cymaint o hen ffrindiau a chyd-weithwyr yn ei angladd yn Eglwys Sant Padarn.

Ei brif ddiddordeb oedd ei deulu a'i gartref. Roedd yn hoff hefyd o gerdded a chrwydro llwybrau ei fro ac ymddiddorai mewn pob math o chwaraeon. Mae ein cydymdeimlad oll gyda Elizabeth, Janice, Glenda, Keith, Kevin a'r holl deulu yn eu profedigaeth.

CAPEL COCH: Cynhaliwyd yr Ŵyl Ddiolchgarwch ddydd Sul, Hydref 12. Cafwyd oedfa'r plant am 10.30 y bore. Cymerwyd rhan gan blant yr Ysgol Sul, ac roedd yn braf gweld cymaint yn yr oedfa, yn blant a'u teuluoedd ac aelodau Capel Coch a Nant Padarn. Gyda'r nos, cafwyd oedfa Ddiolchgarwch dan arweiniad y gweinidog, y Parchg John Pritchard, a chymerwyd rhan gan Gôr Lleisiau Lliwedd. Diolch iddynt am eu cyfraniad i'r gwasanaeth.

Yn ystod oedfa'r bore, cyflwynwyd oriau'r yn rhodd i Mr Gareth Jones i gydnabod ei wasanaeth ffyddlon i'r Ysgol Sul am fwy na 25 o flynyddoedd. Wrth gyflwyno'r rhodd iddo, pwysleisiodd Mrs Falmai Pritchard nad rhodd i rywun oedd yn rhoi'r gorau i'w waith oedd hon. Mae Gareth yn parhau yn y gwaith, efo'i ddosbarth Ysgol Sul ac efo'r gwaith o gyfeilio yn yr Ysgol Sul a'i gwasanaethau arbennig. Fel y dywedodd Falmai, rydym yn edrych ymlaen at gael ei wasanaeth yn yr Ysgol Sul am o leiaf 25 mlynedd arall. Roedd yn braf cael cyfle i ddiolch i rywun tra mae'n dal yn y tresi. Yn ogystal â'i waith yn yr Ysgol Sul, mae Gareth yn hynod weithgar fel blaenor ac organydd yn Capel Coch, a diolchwn iddo am ei ffyddlondeb a'i ymroddiad dros y blynnyddoedd. YSGOL DOLBADARN.

Ar y Radio. Ddechrau mis Hydref daeth Hywel Gwynfryn i'r ysgol i gyfweled dau ŵr lleol, sef Mr Len Jones a Mr Ralph Jones, ar gyfer eitem ar Radio Cymru. Roedd y cyfweiliadau yn ymwneud â Diwrnod Yr Henoed ac wedi ei drefnu yn yr ysgol am fod y rhai a gafodd eu cyfweled yn gyn-ddisgyblion, a'r ysgol yn dathlu ei 70 mlwydd oed eleni. Roedd hwn yn brofiad arbennig i bump o'r disgyblion - cael eu cyfweled yng nghwmni Taid, sef Mr Len Jones; y



Taid a'i wyron a'i wyresau.

pump yw Danny, Cerys, Mari, Cian a Billy.

Dawnswraig o Fri. Mewn gwasanaeth dosbarth y tymor diwethaf ar y thema 'Ein Doniau' fe gyfareddwyd pawb gan ddawn dawnio Zoe Wood. Nid oedd yn syndod i ni felly ddeall ei bod wedi cael cynnig mynd i ysgol haf yng Nghasnewydd yn ystod y gwyliau i ddatblygu ei dawn ymhellach. Mae yma dalent, heb os nac oni bai. Mae Rosie hefyd yn prysur ddilyn ôl traed ei chwaer fawr.



Zoe yn ystod egwyl o'r ymarfer.

Ysgol Erstalwm. Bu disgyblion yr Adran Iau yn Highgate, Llanystumdwy, i gael blas o fywyd ysgol tua chanrif yn ôl. Mae'n anodd gwybod ai'r disgyblion neu'r staff oedd yn ei chael anoddaf i eistedd heb yngan gair!! Ar y ffordd yn ôl cafodd y plant

gyfle i alw heibio Cae'r Gors i gael blas o fwyd ar yr aelwyd yn yr un cyfnod. Diolch i staff y ddwy ganolfan ac i Mr Dilwyn Williams o'r Archifdy am eu croeso a'u paratoadau.

Profiadau Theatrig. Ar ddechrau'r tymor cafodd y Babanod i gyd y cyfle i fynd i weld y sioe Llyfr Bach y Plant yn y Galeri gan fwynhau'r profiad yn fawr.

Yn ystod yr hanner tymor cafodd y plant i gyd hefyd weld sioe Hud a Lledrith gan y pypedwr Mark Whincup, gan ddysgu llawer am beryglon cyffuriau.

Cymdeithas Rhieni a Chyfeillion. Diolch i bawb a daeth i gefnogi y Bingo yng Ngwesty'r Dolbadarn. Cafwyd noson hwyliog a llwyddiannus iawn. Cynhelir Cyfarfod Blynnyddol y Gymdeithas Rheini a Chyfeillion yn yr ysgol am 7.15 nos Lun 3 Tachwedd - croeso i bawb.

Myfyrwyr. Mae bob amser yn braf cael disgyblion o Ysgol Brynrefail ar brofiad gwaith, yn arbennig os ydynt yn gyn-ddisgyblion. Pleser oedd croesawu Megan Forster, Sasha Jarvis a Gwenno Morris atom yn ddiweddar. Mae Manon Jones hefyd efo ni ar rai dyddiau bob wythnos fel rhan o'i chwrs yng Ngholeg Menai.

Gwasanaeth Dathlu 70 oed. Os gwyddoch am unrhyw un a oedd yn ddisgybl yn yr ysgol yn Hydref 1938 pan agorwyd yr ysgol, ac a hoffai ymuno efo ni yn ein gwasanaeth dathlu ar 20 Tachwedd, gofynnwch iddynt gysylltu â'r ysgol ar 678629, os gwelwch yn dda. Diolch.



Plant Dolbadarn yn smilio eu bod yn byw erstalwm!

DEINIOLEN

Mrs Nia Gruffudd Ffôn: (872133)

MARWOLAETH. Bu farw Mr Keith Williams, 8 Rhes Fictoria, ar 7fed o Hydref, ar ôl gwaeledd hir, yng nghwmni ei wraig, Shirley.

Magwyd Keith ym Mhentre Helen, yn fab i'r diweddar Thomas a Claudia Williams ac yn frawd i Mrs Hilda Griffith. Roedd yn yrrwr bws am dros 45 mlynedd, yn fwyaf diweddar i Gwmni Padarn, Llanberis.

Cafwyd gwasanaeth preifat yn y cartref ac yna gwasanaeth cyhoeddus i ddilyn ym Mynwent Macpelah. Er gwaetha'r holl law, daeth nifer fawr o gymdogion, ffrindiau a chyd-weithwyr i'r angladd. Cafwyd te i ddilyn yn Groeslon Tŷ Mawr. Dymuna Shirley ddiolch i bawb a fu'n gymorth yn ystod cyfnod y salwch, yn enwedig Staff Meddygfa Llanberis a Ward Moelwyn, Ysbyty Gwynedd, am eu gofal dwys ac am yr holl gardiau a rhoddion tuag at Hafan Menai, ble bu'n derbyn cymorth yn ystod ei waeledd.

Hoffai hefyd ddiolch i Mr Gwynfor Jones a'r Parch John Pritchard am eu cymorth hwythau yn ystod y cyfnod anodd hwn.

DIOLCH. Hoffai Nesta, Alison a Hayley, Godre'r Foel, Rhiwen, ddiolch yn fawr iawn i'w teulu a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad, caredigrwydd a chefnogaeth a ddangoswyd tuag atynt yn ystod eu profedigaeth o golli gŵr a thad annwyl.

Diolch yn fawr am yr holl gardiau a rhoddion ariannol a dderbyniwyd er cof am Keith tuag at Feddygfa Llanberis, Ambiwylans Awyr Cymru ac Ymchwil Cancr.

Diolchwn yn arbennig i Dr Williams a Staff Meddygfa Llanberis, Y Gweinyddesau Bro, Cymorth Llaw a Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd, am eu gofal difflino. Diolch i'r Parchedig R. Townsend am ei wasanaeth teimladwy a'i eiriau caredig. Diolch i Dylan Griffith, Trefnwr Angladdau, am ei wasanaeth trylwyr a boneddigaidd.

LLONGYFARCHIADAU i Keith, Ffion, Beca ac Alis, Rhiw Goch, Clwt y Bont, ar enedigaeth bachgen bach yn ddiweddar.

Anfonwn ein cofion gorau i bawb sydd heb fod yn dda yn y pentref yn ddiweddar.

BORE COFFI. Cynhaliwyd Bore Coffi, dydd Sadwrn, 18 Hydref, er budd y capel yn Neiniolen. Cafwyd ymateb ardderchog a diolchwn i bawb am eu cefnogaeth.

DIOLCHGARWCH. Cynhaliwyd Gwasaneth Diolchgarwch yr Ysgol Sul Undebol yng Nghapel Ebeneser ar fore Sul, 19 Hydref. Cymerwyd rhan gan y plant i gyd, yn ardderchog, Diolch i'r holl athrawon am eu gwaith caled.

CYDYMDEIMLWN â Stephen, Emma, Daniel a Jessica Lovell, 1 Tai Gwyrfa, Clwt y Bont, a Mrs Nansi Morris a'r holl deulu yn dilyn colli gwraig, mam a merch

arbennig yn ddiweddar. Anfonwn ein cofion cynhesaf at yr holl deulu yn eu galar.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL. Daeth criw da i Dŷ Elidir i gyfarfod cyntaf tymor y Gymdeithas.

Cawsom noson ddifyr iawn yng nghwmni Elfed Morgan Morris, Llechwedd. Cafwyd ganddo sgwrs ddiddorol am ei gefndir cerddorol a'r profiadau a gafodd fel canwr a chyfansoddwr. MERCHED Y WAWR. Daeth nifer dda o'r aelodau ynghyd i gyfarfod mis Hydref. Croesawodd Brenda, y Llywydd, Helen sydd wedi ymaelodi â'r gangen.

Cydymdeimlwyd â Jane a Buddug, y ddwy wedi cael profedigaethau yn ddiweddar. Anfonwyd cofion cynnes am lwyf wellhad buan at Mrs Eirlys Williams, sydd wedi bod yn yr ysbyty ond wedi cael dychwelyd gartref erbyn hyn.

Bydd y Cwis Hwyl Cenedlaethol yn cael ei gynnal eleni ar 7 Tachwedd yng Ngwesty Meifod, Bontnewydd a bydd tri thim o'r gangen yn cystadlu.

Roedd nifer o'r aelodau yn dymuno cael mynd am ginio Nadolig a gofynnwyd i Margaret Ellen ac Eirian i wneud y trefniadau. Cafwyd mantolen ariannol lewyrchus iawn am 2007/08 gan Margaret, y Trysorydd.

Y wraig wadd yn y cyfarfod oedd Rhian, sy'n gweithio i gwmni gemwaith 'Tlws'. Cwmni a ddechreuodd Gaenor, y perchennog, rhyw dair blynedd yn ôl o'i chartref ond sydd bellach wedi agor tair siop. Roedd gan Rhian arddangosfa dda o'r cynnyrch a gwledd i'r llygaid. Diolchwyd iddi gan Buddug.

Bydd y cyfarfod nesaf ar 17 Tachwedd pryd y disgwylir Mari Emlyn a fydd yn trafod llythyrau O.M. Edwards, Elin Edwards ac Eluned Morgan.

DYMUNA John Hughes, Prenteg, ddiolch o galon i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd tuag ato tra bu yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref.

DYMUNA Eurwen Roberts, 47 Rhydfadog, ddiolch yn diffuant i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddi yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer annwyl, Mair, yn Aberystwyth. HOFFAI Mrs Olive Jones, 1 Hafod Oleu, ddiolch o galon am garedigrwydd teulu a ffrindiau ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 mlwydd oed ddiweddar mis Medi.

Diolch hefyd i staff caffï pentref Deiniolen am baratoi parti arbennig i ddathlu'r achlysur.

Cefnogwch
ein
Hysbysebwy

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

CLWB ORWIG. Mewn cyfarfod o'r Clwb croesawyd yr aelodau yn ôl wedi gwyliau'r haf.

Mrs Theta Owen oedd y beirniad yng nghystadleuaeth 'Clwb Orwig yn ei Flodau' a llongyfarchodd yr aelodau ar safon uchel y trefniannau, er gwaethaf effaith y tywydd garw ar y planhigion.

Myneigwyd cydymdeimlad â theulu'r ddiweddar Mrs Katie Lloyd Hughes. Cyflwynwyd anrhegion a llongyfarchiadau i Andrew Griffith a Selwyn Williams ar ddathlu eu pen-blwyddi yn ddiweddar.

Croesawyd Mr D.E. Jones o Swyddfa Ardal Dyffryn Peris i'r cyfarfod. Mae'r Clwb yn awyddus i dderbyn cymorth neu grantiau tuag at dorri'r gwair o gwmpas Cofeb y Chwarelwyr yn yr Allt

Ddu, a bu'r awgrymiadau a gyflwynwyd gan Mr Jones o gymorth mawr. Gwerthfawrogwyd ei holl syniadau. Diolchwyd i Mrs Megan Morris a Mrs Alice Griffith am y te. Trafodwyd y paratodau ar gyfer dathlu wythfed pen-blwydd y Clwb ym mis Hydref. Bwriedir casglu rhai o atgofion o'u plentynod a pheth o hanes Dinorwig gan yr aelodau.

EIRA CYNTAF Y GAEAF. Gwelsom eira cyntaf y gaeaf eleni ar yr Wyddfa ar 3 Hydref. Y goel yn yr hen amser oedd fod eira ar y mynyddoedd yn Hydref yn erthylu'r gaeaf, gbeithio y daw yn wir y gaeaf yma. Yn yr haf y goel oedd fod terfysg mis Mai yn erthylu'r haf, ac fe ddaeth yn wir iawn yr haf diwetha ma. Mae llawer i ddweud tros yr hen ddywediadau yma.

*Blodau
Racca*

(ALWYN A SARAH JONES)

Ffôn: 870605

- Basgedi Planhigion
- Planhigion Gardd
- Basgedi Crog
- Hefyd, Compost ar werth

RHODD O'R GALON
YW BLODAU

CERIS JONES

Teglan, Stâd Talybont

LLANRUG

677362

neu symudol


07979

620996

- Trwsio ceir a faniau
- Gwaith MOT
- Mecanic profiadol iawn
- Prisiau cystadleuol



Hywel Williams
Aelod Seneddol



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad

Etholaeth Caernarfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'r A.S. neu'r A.C. mewn cymhorthfa, ffoniwch **01286 672076** i wneud apwyntiad

neu

ysgrifennwch atynt:

Swyddfa Etholaeth

8, Stryd y Castell, Caernarfon LL55 1SE

neu

e-bost: **williamsgw@parliament.uk**

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

YSGOL WAUNFAWR.

Ymweliad y Babanod â'r Galeri. Aeth deugain o blant y Babanod i'r Galeri yng Nghaernarfon ar ddechrau'r tymor i weld perfformiad o *Llyfr Bach y Plant*. Roeddynt i gyd wedi mwynhau yn fawr.

Glan-llyn. Treuliodd 25 o blant blwyddyn 5 a 6 dridiau plesurus iawn yng Nglanllyn ddiwedd mis Medi gyda disgyblion Ysgol Bethel. Hoffai Mrs Dafydd a Mr Williams ddiolch i'r plant am eu hymddygiad rhagorol.



Dyma adroddiadau tri o'r plant:

Taith Glan Llyn

Deffrais yn gynnar yn y bore yn teimlo'n gynhyrfus am daith Glanllyn. Cyrhaeddais yr ysgol am 8:30y.b. Rhoddais fy mag yn y cyntedd yn barod i fynd. Am 9:45y.b. cyrhaeddodd y bws. Eisteddais efo Sophie, fy ffrind gorau, chwaraeon 'Hangman' ar ddarn o bapur i dynnu ein meddwl o'r siwrne. O'r diwedd cyrhaeddodd Glanllyn - Hwre!!

Aethom ar ras i'r tŷ a lwcus cafodd fy ffrindiau a fi rannu ystafell fawr, o'r enw'r 'Stabl'! Rhuthrodd pawb i gael bwnc uwchben, ond rasiais i am y losins yn fy mag. Cannodd y gloch, roedd yn amser cinio.

Ar ôl cinio aethom i ganwio, gwisgais siaced achub i gadw yn ddiogel. Cefais rwyf i ni roi ein pennau yn y dŵr a gweiddi ar Tegid. Gwaeddodd Tesni, Megan Enlli a fi 1, 2, 3 a rhoi ein pennau o dan y dŵr. Oh! Roedd y dŵr yn OER, a dim golwg o Tegid. Dywedodd Mam hanes Llyn Tegid. Cyn llyn, roedd pentref bach o'r enw Tryweryn, a ddaru pobol o Lerpwl symud pawb o'r pentref a bodd i'r pentref efo dŵr. Pan oeddwn yn ferch fach aeth Mam, Dad a fi am dro i Bala. Roedd y llyn yn wag ac oedd Mam a Dad yn gallu gweld darnau o'r hen bentref, oedd yn drist iawn.

Ar ôl canwio aethom ar daith llyn mewn cwch mawr, roedd yn bwrw glaw ac roeddwn wedi rhynnu. Ar ôl swper, chwaraeon ni gemau a gwylio DVD, *James and the Giant Peach*. Roedd yn amser gwely ond oedd dim cysgu arnom ni, bwytaom ni llwyth o losins ac wedyn siarad a chwarae tan 4:00y.b. Daeth Mrs Dafydd i'r ystafell i ddweud y drefn wrth pawb. Dywedodd Tesni, 'Rydym yn chwarae *Britain's got Talent*.' Doedd Mrs Dafydd ddim yn meddwl bod hyn yn ddoniol.

Trannoeth aethom am frecwast. Y gweithgaredd cyntaf oedd adeiladu rafft, cawsom 8 casgen, 8 llinyn a phedwar darn o bren. Clymu y llinyn ar y casgenni, wedyn rhoddwyd pedwar darn o bren ar ochr y casgenni i wneud y rafft. Cafodd pawb dwn i hwylio ar y llyn, roedd yn andros o hwyl. Yr ail weithgaredd oedd cyfeiriannu. Roeddwn ni mewn grwpiau o dri ac roedd rhaid chwilio am drionglau efo rhifau, roedd y dasg braidd yn ddwl. Nesaf oedd dringo tŵr a chwsr ymosod, oedd yn hwyl fawr.

Ar ôl swper roedd yn amser disgo ac roedd pawb yn dawnsio yn wyllt. Roedd Cian a Dafydd Meredydd yn cael hwyl yn dawnsio efo'r holl ferched.

Y diwrnod diwethaf aethom ar y wal ddringo. Roedd Sophie yn dringo fel mwnci, ac wedi cyrraedd y top mewn chwinciad. Ar ôl y wal roedd hi'n amser chwarae yn y pwll nofio, oedd yn wlyb ond cynnes. Roedd fflôt mawr yn y pwll ac roeddem i gyd yn dringo'r fflôt efo'n gilydd ac roedd yn troi drosodd bob tro a'n lluchio ni gyd o dan y dŵr.

Ar ôl cinio roedd yn amser dal y bws yn ôl i Waunfawr, BOO!! Roedd Glanllyn yn hwyl ond yn OER! Fuaswn i yn hoffi mynd yna yn y Gwanwyn neu'r Haf. Cysgais yn drwm y noson honno, a oeddwn i ddim eisiau codi i'r ysgol y diwrnod wedyn.

MELERI LAW, BLWYDDYN 6

Ein Trip i Lan-llyn

Dyma'r ail waith i mi fynd i wersyll Glan-llyn efo'r ysgol. Roeddwn yn edrych ymlaen at gael mynd, yn enwedig i wneud y cwsr rhaffau a chanwio.

Cymerodd y siwrne tuag awr a hanner. Roeddwn wedi pacio dadas i rannu efo fy ffrindiau yn yr ystafell wely. Gyda Dafydd, Twm, Joel a Callum yr oeddwn yn rhannu ystafell, ac roedd gennym fwy na digon o dda-da i fynd rownd gan ein bod i gyd wedi dod â rhai i rannu. Roedd gen i rai ar ôl yn dod adra!

Y flwyddyn hon eto, y cwsr rhaffau a chanwio fwyneais i fwyaf, ond tro yma cawsom fowlio hefyd, roedd yn dda. Gwnes i ffrindiau newydd o Ysgol Bethel, ac yn y disgo dawnsiais efo Sophie, Kushla a Megan Elen.

Yng Nglan-llyn, cewch ganwio, dringo, nofio, bowllo a chael lot o hwyl. Mae'n braf yno ac mae'r bwyd yn dda, ond dim cystal â bwyd adra!

CIAN McDERMOTT, BLWYDDYN 6

Trip i Lan-llyn

Yn ystod yr wythnos diwethaf treuliodd y rhan fwyaf o Flwyddyn 5 a 6 dri diwrnod yng ngwersyll yr Urdd yng Nglan-llyn.

Deffrais yn gynnar oherwydd roeddwn yn gyffrous i fynd i Lan-llyn am y tro cyntaf. Roedd gan bawb fagiau mawr. Cefais eistedd yn y blaen oherwydd roeddwn ofn mynd yn sâl ar y daith hir a throellog.

Ar ôl cyrraedd roeddwn wedi



blino. Dywedodd y dyn pwy oedd ym mhob ystafell. Roedd genod Blwyddyn 6 yn y Stabl ac roeddwn i yn rhannu ystafell 16 gyda Gwion a Cynan. Roedd bwyd y cantin yn fendigedig, cefais sgloodion a phitsa i ginio'r diwrnod cyntaf.

Ein gweithgaredd cyntaf oedd y wal ddringo. Cyrhaeddais y top 2 waith. Fy hoff weithgaredd oedd y cwrs rhaffau a'r disgynnydd. Y gweithgaredd gwaethaf oedd y daith llyn, lle aeth pawb yn socian. Ar ôl pob gweithgaredd roeddwn yn cael siocled poeth i gynhesu.

Rwyf yn gobeithio cael mynd eto oherwydd roedd pob dim yn grêt!

DAFYDD LLWYD, BLWYDDYN 5

Y Cyngor Ysgol. Cynhaliwyd etholiadau'r cyngor ddechrau mis Medi a hoffem longyfarch yr aelodau newydd, sef cynrychiolwyr Blwyddyn 3: Chloe Wobey a Cai Morgan; Blwyddyn 4: Huw Williams a Mared Griffiths; Blwyddyn 5: Tim Williams a Kushla Kingston; Blwyddyn 6: Joel Sellers a Tesni Haf.

Cynhaliwyd dau gyfarfod o'r cyngor hyd yma a bydd yr aelodau yn canolbwyntio yn ystod yr hanner tymor nesaf ar sut i drefnu gweithgareddau ar gyfer dydd Plant Mewn Angen a'r siop ffrwythau.

Ymweliad â Phlas Mawr, Conwy, a Thŷ Mawr, yr Wybrnant. Ddydd Mercher, 16 Hydref, aeth blwyddyn 5 a 6 ar ymweliad addysgol i Blas Mawr Conwy a Thŷ Mawr, yr Wybrnant. Roedd yr ymweliad yn cyd-fynd â'r thema dymhorol am y Tuduriaid. Cawsant ddiwrnod arbennig o dda a phleser oedd mynd a nhw, yn ôl yr athrawon, Mr Gareth Williams, Mrs Anne Clarke a Miss Nia Morris.

Ymweliad Blwyddyn 4 â Chae'r Gors. Dydd Gwener, 17 Hydref, bu plant blwyddyn 4 ar ymweliad yng Nghae'r Gors. Cawsant gyfle i wneud gwaith celf gyda'r arlunydd, Karen Jones, sy'n byw yn y Waunfawr. Roedd canmol mawr i'r gweithdy. Diolch Karen.

Gwasanaeth Diolchgarwch. Byddwn yn cynnal ein Gwasanaeth Diolchgarwch yn yr ysgol fore Gwener, 24 Hydref. Ond fe fydd cyfle ar ôl yr hanner tymor i'r rhieni a'r plant gyd-addoli yn Eglwys Croes-y-Waun, gyda'r Parchedig Gwenda Richards. Mwy o fanylion i ddilyn.

Ymweliad Techniquet, Llanberis. Dydd Gwener, 24 Hydref, bydd Chris a Julie o Techniquet, Llanberis, yn treulio diwrnod yn yr ysgol yn cynnal gweithdy gwyddonol ar y corff a'n hesgryn.

Dyddiadau i'w cadw mewn cof: **Nosweithiau Rhieni.** Cynhelir nosweithiau rhieni wythnos ar ôl yr hanner tymor, sef Tachwedd y 3ydd ymlaen.

Ffair Lyfrau Flynyddol. Cynhelir ein Ffair Lyfrau flynyddol yn ystod yr ail wythnos o fis Tachwedd.

Tachwedd 21ain. Ni fydd ysgol i'r plant gan y cynhelir hyfforddiant i'r athrawon yn Ysgol Brynrefail. **DYMUNWN** wyliau hanner tymor hapus i bawb a dymunwn wellhad buan i Mrs Gwenda Griffith.

Y CLWB 300. Dyma enillwyr y

Clwb Cant am fis Medi: £30: Mrs Bethan Thomas, Ty'n Llan; £20: Mr Bryn Jones, Haulfryn; £10: Mr Haydn Jones, Rhandirmwyn.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Yng nghyfarfod diwethaf y Sefydliad, a gynhaliwyd yn Ffestri Eglwys y Waun ar 2 Hydref, croesawodd Catherine Jones, y Llywydd, Trevor Wilson, Waunfawr, y siaradwr gwadd. Cafwyd sgwrs ddiddorol ganddo am yr amser pan oedd yn fachgen ifanc ac yn gweithio yn y pwll glo. Diolchwyd iddo gan y Llywydd.

Enillwyd y raffl, wedi ei rhoi gan Lowri Dunn, gan Annie Thomas. Ar 6 Tachwedd cynhelir y Cyfarfod Blynnyddol.

DYMUNA Marian Williams, 18 Stad Tŷ Hen, ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ôl triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar. Diolch yn fawr.

DYMUNO'N DDA. Dymuniadau gorau a phob llwyddiant i Howard a Debbie Jones yn eu menter o ddod â chyfleusterau siop i'r pentref. Mae y siop, Bryn Derwen, ar agor bob dydd o'r wythnos.

LLONGYFARCHIADAU a chanmoliaeth i chi, aelodau'r Ysgol Sul ar eich gwaith yn cychwyn y Gwasanaeth Diolchgarwch yn y Capel fore Sul, 19 Hydref.

PRIODAS. Dymuniadau gorau a phriodas hapus i Sara Thomas o Dan-y-Coed, a Keith Povey o Gaernarfon, ar eu priodas yn Neuadd Craflwyn, Beddgelert, yn ddiweddar. Mae'r pâr ifanc wedi ymgartrefu yma yn y Waun, yn Ty'n Llwyn.

ADREF O'R YSBYTY. Yn ystod y mis gorfu i rai o drigolion y pentref dreulio cyfnod yn yr ysbyty. Croesawn Terry Parry, Cae Rhos, a Leslie Jones, Bro Dawel, adref wedi iddynt fod yn Ysbyty Gwynedd a Mildred Beech, Bronallt, adref o Ysbyty Gobowen wedi iddi dderbyn penglun newydd. Hyderwn y byddwch yn dal i wella ar ôl cael bod adref.

CYDYMDEIMLWN yn ddwys â Colin Rowlands, Ty'n y Coed, yn ei brofedigaeth o golli ei fam a Siân yn colli nain annwyl.

Daeth y brofedigaeth o golli ei brawd i ran Mrs Maureen Hughes, Bryn Peris. Anfonwn ein cydymdeimlad atynt oll yn eu colled.

Anfonwn ein cydymdeimlad hefyd at Mr John Owen a theulu Ty'n Mynydd yn eu profedigaeth frawychus o sydyn o golli priod a mam annwyl. Cofion am Eleri, 14 Stad Tŷ Hen a'r teulu bach yn eu colled o golli un annwyl iawn iddynt.

Anfonwn ein cydymdeimlad dwys hefyd at Alison, Arfon House, a Megan, Stad Bro Waun, yn eu profedigaeth o golli eu chwaer, Jean Williams o Gaeathro.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion cynhesaf at Siôn Prys Jones, Penrhos, sydd yn Ysbyty Gwynedd ac at Gwilym Parry, 7 Bryn Golau, sydd wedi bod yn yr adran gofal dwys yn Ysbyty Gwynedd ers rhai wythnosau. Hyderwn yn fawr y byddwch yn gwella yn fuan.

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

CROESO. Mae Steffan Huws a Kirsty Trystan wedi cymryd tenantiaeth Erw Cynrug, Rhosbach. Edrychwn ymlaen at eu cwmni yma yng Nghaeathro.

LLYWODRAETHWYR YSGOL. Mae dyfodol safonau addysg ysgolion yr ardal mewn dwylo lleol diogel. Yn ogystal â Dewi Jones, mae Nia Jones a Huw Ceiriog ar Gorff Llywodraethol Ysgol Gynradd y Bontnewydd. Yn ogystal mae Iona Ceiriog ar Fwrdd Llywodraethwyr Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon.

PEN-BLWYDD O BWYS. Mawr oedd y dathliadau wrth i Nia Jones, Y Dderwen, ddatlu diwrnod hanesyddol yn ei bywyd. Yn anffodus nid oes un bws cyhoeddus yn rhedeg o fewn milltir i'r tŷ!

CYDYMDEIMLO. Yn ddiweddar bu farw un o deulu Llwyn Alice, sef Jean Williams, Llety. Cydymdeimlwn â'r teulu i gyd, yn arbennig ei mab, William.

CYDYMDEIMLO. Yn ddiweddar bu Eric Peppiatt, Tai Glangwna, farw yn yr ysbyty. Cydymdeimlwn yn ddwys ag Elizabeth, ei weddw.

DATHLU PRIODAS DDIAMWNT. Ddiwedd mis Hydref bu Bobby a Jennie Owen, 1 Erw Wen, yn dathlu 60 mlynedd o fywyd priodasol. Llongyfarchiadau mawr a dymunwn iddynt lawer mwy o flynyddoedd hapus i ddod. **CYNGOR CYMUNED.** Unwaith eto nid oedd enw wedi ei gyflwyno i lenwi'r sedd wag yn Ward Caeathro.

Oherwydd nad oedd Cyngor Gwynedd wedi codi arwydd stryd newydd ar gyfer 'Caeathro Bach', cytunwyd i'w hatgoffa am eu hymrwymiad i godi arwydd newydd.

Adroddwyd bod Cyngor Cymuned Llanrug wedi categorio llwybrau ardal Pontrug ar yr un lefel ag argymhellid Cyngor Cymuned Waunfawr. Cyflwynwyd a derbyniwyd Mantolen y Cyngor am y chwe mis hyd at ddiwedd mis Medi 2008.

Cytunwyd i gynnig

cymhorthdal o £150 i Gronfa Mynwent Caeathro; £100 at Glwb Merched Caeathro; £80 i Ysgol Feithrin y Bontnewydd a Chaeathro, a £150 i Eco'r Wyddfa.

YSGOL SYR HUGH OWEN. Etholwyd Hannah Hughes, Llyngele, yn ddirprwy Brif Eneth yr ysgol eleni. Llongyfarchiadau iddi.

TYNFA MISOL. Enillwyr Tynfa Misol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro am fis Hydref oedd: £40: (56) Alan Hughes, 6 Tai Glangwna; £25: (21) Arwel Evans, 8 Tai Glangwna; £15: (64) Alun Roberts, Monfa; £5: (81) Sharon Hughes, 11 Tai Glangwna.

LLINELLAU MELYN. Ar hyn o bryd mae Cyngor Gwynedd yn ymgynghori ynglŷn â'r bwriad o gyflwyno gorchymyn gwahardd a chyfyngu aros, a mannau parcio yn y pentref. Y lleoliadau yw:

- ffordd yr A4085 sydd yn ymestyn tuag at Stad Glandŵr (CC53)

- cyffordd Stad Erw Wen (CC54)

- mynediad i Cefn Gwern (CC54)

Pe bai'r gorchymynion yn cael eu cyflwyno, yr effaith fydd dim aros ar unrhyw adeg ac eithrio rhai achosion. Mae'r manylion ar gael i'w harchwilio yn Llyfrgell Caernarfon.

Beth fydd yr effaith ar barcio i drigolion canol y pentref? A fydd ceir yn medru gadael Erw Wen yn fwy diogel? Beth yw eich barn? Dylid cyflwyno sylwadau erbyn 13 Tachwedd i Gwenan Thomas, Swyddfa Cyfreithiwr y Cyngor yn Swyddfa'r Sir.

OEDFAON Y CAPEL. Cynhelir yr oedfaon ac Ysgol Sul fel â ganlyn ym mis Tachwedd:

2: 2.00 Parch Ruben Roberts, gyda thrafodaeth yr aelodau ynglŷn â gofal bugeilio.

Dim Ysgol Sul.

9: 11.00: Ysgol Sul

16: 11.00: Ysgol Sul

2.00: Parch Trefor Jones

23: 11.00: Ysgol Sul

30: 11.00: Ysgol Sul

Croeso cynnes i bawb.

SNOWDONIA PARC
WAUNFAWR

• Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
• Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
• Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go Iawn

Ffôn: 650218

CHWILOTA

CADW REIAT



Clywir ambell riant yn aml yn dwrdio'r plant ac yn eu siarsio i beidio 'cadw reiat'. Hynny yw, yn ei ystyr ddiniweithiaf, i beidio â gwneud gormod o ddrw. Ond daw'r dywediad o ddigwyddiad llawer mwy difrifol, sef 'riot'. Hysbys i lawer yw hanes darllen y 'Riot Act' yn Llanddeiniolen yng nghyfnod cau'r tiroedd comin, a gorfod galw'r milisia i geisio tawelu'r dyfroedd yn yr achos hwnnw. Yn yr un modd, roedd chwarelwyr y Penrhyn, amser y Streic Fawr, yn hen gyfarwydd â gweld yr heddlu a'r milwyr yn cael eu galw i geisio cadw trefn ar yr hyn yr oedd perchnogion y chwarel yn ofni allai arwain i 'riot'. Ond fe fu'n nesa peth i ddim i ni gael 'riot' yn ardal yr *Eco* hefyd, a hynny fymryn llai na chanrif yn ôl.

Roedd etholiad cyffredinol yn cael ei gynnal yn nechrau 1910, a'r mwyafrif o chwarelwyr dyffryn Peris yn cefnogi'r Rhyddfrydwyr, er bod y Toriaid yn cyhuddo Lloyd George o fwriadu codi treth o swllt yn y bunt ar lechi. Gellir dychmygu felly, bod teimladau eithaf cryf o'r ddwy ochr yn y dadlau a fu cyn yr etholiad.

Yn gynnar yn y flwyddyn, cynhaliwyd cyfarfod 'bywiog' yn Llanberis; a hynny, ar bnawn Sadwrn. (Tybed ble roedd y Darans yn chwarae ar y pnawn arbennig hwnnw?) Arthur Hughes, Ceidwadwr 'a'i ychydig gefnogwyr' oedd yn areithio i gynulleidfa oedd yn orlawn o Ryddfrydwyr. Dr Milton, Chwarel Glynrhonwy, oedd yn y gadair ac, yn ôl yr adroddiadau yn y wasg, ef oedd y siaradwr gorau o ddigon o'r rhai gymerodd ran:

'Yr oedd yn llawn natur dda. Chwarddai yn barhaus gyda'r gynulleidfa. Gogleisid ef gan y canu, yr holi a brath-eiriau digrif ei wrandawyr.'

Er hynny, roedd yr holwyr; ac yn eu plith enwir rhai fel Tommy Owen, Jack Hughes a Robert Pritchard, yn ei faglu yn fynych 'ac yn ei godymu weithiau'.

Araith swta iawn a gafwyd gan Arthur Hughes, a byrdwn ei neges oedd 'swllt y bunt ar

lechi'. Roedd bechgyn Clwb y Dinesydd yn ei lorio yn fynych yn ôl adroddiad y wasg. Pwy tybed oedd y rheini, a beth oedd Clwb y Dinesydd? Aeth pethau yn boeth yno ac apeliodd y Parch J. Evans Owen ar i'r gynulleidfa fod yn oddefgar, ac i roi gwrandawriad parchus i'r siaradwr. Gyda hynny, daeth cyfarfod Llanberis i ben yn eithaf digynnwrf.

Nid felly fu'r hanes yng Nghaernarfon ar ddiwrnod yr etholiad, a rhaid cyfaddef mai hogia'r wlad yn hytrach na'r cofis oedd y prif ysgogwyr i'r helyntion a fu yno. Roedd pump o ddynion ieuanc o'r Waunfawr yng nghanol yr helynt, ac fe'u henwir fel Thomas Evans a Griffith Evans, Priory; Evan Jones, Goleufryn; R. O. Jones, Glanawel, ac Arthur Jones, Post Office. Ymhlith eraill a gyhuddwyd o gadw reiat roedd William Roberts, Warden Street, Llanberis, a Griffith Thomas Jones, Didfa, Llanrug.

Yn ôl arfer y cyfnod, rhaid oedd cyflogi heddlu ychwanegol i gadw trefn, a bu hynny yn rhannol gyfrifol am beth o'r helynt, er bod y Prif Gwnstabl wedi ei gymeradwyo am y modd y deliwyd â'r trafferthion.

Rhoddyd sylw i'r achosion hyn mewn cyfarfod o Bwyllgor Sirol yr Heddlu yn dilyn yr etholiad. Wrth gyflwyno

cyfrifon ariannol yr etholiad o du'r heddlu, adroddwyd bod yr heddlu o Fanceinion wedi costio bron i £180, gyda thaliadau ychwanegol i'r ychydig blismyn o Fôn a alwyd i Gaernarfon hefyd. Cafwyd cais am iawndal gan Heddlu Manceinion oherwydd i wisgoedd rhai o'u plismyn gael eu niweidio yn yr helynt. Derbyniodd y Pwyllgor nifer o lythyrau yn ymwneud â'r digwyddiadau; un yn arbennig gan yr Arglwydd Kenyon. Diddorol yw sylwi mai hwn oedd Llywydd Cymdeithasau'r Ceidwadwyr yng ngogledd Cymru. Gresynai at ymddygiad y gynulleidfa yng nghyfarfod F. E. Smith (Tori) yn y pafiliwn, at ddigwyddiadau ddydd yr etholiad ac ar ddydd y cyhoeddi canlyniadau. Nid oedd neb, meddai, yn cofio'r fath helyntion a thwrf mewn unrhyw etholiad cyn hyn yn yr ardal.

Yna, cafwyd adroddiad y Prif Gwnstabl ar y digwyddiadau. Ymhelaethodd ar nifer o achosion, ond credai mai un o'r prif resymau dros yr helynt oedd iddo orfod galw heddlu o Fanceinion i'r dref. Methodd â chael plismyn Cymreig am fod eu hangen yn eu siroedd eu hunain. Methodd hefyd â chael plismyn o Lerpwl; rhai a fyddai'n fwy cydymdeimladwy â'r dorf. Nid oedd plismyn Manceinion, meddai, am eu

bod yn hollol Seisnig, yn deall teimladau'r dyrfa leol, ac yr oedd hynny yn rhannol gyfrifol am yr awyrgylch derfysgol. Anfonodd blismyn gyda'r dorf o amgylch y dref, ac anogodd siopwyr a thafarnwyr yn enwedig, i gau'n gynnar. Nid oedd pob tafarnwr wedi derbyn y cyngor!

Oherwydd natur fygythiol y dyrfa, anfonwyd plismyn i warchod cartref H. Lloyd Carter yng Nghaernarfon. Bu ymosodiadau hefyd ar Glwb y Ceidwadwyr yn y dref a rhai adeiladau eraill. Cymerwyd dros ddau ddwsin o ddynion ieuanc i'r ddalfa, a phwysleisiai'r Prif Gwnstabl eu bod yn gefnogwyr neu'n aelodau o'r ddwy blaid - Rhyddfrydwyr a Cheidwadwyr. Roedd y mwyafrif o'r dau ddwsin yn hogia'r wlad - saith ohonynt o fro'r *Eco*, ac eraill o Rosgadfan, Clynog, Llanaelhaearn, Trefor, Llandwrog a Phenygroes. Roedd ychydig o'r dref ei hun hefyd.

Daeth achos y dau ddwsin gerbron Llys Ynadon Caernarfon yn ystod mis Mawrth. Erlynwyd ar ran yr Heddlu gan Mr S. R. Dew, cyfreithiwr o Fangor. Yn amddiffyn roedd Mr Ellis Jones Griffith A.S. a Mr Ellis Davies A.S. (dau aelod Rhyddfrydol). Achos hogia'r dre oedd gerbron gyntaf, ac fe'u cyhuddwyd o

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson)
CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- **Pob math o ddodrefn tŷ**
- **Cegin, 'stafell fyw, llofft**
- **Prisiau cystadleuol**
- **Carpedi, Llenni a Lloriau Pren**

Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff

Dylan Griffith

Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Yn Gwasanaethu'r holl ardal yn cynnwys-
PENISARWAUN • DEINIOLLEN • LLANRUG A LLANBERIS

Ffoniwch Dylan (Llys)

ar 871833

Symudol-07778127394

Gwasanaeth Teimladwy
Urddasol a Phersonol
24 awr y dydd
Capel Gorffwys Preifet

Hefyd



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrhaeddwyd Mewn Steil- Mewn Cerbyd Rolls Royce
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDDI ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

ymosod ar dŷ yn Twtil, lle credid fod merched a elwid yn 'suffragettes' yn aros! Mae'n amlwg fod tenant y tŷ yn Nhwtil yn eithaf cefnogol i'r dorf, ac atebodd yn gynnil bob cwestiwn a ofynnwyd iddo gan yr erlynydd, a mynd i hwyl gyda'r amddiffynwyr.

'Faint fydd cost trwsio drws y tŷ i chi?' oedd un cwestiwn.

'Dim, Syr,' atebodd yntau, 'y landlord sy'n talu.' A phan ofynnwyd iddo a oedd yn bosibl i dri dyn ymuno â'i gilydd i gicio drws ei dŷ i lawr, ei ateb oedd, 'Na, os nad ydynt yn denau iawn!' Wedi ystyried am ychydig amser, taflwyd yr achos hwn yn erbyn hogia'r dref allan a rhyddhawyd y cyfan.

Roedd yr ail achos yn ymwneud ag ymosodiadau ar dŷ Mr H. Lloyd Carter, sef Bron Seiont. Roedd William Roberts, Llanberis, yn un o'r rhai a gyhuddwyd o annog y dorf i dynnu'r tŷ i'r llawr! Apeliodd yr heddlu arnynt i fod yn fwy parchus o eiddo, ond aeth un o'r diffynyddion i gefn y tŷ a dechrau malu ffenestri'r stabal. Yna, cafodd Roberts afael ar ferfa, a'i defnyddio i geisio torri drws ffrynt y tŷ i lawr. Roedd eraill wedi cael mynediad i'r buarth erbyn hyn, ac yn torri rhai o ffenestri'r tŷ. Amcangyfrifai'r plismyn fod rhwng dau gant a thri chant o ddynion yn y dorf. Daeth tyst arall ymlaen i ddweud na welodd dorf o gwbl ger tŷ Mr Carter y noson honno, ac mai dim ond yn y dref ei hun yr oedd y torfeydd. A phan alwyd ar William Roberts, Llanberis, i roi tystiolaeth, dywedodd ei fod ef ac ychydig o bobl eraill wedi pasio heibio i dŷ Mr Carter y noson honno, ac iddo sylwi ar blismyn yn gwarchod y lle. Ni wyddai ddim oll am ferfa nac am falu drws.

Taflwyd yr achos hwn allan hefyd a gohiriwyd achosion y gweddill, gan gynnwys y pump o'r Waunfawr, am dair wythnos. Roedd hi'n ganol mis Mawrth ar y gweddill o'r achosion yn dod gerbron y llys, ac erbyn

hynny, roedd yr etholiad a'i gynnwrf yn angof. Adroddodd Mr Dew nad oedd yr heddlu yn dymuno ailgodi hen deimladau annifyr, ac nad oeddynt am barhau â'r achos yn erbyn y gweddill. Ac felly, rhyddhawyd pawb, gyda chlod i'r heddlu am weithredu mor rhesymol!

Crochendy Felin Wen

Daeth un neges arall ynglŷn â'r crochendy hwn, sef bod dosbarth o Ysgol Segontium, Caernarfon wedi cael eu cerdded yno tua 1952 i weld y lle, ond nid oedd sicrwydd a oedd y Felin yn cynhyrchu crochenwaith bryd hynny. Methais hefyd â chael unrhyw wybodaeth ar safle'r *London Gazette* i ddangos a aeth y crochendy a'i berchennog yn fethdalwr.

Plas Dinorwig

Gan Eifion Roberts, Llanberis, y daeth gwybodaeth am fwg neu gwpan dathlu yn cael ei hysbysebu ar safle gwerthu e-bay ar y wê. Mae enw'r Parch Hugh Griffith arno, y dyddiad 1903 a'r enw Plas Dinorwig. Tybed ai yn ein hardal ni yr oedd y plas hwn? Wel, digon agos, sef yn Y Felinheli. Mae'n cael ei adnabod yn ein cyfnod ni fel y Pink Palace! Ond tybed pwy oedd y Parch Hugh Griffith, a beth oedd ei gysylltiad â Phlas Dinorwig?

Gwehyddion o Lanrug

Daeth cais o Awstralia ynglŷn â theulu o wehyddion o Lanrug, yn enwedig un o'r enw Jabes Williams, mab William Rowlands o Bryniau Fawnog. Fe'i ganed yn Lanrug yn 1795, ac yr oedd yn byw ym Môn erbyn 1861. Oes rhywrai o'r darllenwyr yn un o ddisgynyddion William Rowlands, Bryniau Fawnog? Cysylltwch â mi os gwyddoch am unrhyw aelodau o'r teulu sy'n parhau i fyw yn yr ardal.

Priodas Assheton Smith

Gyda diolch i Mrs Ann J. Owen, Deiniolen, am gysylltu i ddweud bod baner i ddathlu'r briodas yn ei meddiant hithau hefyd. Ac ym meddiant Eifion




Roberts, Llanberis, mae poster yn dathlu'r briodas. Roedd y faner yn amlwg wedi ei chynhyrchu'n fasnachol i ddathlu'r briodas, ond mae'r poster wedi ei gynhyrchu ar ôl y briodas. Tybed faint o'r posteri hyn a brynwyd gan denantiaid diolchgar y Faenol am iddynt dderbyn hanner blwyddyn o rent yn rhodd gan aer y Faenol?

Enwau Coll

Yn dilyn trafod y tyddynnod coll yn ardal Pontrug a Chaeathro y mis diwethaf, daeth cais gan Rhian Williams, Caerdydd, yn holi am ddau le arall. Y cyntaf yw Llwyn Cogau yn ardal Brynrefail. Credaf i hanes yr hen dyddyn hwn

ymddangos yn yr *Eco* rhyw flwyddyn neu ddwy yn ôl, a cheir sôn amdano gan O. M. Edwards yn ei lyfr *Tro i'r Wlad*. Mae olion yr hen dyddyn i'w gweld o hyd ar y llwybr o Frynrefail i Glwt y Bont. Yr ail enw sy'n benbleth i Rhian yw lle o'r enw Ysgubor yn Llanberis. Oes rhywun o'r darllenwyr yn gwybod y lleoliad?

A dyna ddigon am y tro. Gyda diolch i bawb a gysylltodd ynglŷn â gwahanol agweddau o hanes y fro. Cofiwch anfon gair neu godi'r ffôn, a chysylltu â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon (01286 673515).



J.M. JONES
a'i Feibion
LLANRUG

Gwaith Coffaol

Ffon Gwaith
01286 672898

Cartref
01248 679089 • 01286 830996

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

www.silverstarholidays.com

13 Y Maes, Caernarfon.
LL55 2NF 01286 672333

GWYLIAU
Seren Arian

Pris £169
Atodlad Sengl £24

Cyngerdd Dathlu Deunaw
Ysgol Glanaethwy
Canolfan Mileniwm, Caerdydd
28-30 Tachwedd, 3 Diwrnod
2 Noson Cinio Gwely a Brecwast
Gwesty'r 'Holiday Inn' Casnewydd
Yn cynnwys bws a tocyn i'r cyngerdd

YSGOL BRYNREFAIL

Her Tîm Peirianeg Myfyrwyr Canolbarth a Gogledd Cymru

Ddydd Llun, 13 Hydref, mynychodd disgyblion Ffiseg Blwyddyn 12 y cwrs uchod ym Mhrifysgol Bangor. Rhannwyd disgyblion o bob ysgol yn dimau cymysg gyda disgyblion o ysgolion eraill. Yr her oedd

adeiladu a gweithredu model o lifft gyda modur rheoledig. Roedd Jack Payton (12.2) yn aelod o'r tîm ddaeth yn drydydd, ac roedd Mari Slater-Parry yn aelod o'r tîm buddugol.

Prif ddisgyblion



Gethin Phillips, Lowri Jones (Prif ddisgyblion).
Siôn Emyr a Lois Angharad (Dirprwy brif ddisgyblion).



Pwy sy'n cario'r faner yma?
(Ateb ar y dudalen ôl)



Harddwch eich cartref gyda

**FFENESTRI
CELTIC** WINDOWS

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch – 'dio'n costio dim i gael pris

HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG



(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)



Diwrnod Masnach Deg



Greta ac Enlli gyda'u baner.

Yn ddiweddar, cynhaliodd dinas Bangor ddiwrnod yn hyrwyddo Masnach Deg. Trefnwyd llu o weithgareddau a chafwyd stondinau di-ri dros y ddinas yn gwerthu cynnyrch o bob math. Uchafbwynt y

diwrnod oedd gorymdaith fawr trwy ganol y ddinas. Cymerodd nifer o ddisgyblion yr ysgol ran yn y diwrnod, a bu i griw o ddisgyblion Blwyddyn 11 lunio baner liwgar i goffáu'r diwrnod.

Sychlanhau • Altro

Ailwnio

Gwasanaeth

Casglu a Danfon

54 Stryd Fawr
Llanberis

Ffôn: 870088

GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO

SWIGOD A SEBON



GWASANAETH GOFAL CARTREF
Caredig cyf

GOFALU AM EIN CYMUNEDAU

- ASESU MEWNOL A CHYNLLUN GOFAL
- GOFAL PERSONOL-BATHIO
- CYMORTH I GODI A MYND I'R GWELU
- EISTEDD YN YSTOD Y DYDD A GYDA'R NOS
- GLANHAU • SIOPA • COGINIO • OWTIN
- CEFNOGI POBL
- CYSYLLTU A GWASANAETHAU ARBENIGOL

A ydych yn hoffi gweithio a phobl neu ffansi gyrfa newydd?

Mae Caredig Cyf yn awyddus i gyflogi pobl lleol i weithio gyda'n cwmni. Mae hyfforddiant a chefnogaeth trwyadl ar gael. Rydym yn recriwtio yn gyson fel mae'r cwmni yn ehangu ac angen gweithwyr i weithio unai rhan amser, amser llawn neu gyda'r nos. Am fanylion pellach cysylltwch a-

Iola neu Ellis Wyn Jones ar-

Bangor 01248 672622 • Llund i Gwener • Oriau'r Swyddfa 9-5pm.

UNED F3 • INTEC • Ffordd y Parc • Parc Menai • Gwynedd LL57 4FG
FFON-01248 672622 • FFACS- 01248 672601
EBOST- post@caredig.com



Ar Ben Arall y Lein

Diwedd glo arbennig i'r tymor, efallai y buasai'n well ei alw'n dymor y pysgod mawr. Y mis diwethaf fe welwyd llun Dr Robin Parry, Llanberis, gyda eog 15 pwys o Lyn Engan, ond y mis yma rhaid mynd un yn well gan fod Dafydd Spencer o Landudno wedi cael un am dros 17 pwys o Lyn Doctor, Llanrug. Y 'sgodyn enfawr yma eto wedi dod i bluen maint 8. Mae'n rhaid fod rhywbeth yn y gair doctor 'ma! Felly mae tarian W. J. Williams, sy'n cael ei dal am flwyddyn i ddeilydd yr eog trymaf, wedi ei chipio ar y funud olaf o ddwylo Robin a bydd yn mynd am dymor allan o'r fro i lawr yr A55.

Un arall oedd yn meddwl bod ganddo obaith am y darian oedd Gwynfor Jones, Bethel, pan fachodd o 'sgodyn da ar ddŵr mawr yn y pwll dan Bont Crawia. Ar ôl brwydr galed ychydig dros 12 pwys a ddaeth dros y dorlan. Efallai y flwyddyn nesaf, Jôs.

Eogiad eraill y cefais wybodaeth amdanynt oedd rhai Islwyn Humphreys, Llanrug; Stephen Carr, Bontnewydd; Wyn Parry, Dafydd Davies, Carl Hasson, Hefin Huws ac Ifan Humphreys, i gyd o Gaernarfon; Clifford Thomas, Felinheli a Dr. Robin Parry gyda eogiaid rhwng 5 ac 8 pwys. Yn y maes pysgod mawr daeth dau arall, sef un am 13 pwys o Lyn Engan i Malcolm Owen, Caernarfon, ac un 15 pwys o Lyn Tywod i Stephen Lloyd, Groeslon.

Eleni mae dal wedi bod ar y Gwyrfaï hefyd. Mae Hefin

Huws, Caernarfon, wedi rhoi'r wybodaeth ei fod wedi cael dau eog, un am 8 bwys o Lyn Llam Dda a un am 6 pwys o Lyn Gwaith Dŵr. Clywais hefyd si bod nifer fawr o eogiaid a sewin wedi eu gweld yn cymryd yn Pistyll Pandy, Bontnewydd. Mae hyn yn newyddion ardderchog gan fod y Gwyrfaï wedi bod, ers blyneddau, yn cael ei cham-drin yn ofnadwy drwy dynnu dŵr o Lyn Cwellyn. Erbyn hyn mae rheolaeth wedi cael ei dynhau a, diolch i'r drefn, mae pethau'n troi am y gorau. Mae rhagor o waith ar y gweill gydag addasiadau i'r llwybr pysgod ar argae Llyn Cwellyn, hefyd y stepiau sy'n arwain i Lyn gwaith Dŵr, Betws Garmon, sydd am gael ei droi yn ôl i'w drefn naturiol.

Mae siŵr eich bod wedi syrffedu arna i dros y pedair blynedd diwethaf yn trin helyntion ein cynllun i addasu Melin y Cim, Ponllyfni. Ond, rwy'n gwir obeithio fod y saga yma ar ddod i ben ac y bydd yn bosib gosod y lle i ymwelwyr erbyn y Nadolig. Pan ddaw hyn i rym yna fe fydd yn bosib egluro beth sydd wedi mynd o'i le, ond tan hynny...!

Ar ôl cyfarfod gyda swyddogion Asiantaeth yr Amgylchedd yn y Caban, Brynrefail, yn ddiweddar, mae wedi bod yn bosib sefydlu trefn mwy dibynadwy ar gynllun stocio i'r Seiont. Mae hyn yn golygu os bydd hi'n bosib dangos dros y gaeaf bod eogiad yn gallu cael eu deori a'u magu yn neorfa Crawia, yna bydd yn bosib symud ymlaen gyda

chynllun sylweddol o stocio yn y ddwy flynedd nesaf. Rwy'n gobeithio y bydd yn bosib cael cymorth ariannol o wahanol fynonellau i wireddu'r cynllun yma. Efallai bod rhai o ysgolion y fro â diddordeb mewn cymryd rhan. Buasai o ddiddordeb mawr, rwy'n siŵr, i'r disgyblion fod â rhan mewn cynllun o'r fath. Cawn weld be ddaw.

Mae materion y Pwyllgor

Blyneddol yn cael eu paratoi, ac un peth gwerth ei glywed yw fod y Cyfarwyddwyr am gynnig i'r Pwyllgor na fydd cynnydd i fod yn y tâl aelodaeth am 2009! Hefyd bydd yn bosib i unrhyw un ymaelodi am y tro cyntaf am y pris disgownt, ond byddai'n rhaid i'r arian ddod i law cyn laf o Fawrth 2009.

Hwyl am y tro.

HUW PRICE HUGHES



D. Spencer, Llandudno – eog 17 pwys.

Atgofion Hen Sgotwr

Wrth eistedd ger tanllwyth o dân mae'r atgofion yn llifo yn ôl am y dyddiau a gawn ar ddyfroedd nad oeddwn yn eu sgota'n rheolaidd. Dyddiau oedd rhain pryd y byddem yn mynd fel trip neu weithiau ar fy liwt fy hunan. Pob un yn dod ac atgof yn ôl.

Un afon yr byddwn yn hoff iawn o'i sgota yn y chwe degau cynnar oedd o Gwm Dyli i lawr at Lyn Gwynant. Cael caniatad y Gwastadannas, a'r tâl oedd ambell frithyll melyn tew. Yn fan hyn y gwelais ddyfregi yn dysgu ei chnafon sut i ddal pysgod. Golygfa fendigedig na welais erioed wedyn, biti nad oedd y camera gennyf.

Faint ohonoch tybed sy'n cofio cystadleuaeth ar lynnoedd Mymbyr i ddathlu bod Carlo yn cael ei arwisgo yng Nghastell Caernarfon. Do fe gawsom ddiwrnod bendigedig ar y llynnoedd, ond ychydig iawn o bysgod a fachwyd. Ond fe gafwyd pryd o fwyd gwerth ei gael yn Pen y Gwryd, a dyna yw'r atgof mwyaf sydd gennyf am y diwrnod hwnnw.

Cystadleuaeth arall y byddai criw da yn ei mynychu bob mis Mai yn y chwe degau oedd ar Lyn Nantlle. Roedd y gystadleuaeth yma i helpu i godi arian i gael cae chwarae i blant Nantlle. Roedd hefyd yn gyfle i ni i gyd gael diwrnod hwyliog o bysgoda gyda'n gilydd. Ac wedyn i Festri Capel Baladeulyn am de oedd yn werth ei gael. Pawb yn cael amser hwyliog braf a neb yn poeni am ennill.

Yr amser yma hefyd roedd y Gymdeithas Bysgota yn cynnal

tripiau i Lyn Trawsfynydd, wedi i'r llyn hwnnw agor. Ychydig iawn ohonom oedd ag unrhyw brofiad o Firthyll yr Enfys, i mi roeddynt yn bysgod newydd ond, fel pawb arall, buan iawn y dysgais sut i'w bachu. Mae gennyf gof da o gyrraedd Traws un tro a hithau'n bwrw eirlaw. Roedd yn aruthrol o oer, ond roedd dŵr y llyn yn boeth a'r pysgod yn bachu.

Yr arferiad yn Nhrawsfynydd oedd cael hanner y diwrnod mewn cwch a'r gweddill ar y lan, ac mae'n rhaid cyfaddef bod y gost yn ddigon rhesymol. Mae angen diolch hefyd i Huw Dil am gael lifft mor amal i Traws.

Roeddwn hefyd, yn yr wyth degau, yn cael mynd i Lyn Alaw, lle y cefais lwyddaint yn weddol amal.

Mi fûm i, ar un adeg, yn aelod o'r criw a oedd yn pysgota Glangwna yng nghanol y chwe degau. Oedd, roedd y rhan hwn o Afon Seiont yn hollol breifat yr amser hynny a'r eogiaid yn dod i'r pyllau tua canol Mai. Roedd yn bosib pysgota'r eog drwy eu tymor, hyd 17 Hydref, ond ychydig iawn o eogiaid oedd yn y rhan hwn o'r afon erbyn mis Hydref.

Cost trwydded eog oedd 17/6, neu 0.87c yn arian heddiw. Cost aelodaeth yn Glangwna oedd 25 punt, ac wrth gymharu â chyflogau heddiw roedd eu gwerth yn agos iawn i 200 punt.

Ond, erbyn heddiw, fe gawn bysgoda yr oll o Afon Seiont am lai na'r pris yna, diolch i'r Gymdeithas.

R. ELWYN GRIFFITH



Gwynfor Jones, Bethel, eog 12 pwys.

Cyngor Cymuned Llanrug

Dyma grynodeb o gofnodion cyfarfod mis Medi a gynhaliwyd yn Y Sefydliad Coffa, Llanrug:

Cadarnhawyd y cofnodion blaenorol yn gywir a llongyfarchwyd NH ar ddod yn Nain yn ddiweddar.

Sgwrs gyda Mr Hywel Williams AS: Croesawodd y Cadeirydd Mr Williams (HW) i'r cyfarfod. Dechreuodd HW drwy egluro mai'r tri prif bwnc yr oedd yn eu trafod ar hyn o bryd gyda'r cyhoedd oedd:

- Cau swyddfeydd post lleol;
- Cymorthfeydd;
- Trosglwyddo stoc tai cyngor.

Dywedodd fod cynlluniau i gau 11 swyddfa post yn ei etholaeth – y swm mwyaf oddi fewn i etholaethau gogledd Cymru – ond bod y Post Brenhinol yn barod i wrando ar y cyhoedd, ac efallai na fydd pob un yn cael eu cau. Dywedodd fod y Post Brenhinol yn ystyried lleoliad y swyddfeydd unigol, natur y boblogaeth a'r budd ariannol i'r Post am gau y swyddfeydd pan yn gwneud eu penderfyniad terfynol. Aeth ymlaen i egluro am y fan Post symudol – sydd i'w gweld ar wahanol adegau ym Mhant Glas, Llithfaen ac Efailnewydd. Ategodd BJ ei dristwch fod y post yng Nghwm y Glo yn cau, ac felly y siop o ganlyniad.

Yn ystod y drafodaeth am gymhorthfeydd, dywedodd HW pryd y bydd yn cynnal cyfarfodydd am hyn ac am ei ddymuniad i gael llawer yno i wrando. Dywedodd fod y cyfarfodydd hyn wedi bod yn llwyddiannus yn y gorffennol, gyda 35 o bobl yn mynychu'r cyfarfod diwethaf.

Soniodd yn fyr am y stoc tai cyngor, gan ddweud efallai na fyddent yn cael eu gwerthu yn y dyfodol gan fod pwyslais ar hyn mewn ambell ardal.

Gofynnodd HW a oedd gan y cynghorwyr gwestiynau a chodwyd yr achos o Ddŵr Cymru yn rhoddi £25 i'r tai a effeithwyd gan ddŵr llygredig. Credent nad oedd hyn yn swm digonol o ystyried yr amser hir y cafodd pawb eu heffeithio. Dywedodd HW y byddai yn ysgrifennu at Dŵr Cymru gan ddweud nad oedd £25 yn ddigonol.

Gofynnwyd a oedd gan Gyngor Gwynedd gynlluniau i brynu tai sydd yn methu cael eu gwerthu – dywedodd HW nad oes arian ar gael ar hyn o bryd i wneud hyn. Ategodd am ei fwriad i ysgrifennu at weinidogion tai San Steffan a'r Cynulliad i holi beth sydd am

ddigwydd gyda'r mater yma. Diolchodd y Cadeirydd iddo am fynychu a gadawodd y cyfarfod.

Sgwrs gyda Mr Dafydd Einion Jones – Swyddog Adfywio Bro: Croesawodd y Cadeirydd DEJ i'r cyfarfod a dechreuodd drwy sôn am y £5,000 o arian Cist Gwynedd sydd ar gael i Gynghorau Cymuned i hyrwyddo prosiectau cymunedol yng Ngwynedd a fydd yn gwella edrychiad ac ansawdd cyfleusterau cyhoeddus. Nid oes swm sylweddol ar gael yn y potyn hwn o arian felly y cyntaf i'r felin a gaiff yr arian. Soniwyd am lwybr yn yr ardal sydd angen ei wella ond nad yw yn eiddo i'r Cyngor Cymuned. Gofynnwyd a oedd yn rhaid i'r Cyngor Cymuned fod berchen y tir er mwyn cael yr arian, a dywedodd DEJ nad oedd yn sicr ond y byddai yn ymchwilio i hyn.

Aethpwyd ymlaen i drafod gwelliannau i barc Cwm y Glo. Dywedodd DEJ fod y ffynonellau arian sydd ar gael i ariannu'r prosiect yn eithaf cyfyng. Dywedodd fod arian ar gael gan Ewrop neu y Cynulliad. Meddylodd y byddai gan 'Gyfeillion y Cwm' well siawns na'r cyngor cymuned i gael yr arian yma. Soniodd am yr 'ALF', sef cronfa i gymunedau a ddioddefodd drwy gloddio. Gofynnwyd a fyddai problem i drosglwyddo'r arian rhwng y cyngor a'r gymdeithas ac atebodd DEJ nad oedd yn siŵr ond ei fod yn ymwybodol o ardaloedd eraill a oedd wedi gwneud hyn, ac y byddai yn adrodd yn ôl atom am hyn.

Daeth DEJ â'r drafodaeth i ben drwy ddweud mai'r cam pwysicaf ar hyn o bryd yw darganfod costau'r prosiect er mwyn penderfynu ar ble i ofyn am yr arian.

Dywedodd mai cronfeydd fel Arian i Bawb neu'r loteri a fyddai orau i gael symiau bychan o arian, e.e., offer newydd i gae chwarae Glanmoelyn. Soniodd hefyd am gronfa sydd ar gael gan Heddlu Gogledd Cymru i ariannu prosiectau sy'n dod â phobl ifanc i mewn i'r gwaith. Diolchodd y Cadeirydd iddo am ddod i'r cyfarfod ac ymadawodd.

Adborth gan y pensaer am y prosiect i Ddatblygu Cae Chwarae Cwm y Glo: Derbyniwyd ymddiheuriad ar ran y pensaer gan nad oedd yn gallu dod i'r cyfarfod hwn ond y gobeithiai roddi mwy o

wybodaeth i'r cyngor yn y cyfarfod nesaf.

Cynllunio: Cafwyd cadarnhad fod Pwyllgor Cynllunio Arfon wedi caniatáu y ceisiadau canlynol:

- Newidiadau ac estyniad i annedd presennol i greu tŷ deulawr ac ystafell haul unllawr ar ei flaen: Y Dalar Deg, Ffordd yr Orsaf, Llanrug.
- Gwaith i goed a warchodir gan orchymyn diogelu coed: Parc gwyliau Bryn Teg.

Cafwyd hefyd gadarnhad fod y cais canlynol wedi ei wrthod:

- Codi 8 tŷ fforddiadwy: tir dros ffordd i garej Hafod, Llanrug.

Daeth y cais newydd canlynol gerbron y Cyngor Cymuned:

- Ail adeiladu lein: Rhos Ddu, Ffordd yr Orsaf. Dim gwrthwynebiad iddo.

Heddlu: Dywedwyd fod yr heddlu wedi gyrru ebost i'r clerc yn ein hysbysu fod y ffens ym mharc Glanmoelyn wedi ei dymchwel ger y fynedfa. Credwyd fod hyn yn fater brys o ddiogelwch y plant a phenderfynwyd trefnu cyfarfod brys ar y safle yfory i drafod gwelliannau a fyddai yn rhaid eu gwneud.

Gwerthiant Pwll Moelyn: Awgrymwyd ein bod yn cau dau hen gyfrif Pwll Moelyn ac yn agor un cyfrif newydd i ariannu gwelliannau i Glanmoelyn. Bydd arian y ddau werthiant yn cael eu bancio yma.

Cwynion/Pryderon:

a) Trafodwyd diffyg biniau brown yn rhannau o Llanrug. Penderfynwyd ysgrifennu llythyr ar ran trigolion Rhes Rhuddallt a Tan y Coed yn gofyn am finiau brown.

b) Dywedwyd fod draen gyferbyn â Dolwar, Rhes Rhuddallt, ger y blwch postio, yn gorlenwi pob tro y byddai'n glawio ac, o ganlyniad, yn drewi.

Penderfynwyd ysgrifennu i gwyno am hyn ac am yr un broblem sydd i'w gweld ar gongl Lôn Glanffynnon a Glanmoelyn.

c) Dywedwyd mai dim ond un bin sydd i'w gael ym mharc chwarae Nant y Glyn ac ei fod pob amser yn orlawn. Trafodwyd y diffyg biniau ym mhentref Llanrug yn gyffredinol a holodd y Cynghorwyr a fyddai modd cael rhywun o'r adran finiau i ddod atynt i drafod y sefyllfa. Addawodd y clerc geisio trefnu cyfarfod gyda'r swyddogion perthnasol.

ch) Trafodwyd y torriad yng ngwasanaeth bwsiau Arriva. Bellach, dim ond peth cyntaf yn y bore ac ar ddiwedd y dydd

yr oedd yn bosibl dal bws i'r ysbyty. O ganlyniad, yr oedd pobl yn gorfod talu ddwywaith i fynd i'r ysbyty – talu am drip i Gaernarfon ac yna am drip i Fangor. Penderfynwyd ysgrifennu llythyr i'r adran drafnidiaeth am hyn.

d) Trafodwyd cais i adeiladu tŷ yng Nghrawia a dywedwyd ei fod y tu allan i'r ffiniau datblygu. Yr oedd y perchennog wedi ysgrifennu llythyr i'r cyngor yn ceisio caniatad o dan amod yn adran 106, sef nad oedd yn gallu parcio cerbydau sydd yn angenrheidiol i'w waith y tu allan i'w dŷ presennol. Ond, dywedwyd fod yn rhaid i'r cyngor fod yn gyson yn eu penderfyniadau ac felly penderfynwyd gwrthwynebu'r cais am ei fod y tu allan i'r ffiniau datblygu.

Trafodwyd cais i adeiladu tŷ y tu ôl i Disgwylfa Terrace. Eto, dywedwyd ei fod y tu allan i'r ffiniau datblygu. Penderfynwyd **gwrthwynebu** am ei fod yn groes i bolisi B12 Cyngor Gwynedd – pwynt B atodiad 5 'Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol Tai Fforddiadwy', Mai 2005, sydd yn dweud bod '*rhaid cyflwyno pob cais am ddatblygu ar safle eithrio gwledig fel ceisiadau cynllunio manwl ac nid rhai amlinellol*'.

e) Trafodwyd Mur Moch a dywedwyd fod y tŷ yn dal i fod yno ac nad yw wedi ei ddymchwel er y gorfodaeth i wneud hyn.

Gohebiaeth: Ymhlith yr ohebiaeth a dderbyniwyd gan Gyngor Gwynedd oedd y canlynol:

- Rhybudd o ddiwygiadau arfaethedig i'r cynllun datblygu unedol.

Ymhlith y gohebiaeth arall a dderbyniwyd oedd y canlynol:

- 7 llythyr yn gwrthwynebu cais i godi tŷ ar dir ger Disgwylfa Terrace, Llanrug.

- Sefydliad Prydeinig y Galon – Gwahoddiad i fynychu cyfarfod yn lansio 'Apêl Caru Calonnau Gwynedd a Môn'.

- Cais gan Undeb Amaethwyr Cymru i gefnogi eu cais i roi pwysau ar y Prif Uwch Arolygydd, Geraint Anwyl, i ail sefydlu'r swydd o Swyddog Cyswllt Cefn Gwlad.

Penderfynwyd eu cefnogi ac anfon copi o'r llythyr i'r undeb. Adroddiad Blynyddol Gofal a Thrawsio 2007–08.

Materion Brys: Dywedwyd fod polyn arwydd llwybr Ogwen wedi disgyn i'r afon a bod arwydd stad Minffordd wedi disgyn. Dywedwyd hefyd fod cyflwr arwyddion stadau tai Crawia yn drychinebus. Dywedodd y clerc y byddai'n hysbysu'r cyngor sir am hyn.

CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN

Dymuna'r Cyngor longyfarch pawb o'r ardal a fu'n llwyddiannus yn yr Eisteddfod Genedlaethol, yn arbennig Lindsey Vaughan Fleming ac Elfed Morris, ac ymddiheurwn na chyfeiriwyd at hyn yn adroddiad Medi.

Llongyfarchiadau hefyd i Lindsey ar ei llwyddiant ysgubol yn Eisteddfod Powys ar y 18ed o Dachwedd.

Cyfarfu'r Cyngor ar y 14eg o Hydef.

Cydymdeimlo. Cyfeiriodd y Cadeirydd at brofedigaeth Merfyn Morris o golli chwaer, ac amlygodd gydymdeimlad yr aelodau â'r teulu. Mae'r ardal gyfan yn cydnabod y bwch o golli chwaer mor ifanc, ac yn arbennig y golled i'w phlant a'i phriod.

Gweddi. Arweiniwyd mewn gweddi gan Richard Ll.Jones.

Materion o'r cofnodion

Cyfeiriodd Mrs Larsen at y ceir sydd yn dal i barcio wrth ochr y ffordd ger Bryn Tirion, Penisa'rwaun. Penderfynwyd atgoffa Gwynedd o'n cwyn flaenorol.

Meinciau'r Mileniwm

Trafodwyd y ffaith bod rhai meinciau wedi eu fandaleiddio'n rhy ddrwg i'w hatgyweirio ac un wedi ei dwyn. Penderfynwyd eu hadnewyddu *un waith yn unig* a derbyniwyd pris Menter Fachwen am ei chyflenwi. Derbyniwyd hefyd bris Menter Fachwen am lanhau a farnisio'r gweddill. Awgrymodd Elspeth Mitcheson gyhoeddi hyn yr *Eco'r Wyddfa* a *Llais Ogwan*.

Mainc Pensarn, Penisa'rwaun. Dywedodd y Clerc ei bod mewn cyflwr peryglus. Penderfynwyd rhoi archeb i Menter Fachwen fynd â hi oddi yno a chael prisiau am fainc gyffredin dur/haearn newydd yn ei lle.

Plismon amaeth. Cyflwynwyd llythyr Undeb Amaethwyr Cymru yn gofyn am gefnogaeth y Cyngor i gael y Cwnstabl Dorian Jones yn ôl, oherwydd ei brofiad helaeth. Dywedodd y Clerc ei fod wedi anfon cefnogaeth yn seiliedig ar lythyr blaenorol y Cyngor i'r Prif Gwnstabl.

Insiwleiddio tai. Derbyniwyd ateb Gwynedd mai cwmni o Fethesda, Hillserve, sy'n gwneud y gwaith yn y Sir ac yn cyflogi gweithwyr lleol.

Capel Ebenezer, Deiniolen. Dywedodd y Clerc ei fod wedi derbyn cwyn nad yw'n bosibl bellach i dynnu'r *barrier* sydd o flaen gât festri Ebenezer, Deiniolen, a'i fod wedi anfon y gwyn ymlaen i'r Adran Prifffyrdd.

Siediau. 1 Teras California a 5 Brynteg, Clwt y Bont – ateb Gwynedd nad oedd angen

caniatad cynllunio i'r rhain.

Dŵr Cymru. Eu hateb yn manylu ar y cyfnod o ferwi dŵr ac eglurhad nad oes modd defnyddio dŵr o Gwellyn pan fo rhywbeth o'i le ym Mynydd Llandygai, na fel arall.

Seion. Cadarnhâd Gwynedd y gosodir arwyddion 30m.y.a. yno. Dywedwyd mai am 20 m.y.a. oedd cais y Cyngor – llythyr i Wynedd.

Cist Gwynedd. Darllenwyd ateb Mr Dafydd Einion Jones yn dweud mai'r 'cyntaf i'r felin gaiff falu', a bod llawer o ofyn am y cyllid sydd ar ôl. Penderfynwyd trefnu i'r Grŵp gyfarfod ag ef pan fydd yn gyfleus er mwyn ffurfio cais cyn gynted a bo modd.

Gordyfiant. Ardaloedd Dinorwig a Rhiwlas, – addewid Gwynedd y bydd yr arolygwr ffyrdd yn edrych ar y sefyllfa yn fuan. Ychwanegwyd bod coed yn tyfu i'r ffordd ger Llys Iolen, Pont Rhythallt – llythyr i Wynedd.

Rhoddion i fudiadau. Cais am gymorth oddi wrth Gronfa R. H. Owen, Llanberis. Ni fuasai'n bosibl cyfrannu am nad oedd mantolen gyda'r cais ond penderfynwyd gofyn, erbyn y flwyddyn nesaf, beth yw cyfansoddiad y mudiad ac a oes ganddynt gronfa wedi ei buddsoddi.

Penderfynwyd cefnogi'r ceisiadau a oedd hefyd ar restr y llynedd gyda'r un swm:

Merched y Wawr, Deiniolen: trafodwyd y cais yma gan ei fod yn fudiad cenedlaethol, ond ychwanegodd Len Jones bod gwir angen cymorth arnynt ar hyn o bryd. Yr un modd trafodwyd cais Rhieni Athrawon, Bethel – Penderfynwyd cyfrannu am eleni yn unig. Penderfynwyd cynnwys y pedwar cais arall. (dangosir â * ar y rhestr)

Rhoddion 2008/09

Pwyllgor Neuadd Penisa'rwaun	200
Neuadd Bentref Rhiwlas	200
Neuadd Goffa Bethel	200
Llais Ogwan	50
Eco'r Wyddfa	200
Eisteddfod, Bethel	250
Eisteddfod Bentref Penisa'rwaun	250
Eisteddfod, Deiniolen	250
Seindorf, Deiniolen	200
Clwb Orwig, Dinorwig	100
Clwb Bro Bethel	100
Clwb Snwcer, Deiniolen	100
Clwb Snwcer Bethel	100
Clwb Pêl Droed Ieuencid Deiniolen	* 100
Clwb Pêl Droed Rhiwlas	100
Clwb Pêl Droed, Bethel	* 100
Ysgol Feithrin, Deiniolen	* 100
Rhieni ac Athrawon, Bethel	* 100
Cymdeithas Lenyddol Bethel	100
Merched y Wawr, Deiniolen	100
Clwb Plant, Bethel dim mantolen	
Clwb Rhiwen, Rhiwlas	100
Cynllun E.F.E.	500

Arolwg anghenion tai lleol

Cyflwynwyd ateb Gwynedd a'u pris diwygiedig o £1,000 yn lle'r £2,300 blaenorol, am anfon a derbyn yr holiaduron. Penderfynwyd derbyn hyn gyda'r amod mai'r cwestiwn cyntaf ar yr holiadur fydd: *'A fydd rhywun o'ch teulu neu eich teulu estynedig yn debygol o fod â'r adnodd i brynu tŷ maes o law?'*

Afon Goch, Deiniolen

Dihangodd yr un ferch ifanc oddi yno eto rai wythnosau yn ôl a bu ymgyrch anferth gan yr heddlu i chwilio amdani. Nid oes dim a ellir eu wneud i gael 'madael a'r sefydliad.

Dywedodd Len Jones bod Hywel Williams AS yn cymryd camau i geisio newid y ddeddf sy'n caniatáu y math yma o 'Gartref'.

Gohebiaethau eraill

Tŷ Mawr Cottages. Ateb Gwynedd nad oes ceir wedi eu claddu yno. Penderfynwyd cysylltu ag Adran yr Amgylchedd.

Cysgodfan bws, Bethel. Llythyr oddi wrth Gwynedd, ar ran aelod o'r cyhoedd, yn dweud bod cysgodfan wedi ei malurio. Dywedodd y Clerc nad oes rhannau'n rhydd nac yn beryglus yno.

Cyflwynwyd sylwadau Phyllis Ellis – angen arwyddion 'dim loriau mawrion' yn Waun a Tan Gaer, fel sydd ar ben arall y ffordd yn Ynys Iago. Hefyd ar ddau ben ffordd Cae Hywel.

Angen atgoffa CADW o'r angen i **warchod pileri llechi.** Ychwanegodd Mrs Larsen bod angen arwyddion 'dim loriau mawrion' hefyd ar Ffordd Ynys Iago/ Carfan.

Dywedodd Aled Green bod angen arwyddion 'dim baw cwn' yng nghae chwarae Penisa'rwaun. Ychwanegodd Huw P. Hughes y dylid rhoi arwydd felly ar bob cae chwarae – llythyr i Alun Wyn Jones.

Ail bwynt Aled Green oedd bod ceir yn parcio o flaen drws ffyrnt **Siop Gron** ers i'r adeilad gael ei wneud yn annedd, gallai hyn amharu ar wasanaeth brys fel tân neu ambiwlans – llythyr i Wynedd.

Cyfeiriodd Gwilym Williams at gyflwr difrifol wyneb ffordd **Caledffrwd Teras** a chyfeiriodd Hefin Williams at gyflwr tebyg **strydoedd uchaf Rhiwlas** – llythyr i Wynedd.

Dywedodd Elspeth Mitcheson bod **sbwriel yn cael ei adael** ger y man ailgylchu yn Lôn Bach Awyr – cwyn i Wynedd.

Cyflwynodd Pat Jones adroddiad yn cynnwys map a lluniau o gyflwr **Afon Seiont**, (HPH yn datgan buddiant). Mae gorlif yn effeithio ar dai yn Pen Llyn a Chwm y Glo am nad yw gwely'r afon yn cael ei lanhau o Bont Rhythallt i fyny heibio i Graig Dinas – llythyr i'r Bwrdd Afonydd, Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyngor Gwynedd. Hefyd bod

carthffosiaeth yn dal i orlifo i'r ffordd ger Trem Eilian – adroddiad eto i Dŵr Cymru.

Tŷ Mawr Cottages. Cafwyd gwybod o ddwy ffynhonnell wahanol bod ceir wedi eu claddu yn yr ardd. Danfonwyd y gwyn i Adran Cynllunio Gwynedd a chafwyd ateb, yn eu tyb hwy, nad oedd ceir wedi eu claddu yno. Penderfynwyd cysylltu ag Asiantaeth yr Amgylchedd.

Cyfeiriodd Phylip Jones at ffos sy'n parhau ar agor wrth ochr **ffordd Cefn y Waun.** Llythyr eto i Wynedd i ofyn iddynt gwblhau'r gwaith.

Mater pwysig arall a gyflwynwyd gan Pat Jones oedd yr angen am **groesfan ddiogel o Trem Eilian i bentref Brynrefail.** Danfon cais i Wynedd gan nodi bod ciwiau yno'n disgwyl croesi yn aml. Ychwanegodd Aled Green bod yr A4244 wedi ei huwchraddio i 'ddobarth un' a'i chyfyngu i 50 m.y.a. (dywedodd hefyd bod siŵr o fod mwy o angen croesfan yma nag i'r bwyty Indiaidd yn Llanwnda !!)

Cynllunio

Ceisiadau a ganiatawyd gan Wynedd:

Llain o dir ger Weirglodd Goch, Penisa'rwaun: adeiladu tŷ a mynedfa.

Buarth Newydd, Fachwen: estyniad deulawr.

Drws y Gwynt, Clwt y Bont: codi sied ardd.

1, Tai Preswylfa, Clwt y Bont: estyniad unllawr yn y cefn.

Swyn Eryri, Bethel: estyniad ochr.

Inglenook, Rhiwlas: dymchwel tŷ a chodi un newydd.

Pendyffryn, Dinorwig: dymchwel tŷ a chodi un newydd.

8, Stryd Newydd, Deiniolen: estyniad a mordurdy yn y cefn.

Llwybrau

Ateb Gwynedd:

(a) Bod y tyfiant ar lwybr 42 Ficerdy, Deiniolen, wedi ei dorri ac nad oes angen gât ar ben isa'r llwybr.

(b) Torrir y gordyfiant ar lwybr 113, Bryn Pistill i Seion yn ystod y misoedd nesaf

Nid oedd ateb ynglŷn â llwybr 74 Carreg y Gath, Rhiwlas – atgoffa Gwynedd.

Materion ychwanegol

Goleuadau cyhoeddus.

Cyfeiriodd Len Jones at syniad rhai Siroedd i ddiffodd goleuadau er mwyn arbed cost. Mae'n debyg bod Gwynedd yn bwriadu gostwng gradd eu goleuadau. Penderfynwyd gwrthwynebu hyn yn bendant o ran diogelwch a sicrwydd eiddo – llythyr i Wynedd.

Cynhadledd Un Llais Cymru

Gwnaeth Richard Llwyd Jones grynoded o drafodaethau'r gynhadledd a chyflwynodd ei adroddiad cyfan i'w gynnwys yn y cofnodion.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 4ydd o Dachwedd.

O'r Cyngor

Dyma ni unwaith eto wedi dechrau ar bedair blynedd yn hanes y Cyngor. Rwy'n gwerthfawrogi'n fawr bod yr ardal wedi ymddiried ynof i'ch cynrychioli unwaith eto dros y cyfnod yma. Mae yn wir bleser cael cario'r gwaith ymlaen a'r rheswm pennaf am hyn, wrth gwrs, yw ein bod i gyd yn y fro wedi gallu gweithio fel tîm. Mewn sefyllfa fel hyn mae'r gwaith yn bleserus dros ben.

Drwy gydweithio gyda'n gilydd mae wedi bod yn bosib gweld gwaith wedi ei gario allan o fewn yr etholaeth sy'n gwneud yr ardal yn fwy pleserus i fyw ynddi. Ceisaf islaw gyflwyno gwybodaeth ar y gwaith y bu'n bosib ei gyflawni o fy adroddiad flwyddyn yn ôl, a hefyd, wrth gwrs, be rwy'n wir obeithio fydd yn cael ei wneud yn y flwyddyn i ddod, yn ogystal â be sydd i'w gysidro dros y tymor hir.

Afon Cadnant, Penrhos

Yn dilyn cyfarfod gyda Asiantaeth yr Amgylchedd yn ystod Rhagfyr 2006, mae gwaith wedi ei wneud i symud rhwystrau i lif yr afon, sef glanhau y glannau o or-dyfiant a symud graean oedd o dan y bont isaf. Ar ôl cwblhau y gwaith yma rwy'n disgwyl gwybodaeth mwy pendant ar sut mae trafodaethau yn datblygu ar y posibilrwydd o ehangu gorlifdir y Cadnant. Efallai mai'r ffordd ymlaen fydd trefnu i swyddogion yr Asiantaeth ddod i arddangos eu cynlluniau yn y pentref.

Ardal Saron

Mae gwaith i leihau'r problemau dŵr wyneb wedi gweld symudiad, a chynllun yn awr wedi ei gwblhau fydd yn gweld agor ffosydd i amgylchynu'r rhan uchaf o'r pentref. Bydd y dŵr wyneb wedyn yn rhedeg drwy'r pibellau i Afon Cadnant, rhwng Tre'r Gof a Rhos Chwilog. Mae cais wedi ei wneud i'r Cynulliad Cenedlaethol am arain i gyflawni'r gwaith yma. Faint fydd yn rhaid disgwyl am ateb – mae'n amhosib dweud – i'r rhannau o'r pentref sy'n dioddef yn enfawr drwy gael carthffos yn gorlifo ac yn amharu ar eu heiddo, mae pwysau yn cael ei roi i gael ateb buan. Er, efallai nad yw Caerdydd yn teimlo'r pwysigrwydd fel pobl yr ardal hon.

Enghraifft ddiweddar oedd yn ystod dechrau Gorffennaf pryd yr roedd dŵr wyneb unwaith eto wedi achosi i'r system garthffos orlifo drwy erddi a ffyrdd yn ardal Tan y Buarth. Yn ogystal, roedd tanciau cadw carthffos yn y

caeau tu cefn i ffordd Tre'r Gof wedi arllwys eu cynnwys dros y caeau. Bydd cwmni Daniels, ar ran Dŵr Cymru, yn brysur iawn yn di-heintio o amgylch y lle.

Byddaf mewn difri yn cwestiynu be sy'n mynd ymlaen: dyma'r caeau agosaf i'r llecyn tir y bu cais i adeiladu tai arno yn ddiweddar, ac er bod y cais yma wedi ei ohirio hyd nes bydd y gwaith wedi ei wneud i dynnu'r pwysau dŵr wyneb o'r system, nid yw hyn at fodd yr ymgeisyddion ac maent wedi apelio i'r Cynulliad yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor Cynllunio. Rwyf wedi anfon sylwadau a hefyd DVD a lluniau eraill o broblemau'r ardal at sylw'r arolygydd. Cawn weld be fydd ei benderfyniad.

Drwy gysidro difrifoldeb y sefyllfa gyda llifogydd, yn enwedig pan mae llygredd carthffos yn heintio'r llif, rwy'n cwestiynu'n be fydd y canlyniad o droi llif ychwanegol o ddŵr i'r Cadnant i leddfu poen y rhan uchaf o'r pentref. Be fydd canlyniad y dŵr ychwanegol yma ar ardal Tan y Buarth? Bydd yn rhaid cwblhau'r gwaith yn y fan honno cyn dechrau ar y gwaith mawr yn rhan uchaf y pentref.

Tra ar y mater o lifogydd, mae cryn broblem wedi bod ers rhai blynyddoedd gyda dŵr yn rhedeg o Ffordd Crawia ac yn effeithio ar eiddo o Ael y Bryn hyd at Ceir Cymru. Mae gwaith wedi ei wneud i osod gwteri ger mynedfa'r cae pêl-droed, ond nid yw'r gwaith yma wedi lleihau rhyw lawer ar y broblem. Ond, rwyf wedi cael cadarnhad y bydd y gwaith ychwanegol yn cael ei gwblhau yn ysod y flwyddyn ariannol bresennol, sef y bydd y gwaith wedi ei gwblhau erbyn Ebrill 2009.

Gwaith ychwanegol Cremlyn

Canolbwyntais yn fy adroddiad flwyddyn yn ôl ar y llanastr a gafodd ei wneud ger Cremlyn drwy'r gwaith o osod goleuadau stryd newydd, a chyn i waith gael ei raglennu i dacluso'r llecyn fe gafwyd mwy o drafferthion gyda'r gwaith o osod darpariaeth band-eang fibre optic i stadau diwydiannol Parc Menai a Bryn Cegin, Bangor, yn ogystal â Galeri, Caernarfon. Roedd tipyn o syndod i bawb nad oedd Stad Ddiwydiannol Cibyn wedi ei chynnwys yn y rhaglen waith. Mae cryn bwysau wedi ei roi ar arianwyr y cynllun, sef y Cynulliad Cenedlaethol, i ailgysidro hyn ar frys. Mae'r pwysau wedi dwyn ffrwyth ac mae Cibyn yn awr i dderbyn y cyfleuster angenrheidiol yma.

Mae'r diolch i un o'r pentref, sef Mr Gwyn Williams, am ei waith blaenllaw i wneud hyn yn bosib.

Gor-yrnu

Mae'r ymgynghoriad olaf wedi bod ynglŷn â gosod yr arwydd 40 mya. Ar y B4366, ger Erw Bian, y gwir leoliad i'r arwydd cyfyngiad yma fydd ochr Gors Bach i fynedfa Cefn Cyntaf. Rwy'n ceisio cael dyddiad cwblhau'r gwaith, ond ar y funud does dim llawer o ymateb i'w gael gan yr adran drafnidiaeth. Ar adegau mae'r diffyg ymateb yma yn achosi cryn bryder, ond, dyfal donc!

Mater arall sy'n rhygnu 'mlaen yw'r gwaith diogelwch y ffordd o flaen yr ysgol. Mae nifer o gyfarfodydd wedi eu cynnal gyda swyddogion y cyngor a phrifathro'r ysgol, ac mae nifer o addewidion wedi eu cael ar beth sydd i'w wneud, ond rydym yn dal i ddisgwyl cael gwybodaeth bendant ar be fydd yn cael ei gyflawni.

Mae pryder mawr ym mhentref Seion oherwydd cyflymdra traffig, a hefyd y nifer o gerbydau trwm sy'n gynyddol ddefnyddio'r ffordd drwy'r pentref. Mae arwyddion wedi eu gosod i nodi'r ffaith fod y ffordd yn anaddas i gerbydau trwm, ac mae hyn, diolch i'r drefn, wedi lleihau'r pwysau. Tystiolaeth, mwy na heb, mai'r peiriannau morgludo lloeren oedd yn gyfrifol, o bosib, am droi peth o'r drafnidiaeth. Hefyd mae gwybodaeth wedi dod i law fod arwyddion 30mya am gael eu gosod bob ochr i'r pentref. Bydd rhaid ddisgwyl rai misoedd hyd nes y bydd y cyfnod yngynghori wedi dod i ben. Rhaid diolch o galon i drigolion Seion am eu cymorth a'r pwysau parhaol ar y cyngor i allu dod â hyn i rym.

Ffyrdd a thacluso

Yn ystod misoedd yr haf mae Ffordd Crawia a'r ffordd sy'n arwain o'r B4366 drwy Penrhos wedi eu hailwynebu a'u marcio. Mae hyn yn ei gwneud yn bleser eu defnyddio, wrth gofio'r tyllau a'r wyneb anesmwyth a oedd yn bodoli cynt.

Mae wedi bod yn bosib hefyd gwneud defnydd o'r 'Gang Gymunedol', sef gweithwyr y cyngor sy'n mynd o ardal i ardal i gario allan waith amgylcheddol a thacluso. Am rai dyddiau yn ystod Hydref buont yn tacluso o amgylch Bro Rhos, ble roedd y gor-dyfiant a'r chwyn o amgylch yn ddolur llygaid.

Mae'n siŵr bod sylw wedi ei roi i'r arwyddion 'Dim Cŵn' sydd wedi eu rhoi ar fynedfeydd i'r cae chware. Mae hyn, wrth gwrs, am bod nifer o gwynion wedi dod i law fod nifer o'r anifeiliad yn defnyddio'r cae fel toiled.

Mae bin sbwriel wedi ei osod ger yr offer chwarae, yn ogystal a thri bin baw cŵn wedi eu gosod yn Penrhos, Tan y Fynwent a Ffordd Tre'r Gof.

Rwy'n gobeithio cynnal cyfarfodydd agored yn ystod yr wythnosau nesaf yn y Neuadd Goffa a Festri Capel Seion er mwyn cael arweiniad gennych be yw anghenion y fro yn y cyfnod etholaethol newydd. Mater rwy'n awyddus iawn o dderbyn eich sylwadau arno yw'r posibilrwydd o gynnal cymorthfeydd rheolaidd yn y ddau bentref.

Os oes angen unrhyw wybodaeth neu gymorth arnoch, cysylltwch ar (01248) 670 666 neu drwy e-bost: huw.hughes@lineone.net

HUW PRICE HUGHES
Cyngorwr Plaid Cymru dros
Bethel a Seion.

ARVONIA



- Gwyliau cerbyd Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Tripiau Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer logi preifat.
- Adran teithiau grŵp – yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatr a digwyddiadau.



Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Ffôn: 01286-675175 Ffacs: 01286-671126 E-bost: info@arvonias.co.uk
Gwefan: www.arvonias.co.uk

Cydnabyddir cefnogaeth

Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government



BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD



www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

Bwrsariaeth Llwyddo'n Lleol Ar Agor



Aled Jones, a dderbyniodd fwrariaeth Llwyddo'n Lleol er mwyn sefydlu busnes Ysgol Yrru

Oes gennych chi syniad am fenter newydd ac eisiau ei dreialu? Os felly mae cymorth ar gael trwy Fwrsariaeth Llwyddo'n Lleol, sydd bellach wedi ailagor.

Mae Bwrsariaeth Llwyddo'n Lleol ar gael i helpu unigolion a grwpiau yng Ngwynedd wledig sydd o dan 31 oed ac sydd am dreialu neu sefydlu menter eu hunain. Mae cymorth ar gael i ddatblygu syniad a pharatoi cynllun busnes syml, ac yna i ddefnyddio'r cynllun busnes i geisio am fwrariaeth Llwyddo'n Lleol.

Mae uchafswm o £1,000 yn cael ei gynnig trwy'r fwrariaeth ac fe all gefnogi ystod o weithgareddau gan gynnwys prynu offer, costau hyfforddiant, deunydd marchnata neu sefydlu gwefan.

Un o'r rhai a dderbyniodd fwrariaeth i'w gefnogi i sefydlu ei fusnes ei hun yw Aled Jones o Lanberis. Cafodd gefnogaeth trwy'r fwrariaeth i'w helpu i sefydlu busnes Ysgol Yrru -

'Ysgol Yrru AL'.

Mae'r Ysgol Yrru wedi'i sefydlu ers blwyddyn bellach, ac yn mynd o nerth i nerth. Mae Aled yn cynnig gwasanaeth dwyieithog i gwsmeriaid, ac yn darparu gwersi gyrru i ddechreuwr, ynghyd â'r hyfforddiant a chymhwyster *Pass Plus* i yrrwyr mwy profiadol.

Ychwanegodd Aled:

'Nid yn unig roedd y fwrariaeth yn gymorth i gychwyn y busnes, ond roedd y gefnogaeth a'r cyngor hefyd yn help mawr i mi gael yr hyder i gychwyn busnes fy hun.'

Mae rhaglen Llwyddo'n Lleol yn cael ei gefnogi gan gronfa Gweithredu dros Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cynulliad Cymru, a Chyngor Cymru.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Bethan Jones, yn Menter a Busnes ar (01248) 672607 neu ewch i'r wefan www.llwyddonlleol.com

Am gymorth:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli



Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

cysylltwch â Mantell Gwynedd

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol

ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com

01286 672626 neu 01341 422575

Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfnewid drwy Warant 3420271

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

Dewis eang o Welyau a 3P/Suites.
Llenni Venetian a Llenni Roler.

5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc -
allwch chi ffordio prynu o batrymau?

Ffôn/Ffacs:
(01286) 650291

Ar Agor
9-7 pm
9-5 pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher

GLANHAU CARPEDI
GYDA STIMVAK

Oes gynnych chi stori?

Y Nadolig hwn ar S4C, bydd darllediad cyntaf o'r ffilm animeiddio, *Nadolig Plentyn yng Nghymru*, sef cyfieithiad o *A Child's Christmas in Wales*, gan Dylan Thomas.

I gydfynd â'r ffilm, ceir rhaglen arbennig arall, sef casgliad o atgofion trigolion Cymru heddiw am Nadoligau eu plentynod nhw.

Oes ganddoch chi brofiadau neu ddigwyddiadau teuluol doniol i'w rhannu? Neu beth am

draddodiadau cymunedol unigryw rydych chi'n ymwneud â nhw bob blwyddyn?

Ar y funud, rwy'n casglu storfa o straeon gan bobl ar draws Cymru gyfan, felly byddwn yn falch iawn o dderbyn unrhyw un o'ch storïau chi drwy e-bost: llinos.williams@cwmnida.tv neu trwy fy ffonio ar (01286) 685300.

Mae'n rhaid i mi siarad hefo rhywun



Y SAMARIAID
(01248) 674985



www.fframio.com

FFRAMIA

Parc Padarn, Llanberis
(01286) 870922

Gwasanaeth Fframio Lluniau

Dewis eang o luniau yn yr Oriel ac ar y wefan
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy.

amgueddfacymru.ac.uk

FFAIR GAELAF
30 Tachwedd 2008
11am - 4pm

a national
slate
museum
amgueddfa
lechi
cymru

AR AGOR TRWY'R
FLWYDDYN

Pasg - Hydref
10am - 5pm bob dydd
Hydref - Mawrth
10am - 4pm Sul - Gwener

AMGUEDDFA LECHI CYMRU
Llanberis, LL55 4TY
☎ 01286 870630

Llu o weithgareddau i
groesawu'r Nadolig!
Sioe Bypedau,
cerddoriaeth,
a cyfle i wneud crefft
Nadoligaidd i fynd adref.

Bydd Sion Corn yn cyrraedd
ar drên am 11am! Postiwch
lythyr ato yn y blwch post
arbennig - bydd Sion Corn
yn ymateb i pob un!


Nadolig llawen i ddarlllenwyr Eco'r Wyddfa

CHWARAEON

JACS Y GOGLEDD

Meilyr Emrys, lleisydd y grŵp Vanta sy'n ein cyflwyno y mis yma i grŵp cynyddol o gefnogwyr o Fro'r Eco. Diolch iddo am ei gyfraniad parod, a phob hwyl am y tymor.

* * *



Dafydd yn sefyll ger cerflun Ivor Allchurch tu allan i Stadiwm Liberty.

Ers hanner canrif bellach, mae yna lu o drigolion bro'r Eco wedi teithio tua'r dwyrain yn wythnosol, er mwyn cefnogi Lerpwl, Everton a Manchester United ac, erbyn hyn, Arsenal. Gyda dau o brif glybiau Cymru bellach yn mwynhau rhywfaint o lwyddiant, a John Toshack i'w weld yn cael rhywfaint o drefn ar y tîm cenedlaethol, da yw gweld fod mwy o drigolion y gogledd-orllewin hefyd bellach yn dilyn Abertawe a Chaerdydd.

Yn ddiweddar, mae clwb Stadiwm y Liberty wedi dechrau magu rhywfaint o gysylltiadau gyda Sir Gaernarfon: mae Owain Tudur Jones (o Benrhosgarnedd) bellach wedi sefydlu ei hun fel un o arwyr yr Elyrch, a bu bron i Owain Fôn Williams, o Ddyffryn Nantlle, ymuno ag OTJ yn Abertawe, cyn iddo benderfynu ymuno â Stockport County (ble y mae yntau hefyd bellach yn prysur gwneud tipyn o enw iddo'i hun).

Cysylltiadau o fath gwahanol arweiniodd fi at fod yn Jac. Gan fod ochr fy nhad o'r teulu'n dod o Gwm Tawe, a'i fod ef a fy nhad-cu ill dau yn Elyrch brwd, bu'n rhaid i mi ddysgu'n sydyn iawn mai'r Swans oedd y clwb pêl-droed pwysicaf yn y byd. Un o fy atgofion cynharaf yw cael fy hebrwng tuag at y Vetch – sef hen gartref Clwb Pêl-droed Abertawe – i'w gwyllo nhw'n rhoi crasfa i Stockport County. Roedd hyn ymhell cyn dyddiau'r ddau Owain, wrth gwrs, ond ers hynny, rwyf innau – fel fy nhad a fy nhad-cu – hefyd wedi bod yn aelod brwd o'r Jack Army!

Gyda fy mrawd, Dafydd, hefyd bellach wedi dal y chwilien, a ffrindiau eraill o Gwm Tawe wedi ymgartrefu ym mro'r Eco, erbyn hyn, mae yna o leiaf ddau lond car o Jacs brwd yn gadael yr ardal hon yn rheolaidd i ddilyn yr Elyrch. Gan ei bod hi'n aml yn haws i ni gyrraedd gemau oddi cartref Abertawe aethom draw i Gaer, Macclesfield, yr Amwythig, Crewe, Wreccsam, Huddersfield, Blackpool a Port Vale. Ond nawr, a'r Elyrch yn y Bencampwriaeth, braf fydd cael mentro i'w gwyllo'n chwarae yn erbyn Wolves a Birmingham y tymor hwn, a hynny mewn stadia dipyn mwy cyfforddus nag un neu ddwy o'r rhai yr ydym wedi ymweld â hwy yn y gorffennol!

Wrth dreulio tymor ar ôl tymor yn teithio hyd a lled gogledd Lloegr, mae Elyrch bro'r Eco wedi canfod nifer o ogleddwyr eraill o'r un anian ac, o ganlyniad, mae gennym bellach ein catrawd gefnogol ein hunain o fewn Byddin y Jacs, sef Jacs y Gogledd! Mae gennym bellach ein grŵp ein hunain ar Facebook, a – diolch i Geraint George a'i deulu o Frynrefail – ein baner ein hunain. Y gobaith mawr fydd gweld y faner honno ar Match of the Day y tymor nesaf, pan fyddwn – gobeithio – yn cael dilyn Abertawe i lefydd fel Old Trafford, Anfield a Pharc Goodison.

Uchafbwynt y tymor yma hyd yn hyn oedd ein buddugoliaeth ddiweddar dros Gaerdydd yng nghystadleuaeth Cwpan Carling. Teithiodd rhai o Jacs y Gogledd i lawr i'r Liberty ar gyfer y gêm honno, ac wedi profi'r awyrgylch drydanol a grëwyd gan 18,000 o gefnogwyr Cymreig y noson honno, mae'n rhaid lleisio'r farn y byddai'n dipyn callach pe bai Cymdeithas Bêl-droed Cymru wedi symud rhai o gemau rhagbrofol diweddar y tîm cenedlaethol i stadia llai – megis y Liberty yn Abertawe, neu'r Cae Ras yn Wreccsam.

Hefyd, o safbwynt mwy hunanol, gydag Ashley Williams ac Owain Tudur bellach yn aelodau o garfan Cymru, mae'r Cae Râs yn Wreccsam yn dipyn agosach na Chaerdydd i mi a gweddill Jacs y Gogledd, wrth gwrs!

YDYN NI'N RHY GROESAWGAR?

Yr wythnos diwethaf mi es draw i Landudno i glywed Max Boyce. Cafwyd noson hwyliog iawn, a'r gynulleidfa yn ymuno'n barod i greu awyrgylch hynod. Fel rhan o'r adloniant ceisiodd Max esbonio pam nad oedd tîm rygbi Cymru wedi trechu y Teirw Duon o Seland Newydd ers 1953. Teimlai ein bod wedi colli o'r eiliad mae'r ymwelwyr yn cael perfformio'r Hakka ryfelgar. Y Duon yn paratoi am ryfel, a ni

gyda chôr meibion yn morio 'We'll keep a Welcome...' Ateb Max oedd i dorf Stadiwm y Mileniwm sefyll a chreu Hakka Cymreig ar y geiriau 'Humpty Dumpty'.

Syniad rhyfeddol! Ac eto, onid oes rhyw elfen o wirionedd yn y ffwlbrî. A yw rhwysg Stadiwm y Mileniwm erbyn hyn yn codi ofn ar ymwelwyr, yn enwedig mewn gemau pêl-droed?

Cafwyd dau berfformiad pitw – er llwyddianus – yn erbyn Azerbahjan a Liechtenstein. Pitw iawn oedd y dorf – 18,000 – a fawr ddim awyrgylch. Hefyd, y gwyn gynyddol am gyflwr y maes ar gyfer gemau pêl-droed. Wedi perfformiadau boddhaol yn Rwsia a'r Almaen, mae'n siŵr y gwelir torf fwy sylweddol yn y gemau cyfatebol. Nid yw torf fawr am ddychryn chwaraewyr o'r gallu yma.

Rwy'n siŵr y buasai Cymru wedi elwa o chwarae rhai o'r gemau i ffwrdd o Gaerdydd – yn Wreccsam, Abertawe neu hyd yn oed Barc Ninian neu'r stadiwm newydd yno, o'r tymor nesaf. Cymharer yr awyrgylch ar Barc Ninian ar nos Wener ar gyfer y gêm dan 21 â'r dorf farwaidd yn y cae mawr y diwrnod canlynol.

Oherwydd costau teithio a llety erbyn hyn, mae llai o deithwyr yn cefnogi Cymru 'adref' yn y brifddinas. Sylwch ar y dorf. Nifer o deuluoedd, i gyd wedi prynu sgarffiau, capiau etc. Gwych. Night out. Cyfle i dad fynd â'r plant i weld y cae mawr, ac adref o fewn yr awr.

Ewch i Wreccsam neu Barc Ninian. Pobol ffwtbol go iawn. Ar eu traed yn bloeddio, ac yn creu awyrgylch gefnogol. Y mae'r canlyniadau yn fwy pwysig nac elw ariannol.

Ac ar yr elfen dactegol yna, mae meysydd ymarfer Wreccsam ac Abertawe o safon uchel iawn.

Roedd llawer ohonom yn poeni o ble roedd y Giggs newydd am ddod. Wel, yn fy marn i daeth yn amser i Aaron Ramsay fynd yn syth i'r tîm hŷn. A, gyda chydweithrediad Mark Hughes, gallai Chad Evans ddatblygu'n arweinydd cadarn.

Croeso ar ôl y gem. Hwnna ydi o!

A YW PETHAU'N GWELLA?

Mae cryn sylw wedi ei roi i berfformiadau dyfarnwyr pêl-droed a'u cynorthwy-wyr yn ddiweddar. Roedd sawl penderfyniad amheus yn gemau Man Utd a Lerpwl yn Ewrop – yn ôl y camerâu! Yr awdurdodau yn llym ar unrhyw iaith anwedus. Mae ffigyrau y cynghreiriau lleol – Arfon a Gwynedd – yn awgrymu gwelliant, gyda'r nifer o gardiau coch a melyn i lawr. Gobeithio y bydd hyn yn parhau – ni all rhai clybiau fforddio talu'r dirwyon.

Yna tynnwyd fy sylw at y gêm rhwng Venture Community a'r Felinheli draw yn Wreccsam yn yr F.A.W. Trophy. Y Felin yn ennill 3-2 yn erbyn tîm o brif adran Cynghrair Wreccsam. Ond och! Dim 'Community Spirit' yma. Y tîm cartref yn derbyn wyth cerdyn

melyn a thri cerdyn coch. Ydy hyn yn record?

Braf gweld enwau bechgyn oedd mewn timau dan 15, dymor neu ddau yn ôl, yn chwarae a sgorio yn rheolaidd i'r Felin. Mae nifer o chwaraewyr dawnus yn nhimau dan 15/16 bro'r Eco ar hyn o bryd. Gobeithio y cânt hwy eu cyfle mewn tymor neu ddau. Dyna'r ffordd orau i gyfiawnhau ymdrech ddiffino yr hyfforddwyr gyda'r bechgyn tu fewn i'n clybiau. Un llwybr hwylus o'r ieuenctid i'r timau hŷn.

TAFLU A PHOTIO

Erbyn hyn mae gemau dan do y gaeaf wedi dechrau. Dyddiau cynnar – traean o'r tymor – ond mae timau dartiau SPH (Waunfawr), Bull (Deiniolen) a'r Dolbadarn (Llanberis) wedi dechrau'n dda yn y brif adran. Y Bedol (Bethel) a'r Bull B sy'n chwifio'r faner lleol yn yr ail adran. Ar y bwrdd pŵl, mae tîm Gors Bach A yn herio cewri tîm pêl-droed Caernarfon, sy'n arwain y brif adran o bwynt ar hyn o bryd. Mwy o sglein dan do ar yr Oval nag ar y maes yn amlwg!

Gyda llaw, unrhyw berfformiad da ar y bwrdd dartiau, bwrdd pŵl neu'r bwrdd snwcer, gadewch i mi wybod.

BRAWDDEG IASOL

'Nid yw traddodiad yn talu biliau.' Ar Radio Cymru y clywais y frawddeg. Y cyswllt oedd y drafodaeth ar benderfyniad Sgarlets Llanelli i symud o'r lle sancteiddiolaf ar Barc y Strade i foethusrwydd Parc y Strade ar gyrion y dre. Cafwyd trafodaeth danllyd ac emosiynol yn cwmpasu Llanelli 9 – Seland Newydd 3, Carwyn James ac angladd Grav. Eraill yn sôn fod y cynllun i adeiladu tai ar y Strade yn siŵr o fethu yn yr awyrgylch ariannol presennol. Fel Cymry, nid ydym yn hoff o golli unrhyw beth, er mai tila iawn yw ein cefnogaeth yn aml i'w gadw, boed iaith, gapel neu Swyddfa Bost.

Cawsom yr un ddadl pan benderfynwyd symud clwb pêl-broed Bangor o Ffordd Ffarrar. Llawer ohonom yn dal yn fodlon mynd i'r cyfleusterau cyntefig yno, fel ar y Strade. Erbyn yr amser yma y flwyddyn nesaf y Dreigiau fydd y brawd tlawd ymysg rhanbarthau rygbi Cymru. Bydd Rodney Parade mor hen ffasiwn o'i gymharu â Stadiwm Liberty, Parc y Strade a stadiwm newydd Lecwith, fydd yn gartref i'r Gleision a chlwb pêl-droed Caerdydd. A oes lle i nostalgia yn yr oes ariannol hon?

Yn 1964 cefais fy nghap cyntaf i dim criced Ysgolion Cymru ar faes Parc yr Arfau. O fewn pum mlynedd, roedd y maes criced wedi ei droi yn faes rygbi i glwb Caerdydd. Y flwyddyn nesaf, beth fydd yno? Estyniad o Stadiwm y Mileniwm? Mwy o 'gytiau crach' i'r noddwyr? Fflatiau moethus? Fydd neb yn cofio'r hogyn bach o Lanegai a sgoriodd 21 o rediadau. Yn y cof y byddwn, 'Yma o Hyd'.